



Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2006-2007



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2006-2007

Cyflwynwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i Weinidogion Cymru o dan adran 21 Deddf Addysg 2005 ac adran 86 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, a chyhoeddwyd gan Estyn ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ar y materion a godwyd yn yr adroddiad. Gallwch anfon eich arsylwadau at Estyn neu eu hanfon drwy'r e-bost at prif-arolygydd@estyn.gsi.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i'r Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2008: Gellir aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.



Rhagair

Mae'r adroddiad blynyddol yma'n cynnwys y cyfnod o fis Medi 2006 i fis Awst 2007. Mae'n disgrifio safonau, ansawdd addysg a hyfforddiant, ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn y sampl o ddarparwyr addysg y gwnaethon ni eu harolygu (un rhan o chwech o'r holl ddarparwyr) yn ystod y cyfnod hwnnw yng Nghymru. Mae'r darparwyr yma wedi'u nodi yn nhrefn y wyddor yn atodiad 1 yr adroddiad yma.



Dr William Maxwell
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Er mwyn i gymaint â phosib o bobl ddarllen yr adroddiad, ac i osgoi argraffu copiâu papur a fydd efallai'n ddiangen, dim ond ar ein gwefan y mae'r adroddiad llawn yma ar gael. Rydyn ni wedi creu dogfen gryno ar ffurf papur, 'Penawdau Estyn', ac fe ddsbarthwyd honno ar y diwrnod y cafodd yr adroddiad blynyddol yma ei lansio.

Mae safonau wedi parhau i wella yn y rhan fwyaf o feysydd addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn ystod 2006-07, yn arbennig o'u hystyried yn y tymor hir.

- ✓ Mae ysgolion cynradd yn gwneud yn dda ac wedi gwneud yn well na tharged Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2007 a oedd yn nodi y dylai safonau 98% o ddsbarthiadau fod yn foddhaol. Mae maint y gwaith da yn y sampl o ysgolion cynradd a gafodd eu harolygu eleni wedi cynyddu o dri phwynt canran ers y llynedd ac o 29 pwynt canran dros y chwe blynedd er 2000-2001, pan gafodd y rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd yma eu harolygu ddiwethaf.
- ✓ Yn yr ysgolion uwchradd y gwnaethon ni eu harolygu eleni, mae safonau wedi gwella o chwe phwynt canran ers y llynedd ac mae maint y gwaith da neu well wedi cynyddu o 20 pwynt canran dros y chwe blynedd diwethaf.
- ✓ Mae mwy a mwy o ysgolion yn dangos rhagoriaeth (gradd 1) ar draws pob un o'r saith maes gwaith yr ydyn ni'n eu harolygu ac yn eu graddio (18 o ysgolion allan o 301 a gafodd eu harolygu). Y prif resymau am ragoriaeth yn yr ysgolion yma yw gwell arweinyddiaeth a gwelliannau yn yr addysgu.

- ✓ O ran colegau addysg bellach, mae safonau'n dda o leiaf mewn 90% o'r sesiynau y gwnaethon ni eu harolygu eleni. Mae hyn yn well o lawer na tharged Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n nodi y dylai 80% o gyrsiau fod yn radd 1 neu'n radd 2 erbyn 2007. Cynyddodd cyfran y sesiynau sydd â gwaith rhagorol o 29% y llynedd i 37% eleni. Mae mwy o fyfyrwyr yn ennill dyfarniadau medrau allweddol, yn enwedig ar lefel 3 ac yn y sgiliau allweddol ehangach.
- ✓ Mae dysgu yn y gwaith wedi dangos gwelliant mawr. Roedd gan lai na chwarter y darparwyr y gwnaethon ni eu harolygu safonau anffoddhaol yn gyffredinol (gradd 4), o gymharu â bron i hanner y darparwyr y llynedd.

Felly, mae'r darlun ar gyfer 2006-2007 yn un cadarnhaol ar y cyfan, ond er bod safonau wedi gwella, mae'r gyfradd wella'n arafu mewn llawer o sectorau addysg, fel y mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos.

- Mae safonau cyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1, 2 a 3 yn lefelu. Yng nghyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir ganddyn nhw (lefel 2) wedi aros yn weddol gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir ganddyn nhw (lefel 4) wedi aros yr un fath er 2005. Yng nghyfnod allweddol 3, dros y pum mlynedd diwethaf, dim ond cynnydd bach sydd wedi bod yng nghanran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir ganddyn nhw (lefel 5) mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae cynnydd ychydig yn fwy mewn Saesneg a gostyngiad bach mewn Cymraeg.
- Ar ddiwedd addysg orfodol yn 16 oed, nid oes unrhyw gynnydd wedi bod yn unrhyw un o'r dangosyddion arholiad ers y llynedd, gyda 54% o ddisgyblion yn ennill o leiaf bum gradd A* i C ac 86% o ddisgyblion yn ennill o leiaf bum gradd A* i G ar lefel TGAU neu lefel gyfwerth. Mae safonau cyflawniad yn yr ysgolion uwchradd rydyn ni wedi'u harolygu i weld yn lefelu hefyd ar ôl cyfnod o gynnydd cyson er 1999. Er enghraifft, yn 2006-2007, roedd canran y gwersi gradd 1 a gradd 2 yn uwch na'r ganran ar gyfer 2005-2006, ond ychydig yn is na'r ganran ar gyfer 2004-05.
- O gymharu â gwledydd eraill y DU sydd â systemau asesu tebyg, nid yw disgyblion yng Nghymru wedi gwneud gystal. Er enghraifft, o gymharu â disgyblion yn Lloegr yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad yn mynd yn fwy o flwyddyn i flwyddyn. Mae cyfran y disgyblion 15 oed yng Nghymru sy'n ennill o leiaf bum gradd A* i C ar lefel TGAU yn aros ychydig o bwyntiau canran islaw'r ffigur ar gyfer Lloegr, ac yn sylweddol islaw'r ffigur ar gyfer Gogledd Iwerddon.
- Mae arolwg diweddar y Rhaglen ar gyfer Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol (PISA) yn dangos nad yw disgyblion 15 oed yng Nghymru yn gwneud gystal mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth â disgyblion mewn unrhyw un o wledydd eraill y DU. Yn ôl canlyniadau'r arolwg o dros 50 o wledydd, cafodd disgyblion Cymru eu rhoi yn safle 27 ar gyfer ddarllen, safle 31 ar gyfer mathemateg a safle 20 ar gyfer gwyddoniaeth.
- Nid yw safonau a mynediad i addysg a hyfforddiant i'r rheini sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuencid wedi gwella dros y ddwy flynedd diwethaf. O ganlyniad, nid yw'r bobl ifanc yma'n cael y cyfleoedd ffurfiol y mae ganddyn nhw hawl i'w cael, a dydyn nhw ddim yn dal i fyny ar ôl colli ysgol.

Thema arall sy'n rhedeg drwy'r adroddiad yma yw bod mwy a mwy o anghysondeb i'w weld yn safonau gwaith y darparwyr, er gwaetha'r gwelliannau cyffredinol. Hefyd, mae anghysondeb rhwng darparwyr o fewn sectorau.

- ✗ Er bod cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n dangos rhagoriaeth ym mhob agwedd ar eu gwaith, dangosodd ein harolygiadau yn ystod 2006-2007 fod 16 ysgol yn peri pryder (lle mae arolygwyr wedi barnu bod angen rhoi mesurau arbennig ar waith neu fod angen eu gwella'n sylweddol). Mae'r ffigur yma bron ddwywaith y ffigur ar gyfer 2005-2006.
- ✗ Eleni, does dim nodweddion rhagorol gan bron i un o bob 10 ysgol, a dim ond yn ddigon da y mae safonau ansawdd. Dros y ddwy flynedd diwethaf (2005-2007), ychydig neu ddim nodweddion rhagorol oedd gan draean o'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu.
- ✗ Mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith, mae gormod o amrywio o hyd o ran safonau'r gwahanol ddarparwyr, ac o ran cyfran y dysgwyr sy'n ennill dyfarniadau medrau allweddol.

Mae perfformiad ar draws Cymru'n wahanol iawn hefyd, fel y mae graddau'r darparwyr yn ei ddangos yn atodiad 1 a siart 19 ar dudalen 34 o'r adroddiad yma. Tameidiog hefyd yw ansawdd gwasanaethau addysg sy'n cael eu darparu gan yr awdurdodau lleol y gwnaethon ni eu harolygu, ac, yn gyffredinol, mae'r ansawdd yn waeth na'r llynedd. Roeddem ni'n ansicr a oedd rhagolygon o unrhyw wella mewn dwy ran o dair o'r gwasanaethau addysg yma.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn rhoi cymorth effeithiol i ysgolion sydd wedi'u nodi yn ein harolygiadau fel rhai sy'n peri pryder. Ond, yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol yn mynd ati'n ddigon cynnar i dargedu cymorth i ysgolion sy'n perfformio ar lefel isel er mwyn eu hatal rhag dod yn achos pryder.

Os yw Cymru'n mynd i ddelio'n effeithiol â phroblemau'r gwella araf a'r anghysondeb, rhaid i ni barhau i weld newidiadau sylfaenol yn y ffordd mae'r wlad yn darparu addysg a hyfforddiant. Mae nifer o newidiadau sylweddol yn dechrau digwydd yng Nghymru, ac mae mwy o newidiadau ar y gweill. Bydd y Cyfnod Sylfaen ar waith erbyn 2011; bydd cwricwlwm diwygiedig ar gyfer disgyblion saith i 16 oed yn cael ei gyflwyno i ysgolion dros gyfnod o dair blynedd o fis Medi 2008; a bydd Bagloriaeth Cymru'n cael ei gyflwyno fesul cam mewn addysg ôl-16 o fis Medi 2007. Mae'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion saith i 14 oed yn cael ei adolygu ym mis Medi 2008, a'i nod yw canolbwyntio mwy ar y medrau meddwl, cyfathrebu, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a rhif. Mae gofalu bod y cwricwla mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn adeiladu ar y Cyfnod Sylfaen yn parhau'n her.

Yn ddiweddar fe adroddon ni ar berfformiad ysgolion a lleoliadau Cyfnod Sylfaen. Mae bron pob un o'r ymarferwyr ar draws Cymru o blaid nodau a dull y Cyfnod Sylfaen. Ond, er bod llawer o enghreifftiau o arfer dda mewn ysgolion a lleoliadau sy'n cynnal cynllun peilot o'r Cyfnod Sylfaen, mae lleiafrif sylweddol o ymarferwyr yn ansicr o ran cynllunio a chyfeirio dysgu plant. Diffyg profiad neu hyfforddiant sy'n gyfrifol am yr ansicrwydd yma.

Mae llawer o fentrau diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru'n annog darparwyr ac asiantaethau eraill i weithio fel partneriaid ac i ddarparu ar y cyd er mwyn cynnal dysgwyr a chodi safonau. Mae partneriaid yn gwella o ran gweithio gyda'i gilydd ac o ran creu cysylltiadau rhwng asiantaethau'r sectorau addysg, iechyd a throseddu. Mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn dechrau gwneud trefniadau ar y cyd ar gyfer plant a phobl ifanc. Ond mae arweinwyr ar draws addysg a hyfforddiant yn dal i fethu cynllunio'n dda gyda'i gilydd ar y lefelau uchaf er mwyn gwneud y gorau o'r holl adnoddau addysg a hyfforddiant sydd ar gael mewn ardal.

Mae colegau addysg bellach yn gweithio'n galed i ddatblygu partneriaethau gyda darparwyr eraill yr ardal. Mae'r partneriaethau yma'n dechrau gwella trefniadau gydag ysgolion, yn enwedig i ddisgyblion 14 i 16 oed. Er hynny, mae'n anoddach o lawer newid patrwm y ddarpariaeth i fyfyrwyr 16 oed a hŷn, yn enwedig y rheini y mae angen cymorth ychwanegol arnyn nhw i fynd yn ôl i ddysgu. Er bod darparwyr wedi gwneud llawer o gynnydd wrth weithio gyda'i gilydd i gynyddu nifer y cyrsiau i ddysgwyr 14 i 19 oed, does dim digon o ddewisiadau ar gael o hyd. Ar draws Cymru, mae nifer o ffactorau'n cyfyngu ar waith y partneriaethau yma. Mae'r ffactorau yma'n cynnwys amharodrwydd i weithio gyda'i gilydd a'r gred mai rhywbeth eilradd yw addysg sy'n gysylltiedig â gwaith.

Mae ysgolion yn ailfeddwl eu dulliau o ddelio â phobl ifanc er mwyn ymateb i her y newidiadau mewn cymdeithas. Mae camddefnyddio sylweddau, yn enwedig camddefnyddio alcohol, yn dal yn broblem sy'n tyfu, ac mae'n effeithio ar bobl ifanc o bob oed.

Fe wnaethon ni ganfod bod addysg am gamddefnyddio sylweddau yn fwy effeithiol mewn ysgolion cynradd nag mewn ysgolion uwchradd. Yn yr ysgolion uwchradd y gwnaethon ni eu harolygu, prin yw effaith yr addysg am gamddefnyddio sylweddau o ran newid agweddau a gwerthoedd lleiafrif sylweddol sy'n parhau i ysmegu neu yfed gormod o alcohol neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon. Mae camddefnyddio sylweddau'n broblem ddifrifol, a dim ond trwy weld yr holl asiantaethau mewn cymunedau lleol yn gweithio gyda'i gilydd y bydd modd mynd i'r afael â'r broblem yma.

Mae cyfraddau beichiogrwydd yn yr arddegau yng Nghymru'n gyson uwch nag yn Lloegr neu yn llawer o wledydd gorllewin Ewrop. Er hynny, dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n cynllunio ac yn cyflwyno addysg o safon am ryw a pherthnasoedd. Mae'r mwyafrif o ysgolion yn dibynnu ar sesiynau unigol, gan nyrs yr ysgol weithiau, a dim ond y ffeithiau sylfaenol sy'n cael eu rhoi. Byddai'n well gosod cyd-destun priodol ar gyfer trafod agweddau emosiynol pwysig ac agweddau pwysig ar berthnasoedd.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol cyffredinol eu disgyblion. Ond dim ond mewn chwarter o ysgolion y mae trefniadau penodol i ddatblygu synnwyr y disgyblion o gyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill wedi'u sefydlu'n dda. Yn yr ysgolion gorau, mae gan arweinwyr ysgol synnwyr clir o'r gwerthoedd y maen nhw am eu harddel. Maen nhw'n trafod y gwerthoedd yma gyda disgyblion ac yn cynnwys yr ysgol a'r gymuned ehangach wrth gytuno arnyn nhw.

Mae'r ffordd y mae ysgolion yn mynd i'r afael â mater gwaharddiadau disgyblion yn newid hefyd. Ers i ni gyhoeddi ein hadroddiad ar wahardd ym mis Mehefin 2007, mae ffigurau diweddar yn awgrymu bod gostyngiad bach wedi bod yn nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol a'r gwaharddiadau parhaol. Ond efallai nad y rhain yw'r ffigurau go iawn, oherwydd, mewn rhai achosion, mae penaethiaid a rhieni'n cytuno ar waharddiadau answyddogol. Mae'r math yma o wahardd yn anghyfreithlon ac nid yw'n gwneud lles i'r disgyblion yn y tymor hir gan nad yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaeth addysgol ar eu cyfer. Mae ffyrdd eraill i ysgolion ddelio â sefyllfaoedd lle mae gwahardd yn amhriodol. Lle mae gan ysgolion ganolfannau cymorth disgyblion a thimau o staff arbenigol i gynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd, mae'r canolfannau yma'n gweithio'n dda.

Mae ansawdd y gweithlu'n bwysig o ran codi safon cyflawniadau dysgwyr. Bydd gwella addysg yng Nghymru'n dibynnu ar weld pob aelod o staff yn cael ei hyfforddi i'r lefel orau bosib. Mae'r rhaglen sefydlu newydd a'r rhaglen datblygiad proffesiynol cynnar yn helpu athrawon i ymgartrefu'n dda yn y proffesiwn addysgu. Mae'r rhaglen yn rhoi amser i athrawon yn ystod eu swydd addysgu gyntaf i adeiladu ar eu hyfforddiant cychwynol. Ar y cyfan, mae rhaglenni cenedlaethol da ym maes arweinyddiaeth sy'n cynorthwyo'r athrawon hynny sydd am fynd yn benaethiaid a phenaethiaid profiadol, ond mae'r hyfforddiant a'r cymorth i reolwyr canol yn brinnach.

Dros y ddwy flynedd nesaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n lleihau nifer y lleoedd hyfforddiant athrawon. Mae Cymru'n cynhyrchu gormod o athrawon ac mae llawer o athrawon cynradd yn arbennig sydd newydd gymhwyso'n gadael y proffesiwn am eu bod nhw'n methu dod o hyd i swydd yng Nghymru.

At ei gilydd, mae addysg yng Nghymru'n rhoi i ddysgwyr yr hyn y maen nhw ei angen, ond mae'n methu nifer sylweddol. Mae'r dysgwyr yma'n ei chael hi'n anodd dal i fyny'n nes ymlaen yn eu bywydau, ac efallai na chân nhw ail gyfle. Rhaid i bawb sy'n gysylltiedig â maes addysg weithio gyda'i gilydd i gael gwared â'r anghysondebau yn y ddarpariaeth sy'n cael sylw yn yr adroddiad yma. Y nod yw darparu un o'r systemau addysg gorau yn y byd sy'n rhoi cyfle teg i bob dysgwr lwyddo, ble bynnag mae'n byw.

Cynnwys

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru: pa mor addas i'r diben? 1

Perfformiad ar ddiwedd y cyfnodau allweddol: rhai cymariaethau 3

Graddau ysgol gyfan	4
Graddau gwersi	5

Lleoliadau i blant dan bump oed 5

Safonau	5
Ansawdd addysg a hyfforddiant	6
Arweinyddiaeth a rheolaeth	7

Ysgolion cynradd 7

Safonau	7
Ansawdd addysg a hyfforddiant	12
Arweinyddiaeth a rheolaeth	14

Ysgolion uwchradd 16

Safonau	16
Ansawdd addysg a hyfforddiant	22
Arweinyddiaeth a rheolaeth	25

Ysgolion arbennig (gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol) 28

Safonau	28
Ansawdd addysg a hyfforddiant	29
Arweinyddiaeth a rheolaeth	30

Unedau cyfeirio disgyblion 31

Safonau	31
Ansawdd addysg a hyfforddiant	31
Arweinyddiaeth a rheolaeth	32

Gwaith awdurdodau lleol 32

Gwella ysgolion	32
Arolygiadau awdurdodau lleol	37
Rheolaeth strategol	37
Mynediad a threfniadaeth ysgolion	38
Anghenion dysgu ychwanegol	39

Ysgolion annibynnol 40

Safonau	40
Ansawdd addysg a hyfforddiant	41
Arweinyddiaeth a rheolaeth	41

Gwasanaethau cymorth ieuencid 42

Safonau	42
Ansawdd addysg a hyfforddiant	43
Arweinyddiaeth a rheolaeth	44

Y system cyfiawnder ieuencid 45

Safonau	45
Ansawdd addysg a hyfforddiant	45
Arweinyddiaeth a rheolaeth	46

Colegau addysg bellach 46

Safonau	46
Ansawdd addysg a hyfforddiant	47
Arweinyddiaeth a rheolaeth	48

Dysgu yn y gwaith 49

Safonau	49
Ansawdd addysg a hyfforddiant	50
Arweinyddiaeth a rheolaeth	50

Workstep 52

Gyrfa Cymru 53

Cyrsiau hyfforddi athrawon 54

Dysgu oedolion yn y gymuned 54

Safonau	54
Ansawdd addysg a hyfforddiant	55
Arweinyddiaeth a rheolaeth	56

Adran dau: Gweithio mewn partneriaeth 57

Crynodeb	58
Cynlluniau datblygu rhwydweithiau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed	58
Arolygiad ardal	59

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr 60

Cyfiawnder cymdeithasol 61

Cydraddoldeb anabledd mewn ysgolion	61
Anghenion dysgu ychwanegol	62
Disgyblion sy'n cael eu haddysg y tu allan i'r ysgol	62
Gwahardd disgyblion	63
Cwmnïau gyrfa a stereoteipio	64

Materion i ddysgwyr 64

Y Cyfnod Sylfaen	64
Gwella dysgu ac addysgu medrau darllen cynnar	65
Addysg gwerthoedd	66
Cynnwys dysgwyr (3 i 11 oed)	67
Addysg am gamddefnyddio sylweddau	67
Arweiniad ar ryw a pherthnasoedd	68
Merched yn cymryd rhan mewn addysg gorfforol	69
Y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru	69
Addysg Gymraeg a dwyieithog	70
Cyrsiau byr TGAU mewn Cymraeg fel ail iaith	72

RAISE – 'Gwella cyrhaeddiad a safonau unigol mewn addysg'	73
CLIC Ar-lein – gwasanaeth cyngor Cymdeithas Gyrfa Cymru	73

Cefnogi ymarferwyr 74

Anelu at Ragoriaeth	74
Y fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol	75
Addysg gorfforol a diogelwch yn yr awyr agored	75
Datblygiad proffesiynol athrawon	76
• Rhaglenni ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru	76
• Sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar athrawon	77
• Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn ysgolion	77
• Hyfforddiant Cymraeg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i athrawon	78
Datblygiad proffesiynol arweinwyr	79
• Y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol i Benaethiaid Ysgolion	79
• Y Rhaglen Arweinyddiaeth Ymgynghorol i Benaethiaid Ysgolion	79
• Arweinyddiaeth a rheolaeth strategol yn y sector addysg bellach, y sector dysgu yn y gwaith a'r sector dysgu oedolion yn y gymuned	80
Y Grant Sefydliadau Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol	81
Pa mor dda mae dysgwyr sy'n astudio cyrsiau gofal cymdeithasol yn cyflawni mewn colegau addysg bellach a dysgu yn y gwaith	81

Sut olwg fydd ar ddysgu?	82
Gweddnewid ysgolion	82
Adeiladau ysgol a'u heffaith ar berfformiad disgyblion	83
Y fframwaith arolygu cyffredin	84
Geirfa	85
Atodiadau 1-4	110

Graddau arolygu

Rydyn ni wedi defnyddio'r raddfa pum pwynt sy'n dilyn i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad yma (ac eithrio ar gyfer arolygiadau o wasanaethau awdurdod addysg lleol).

Gradd 1	Da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4	Rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	Llawer o ddiffygion pwysig

Esboniad o'r geiriau a'r ymadroddion sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio'n harfarniadau

Y geiriau a'r ymadroddion yn y golofn chwith sy'n dilyn yw'r rheini'r ydyn ni'n eu defnyddio i ddisgrifio'n harfarniadau. Yr ymadroddion yn y golofn dde yw'r esboniadau mwy cywir.

bron bob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf	90% neu fwy
llawer	70% neu fwy
mwyafrif	dros 60%
hanner/tua hanner	agos at 50%
lleiafrif	o dan 40%
ychydig	o dan 20%
ychydig iawn	llai na 10%



Adran un

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ariannu Estyn, ond mae'n annibynnol ar y Cynulliad. Mae ein gwaith arolygu'n rhan allweddol o'r dasg o godi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. (Mae rhestr o'r darparwyr rydyn ni wedi'u harolygu ar dudalennau 105-109.)

Rydyn ni'n rhoi cyngor ar faterion penodol i Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymateb i gylch gwaith blynyddol gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Mae ein cyngor yn cynnig tystiolaeth o effaith strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r blaenoriaethau yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'. Mae ein cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth o arolygiadau. Gallwn ni edrych ar safonau ac ansawdd ar draws pob agwedd ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru o safbwynt unigryw ac annibynnol, ac mae hyn yn cyfrannu at y polisiau ar gyfer addysg a dysgu gydol oes sydd wedi'u cyflwyno ar draws Cymru.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith a'n dull o weithio, trowch at ein gwefan www.estyn.gov.uk.

Pan fyddwn ni'n cynnal ein harolygiadau, ein nod cyffredinol yw ateb y cwestiwn – pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni? I wneud hyn, rydyn ni'n edrych ar gyflawniadau dysgwyr, ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant sy'n cael eu darparu iddyn nhw, ac effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr arwain a'r rheoli. Mae rhestr lawn o'r cwestiynau y mae'r fframwaith arolygu cyffredin wedi'i seilio arnyn nhw ar dudalen 84. Y rhain yw'r saith cwestiwn allweddol. Mae tudalen x yn dangos y raddfa pum pwynt yr ydyn ni'n ei defnyddio i ddangos ein barn wrth arolygu.

Mae'r siartiau yn [atodiad 1](#) (tudalennau 111-130) yn dangos y graddau a gafodd eu dyfarnu ar sail pob cwestiwn allweddol yn y 347 o [ddarparwyr](#) y buon ni'n eu harolygu yn ystod 2006-2007. Mae'r holl wybodaeth yma ar gael yn barod yn ein hadroddiadau arolygu sydd wedi'u cyhoeddi. Mae'r cyfan i'w gweld ar ein gwefan. Mae'r graddau yma, sydd wedi'u codio yn ôl lliw, yn grynodedig o'r wybodaeth y mae'r cyfan o adran 1 yr adroddiad yma wedi'i seilio arni. Mae'r adrannau sy'n dilyn yn cynnig sylwadau ar ein darganfyddiadau arolygu ar draws pob sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Perfformiad ar ddiwedd y cyfnodau allweddol: rhai cymariaethau

Mewn asesiadau athrawon cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 1 dros y blynyddoedd diweddar, mae disgyblion yng Nghymru yn gyffredinol wedi cyrraedd safonau mewn gwyddoniaeth ac ysgrifennu sy'n debyg i safonau yn Lloegr, ond mae safonau'n parhau ychydig yn is na'r safonau yn Lloegr mewn mathemateg a darllen.

Mewn asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 2 dros y blynyddoedd diweddar, mae disgyblion yng Nghymru wedi cyrraedd safonau uwch na disgyblion yn Lloegr mewn mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth. Ond yn 2007¹ mae'r bwlch mewn perfformiad mewn gwyddoniaeth a mathemateg wedi cau am y tro cyntaf.

Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae cymariaethau rhwng Cymru a gwledydd eraill y DU yn gymhleth gan fod canlyniadau ar ddiwedd pob cyfnod allweddol yng Nghymru'n cael eu mesur gan asesiadau athrawon, a does dim trefn gyffredinol o gymharu cywirdeb a chysondeb yr asesiadau yma rhwng ysgolion gwahanol, grwpiau o blant ac awdurdodau lleol.

Yng nghyfnod allweddol 3, nid yw disgyblion yng Nghymru wedi gwneud gystal â disgyblion yn Lloegr mewn Saesneg a mathemateg. Mewn gwyddoniaeth, mae disgyblion yng Nghymru wedi cyrraedd safonau uwch na disgyblion yn Lloegr er 2004. Ond, yn 2007, cyrhaeddodd disgyblion yn Lloegr safonau uwch mewn gwyddoniaeth am y tro cyntaf yn y blynyddoedd diweddar. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng y ddwy wlad yn mynd yn fwy.

Mae canran y disgyblion 15 oed yng Nghymru sy'n ennill pump neu fwy TGAU gradd A* i C neu gyfwerth â hynny² ychydig o bwyntiau canran yn is na'r ffigur ar gyfer Lloegr o hyd. Mae'r dangosydd yma (pump neu fwy TGAU gradd A* i C neu gyfwerth) wedi cynyddu'n gyflymach yn Lloegr nag yng Nghymru, ac mae'r bwlch rhwng y ddwy wlad yn dal i dyfu.

Fe wnaethon ni hefyd gymharu canran y disgyblion 15 oed yng Nghymru sy'n ennill pump neu fwy TGAU gradd A* i C â chanrannau Gogledd Iwerddon. Mae'r bwlch rhwng y ddwy wlad bron yr un fath eto, ac mae Gogledd Iwerddon naw pwynt canran o flaen Cymru.

Siart 1: Canran y disgyblion 15 oed yn ennill pump neu fwy TGAU gradd A* i C neu gyfwerth â hynny yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2002-2007³

	2002	2003	2004	2005	2006	2007 ⁴
Cymru	50	51	51	52	54	54
Lloegr	52	53	54	56	59	62
Gogledd Iwerddon	59	59	60	61	63	Ddim ar gael

¹ Data dros dro yw data 2007 ar gyfer cyfnodau allweddol 1, 2 a 3 yn Lloegr.

² Mae ffigurau TGAU yn cael eu dangos fel canran o ddisgyblion 15 oed yng Nghymru a Lloegr cyn 2005. O 2005, mae ffigurau Lloegr ar gyfer disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. O 2007, mae ffigurau Cymru ar gyfer disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 hefyd. O 2004, mae ffigurau Lloegr yn cynnwys amrywiaeth ehangach o gymwysterau sy'n gallu ychwanegu at y dangosydd pump neu fwy o raddau A* i C yng Nghymru. Mae'r dangosydd ar gyfer Gogledd Iwerddon yn debyg i'r dangosydd yng Nghymru.

³ Ffigurau o Friff Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru SB27/2007 'Perfformiad mewn Asesiadau ac Arholiadau yng Nghymru: Cymariaeth gyda Lloegr a'i Rhanbarthau'

⁴ Mae ffigurau TGAU 2007 ar gyfer Cymru a Lloegr wedi'u seilio ar ddata dros dro.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Wrth gymharu Cymru a Gogledd Iwerddon, mae'n glir bod llawer o nodweddion Gogledd Iwerddon yn wahanol iawn i rai Cymru. Ymhlith y gwahaniaethau y mae:

- system addysg ddetholus (sy'n golygu dewis disgyblion mwy galluog ar gyfer ysgol ramadeg, gyda'r gweddill yn mynd i ysgolion sydd heb ddethol, neu ysgolion 'uwchradd modern'); a
- chyfran uwch o ysgolion ffydd.

Byddai angen rhagor o waith manwl i nodi pam fod gwahaniaeth mor fawr rhwng y canlyniadau TGAU yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

Gall nifer o ffactorau fod wedi cyfrannu at y gwahaniaethau mewn perfformiad rhwng Cymru a Lloegr dros y blynyddoedd diweddar, a gallai'r rhain gynnwys y gwahaniaethau canlynol rhwng y ddwy wlad:

- gwahanol lefelau o anfantais gymdeithasol ac economaidd;
- cyfrannau'r ysgolion annibynnol ac ysgolion detholus; ac
- y ffordd y mae gwybodaeth am berfformiad yn cael ei chasglu.

Fe wnaethon ni ganfod mai'r prif ffactor yw'r gwahaniaeth yn lefelau anfantais economaidd a chymdeithasol. Mae effaith y ddau ffactor arall i'w weld yn weddol fach.

Mae'r cyswllt rhwng disgyblion yn tangyflawni a'u hanfantais economaidd a chymdeithasol yn cael ei gydnabod yn gyffredin⁵. Mae cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cael ei defnyddio'n gyffredin fel mesur o anfantais economaidd a chymdeithasol. Fe wnaethon ni ddefnyddio ffigurau cyfartaledd prydau ysgol am ddim ar gyfer **ysgolion sy'n cael eu cynnal** yng Nghymru (14.6%) a Lloegr (13.1%) i roi amcan faint o ddisgyblion fyddai'n ennill pump neu fwy TGAU graddau A* i C yn y ddwy wlad. Mae canlyniadau'r dadansoddiad yma'n dangos bod perfformiad cyffredinol ysgolion sy'n cael eu cynnal yng Nghymru'n debyg i berfformiad ysgolion sy'n cael eu cynnal yn Lloegr, pan fydd anfantais yn cael ei hystyried. Serch hynny, araf fu'r gwella yng Nghymru o gymharu â Lloegr dros y tair blynedd diwethaf.

Mae'r arolwg diweddar Rhaglen ar gyfer Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol (PISA) yn dangos nad yw disgyblion 15 oed yng Nghymru'n gwneud gystal mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth â disgyblion mewn unrhyw un o wledydd eraill y DU. Roedd canlyniadau'r arolwg o ddisgyblion dros 50 o wledydd yn rhoi disgyblion Cymru yn safle 27 ar gyfer darllen, safle 31 ar gyfer mathemateg a safle 20 ar gyfer gwyddoniaeth.

Graddau ysgol gyfan

Ym mhob un o'n harolygiadau, rydyn ni'n rhoi gradd gyffredinol i bob ysgol am safonau **cyflawniad** (cwestiwn allweddol 1) ac am effeithiolrwydd eu haddysgu, eu hyfforddi a'u hasesu (cwestiwn allweddol 2).

⁵ Er enghraifft, cyfeiriwch at Friff Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru SB 20/2006.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Graddau gwersi

Rydyn ni'n graddio pob gwर्स ac yna'n gweithio allan nifer y gwर्स sy'n cael pob un o'r graddau ym mhob pwnс ac am yr holl bynciau gyda'i gilydd. Mae'r ffigurau yma'n cael eu rhoi fel canrannau, fel bod modd eu cymharu pan fyddwn ni'n arolygu niferoedd gwahanol o wersi mewn pynciau gwahanol. Mae hwn yn rhoi ffigur cenedlaethol ac yn rhoi cyfle i ni gymharu pa mor dda mae Cymru'n gwneud o ran bodloni'r targedau⁶ mae 'Y Wlad sy'n Dysgu' a 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' wedi'u gosod. Mae'r graddau gwersi wedi'u seilio ar arolygiadau llawn a safonol. Dydyn ni ddim yn graddio safonau mewn gwersi mewn arolygiadau byr. Mae hyn yn golygu nad yw rhai o'r ysgolion sy'n perfformio orau wedi'u cynnwys yn ein sgorau canran cyffredinol ar gyfer gwersi.

Er hynny, yn y gwersi yn yr ysgolion cynradd, yr ysgolion uwchradd, yr ysgolion arbennig⁷ a'r [unedau cyfeirio disgyblion](#) y gwnaethon ni eu harolygu eleni, llwyddodd 77% o wersi ar gyfer yr holl ddisgyblion i ennill y ddwy radd uchaf (graddau 1 a 2). Mae hyn yn arwydd o welliant er 2005 a 2006, pan lwyddodd 72% (yn 2005) a 73% (yn 2006) i ennill y ddwy radd uchaf. Unwaith eto, ychydig o waith oedd â diffygion pwysig (gradd 4 neu 5).

Roedd safonau mewn ychydig llai na 98% o'r holl wersi a gafodd eu harolygu yn radd 3 neu'n well. Mae hyn yn debyg iawn i'r ddwy flynedd diwethaf. Mae'r ffigurau yma'n agos iawn at dargedau⁸ Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2007 a 2010, sef bod 98% o wersi mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn radd 3 neu'n well.

Eleni, mae ysgolion cynradd wedi gwneud yn well na'r targed, ac mae ysgolion uwchradd wedi aros tua dau bwynt canran o dan y targed.

Lleoliadau i blant dan bump oed⁹

Safonau

Mae'r safonau cyflawniad ar gyfer plant dan bump oed mewn ysgolion a [lleoliadau](#)'n parhau'n ddigon tebyg i'r llynedd. Mae'r holl blant bron yn cyrraedd safonau digonol o leiaf ym mhob un o'r [meysydd dysgu](#) ac mae mwyafrif y plant yn cyrraedd safonau da a rhagorol.

Mae'r safonau mewn lleoliadau'n gwella'n gyffredinol, ond dydyn nhw ddim yn cyrraedd y safonau sy'n cael eu cyflawni mewn ysgolion o hyd.

Mewn ysgolion, mae'r safonau mewn iaith, llythrennedd a medrau cyfathrebu wedi gwella o'r llynedd, ond y maes dysgu yma yw'r gwannaf o hyd. Mae nifer bach o blant yn methu magu digon o hyder i siarad neu ysgrifennu'n gynnar.

⁶ Mae'r targedau yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' wedi'u diwygio o'u cymharu â'r rheini yn 'Y Wlad sy'n Dysgu', a gafodd ei gyhoeddi yn 2001. Mae'r targedau yma'n cael eu galw'n 'ddangosyddion canlyniadau amcanol'.

⁷ Mae ysgolion arbennig yn cynnwys ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig sy'n cael eu cynnal.

⁸ Nid yw targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sôn am ysgolion arbennig.

⁹ Mae'r rhan fwyaf o blant yng Nghymru'n parhau i weithio tuag at ganlyniadau dysgu sy'n seiliedig ar y '[Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu](#) cyn Oed Ysgol Gorfodol'. Mae'r Cyfnod Sylfaen ar brawf mewn 42 o leoliadau i blant dan bump oed. Mae hyn yn cynnwys un ysgol ym mhob awdurdod lleol, ac un lleoliad nad yw'n cael ei gynnal mewn 20 awdurdod lleol. O fis Medi 2007, bydd ysgolion a lleoliadau dechrau'n gynnar yn ymuno â chynllun prawf y Cyfnod Sylfaen.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mewn lleoliadau, mae diffygion pwysig i'w gweld o hyd o ran gwybodaeth plant am fathemateg a'u dealltwriaeth o fathemateg. Nid yw plant sy'n cael eu haddysgu yn y lleoliadau yma'n ddigon hyderus wrth ddefnyddio mathemateg yn eu sefyllfaoedd chwarae bob dydd, ac maen nhw'n ei chael hi'n anodd enwi siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn. Mewn rhyw chwarter o leoliadau, mae diffygion pwysig o ran gwybodaeth plant am y byd a'u dealltwriaeth ohono. Mewn geiriau eraill, nid yw plant yn y lleoliadau yma'n ddigon hyderus i ofyn pam mae pethau'n digwydd a sut mae pethau'n gweithio.

Mewn ysgolion a lleoliadau, mae mwyafrif o'r plant yn dod i ddeall iechyd, hylendid a diogelwch yn dda. Mae plant yn gyffredinol yn ymolchi'u dwylo cyn paratoi bwyd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwybod bod bwyta ffrwythau ac yfed llaeth yn dda iddyn nhw, ac maen nhw'n deall pwysigrwydd ymarfer corff. Er hynny, mae gormod o blant yn methu ymolchi'u dwylo ar ôl bod yn chwarae y tu allan.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn darparu dewis da o brofiadau cyffrous ac ysgogol i blant, ac mae'r rhain yn llwyddo i annog medrau dysgu da. Er hynny, mewn nifer bach o ysgolion a lleoliadau, mae ymarferwyr yn defnyddio dulliau addysgu sy'n annog plant i ddibynnu gormod arnyn nhw am gymorth. Mae hyn yn atal plant rhag dysgu i wneud penderfyniadau a dewisiadau drostyn nhw eu hunain.

Mae'r holl ymarferwyr bron yn cynnig amgylchedd croesawgar a diogel lle mae plant yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi. Maen nhw'n annog plant i rannu newyddion pwysig amdany'n nhw eu hunain a'u teuluoedd. Maen nhw'n paratoi prydau ysgafn i blant eraill ac yn cymryd eu tro i weithio fel 'helpwr y dosbarth'.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau, mae plant yn dysgu parch ac agweddau cadarnhaol tuag at eraill. Maen nhw'n dysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru a'r byd ehangach trwy gwricwlwm sydd wedi'i drefnu'n ofalus. Er hynny, mewn rhyw draean o leoliadau, nid yw ymarferwyr yn gwybod am y ffordd orau o ddatblygu medrau plant mewn defnyddio Cymraeg, neu maen nhw'n ansicr sut mae addysgu plant am ddiwylliant a hanes Cymru.

Er bod llawer o ymarferwyr yn cynllunio, yn asesu ac yn cofnodi dysgu'r plant yn dda, nid yw rhai ymarferwyr:

- ✗ yn cynllunio gwaith yn ddigon manwl i ddiwallu anghenion yr holl blant, yn arbennig y rhai mwy galluog;
- ✗ yn cynllunio ar gyfer parhad a dilyniant mewn dysgu plant ar draws pob maes dysgu;
- ✗ yn pennu disgwyliadau clir ar gyfer y plant;
- ✗ yn nodi'n glir yn eu cynllunio beth fyddan nhw'n ei asesu; nac
- ✗ yn defnyddio asesu'n ddigonol i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Yn y mwyafrif o ysgolion a lleoliadau, mae'r ddarpariaeth **blynyddoedd cynnar** yn cael ei harwain a'i rheoli'n dda. Yn yr ysgolion a'r lleoliadau yma, mae gwerthoedd cyffredin ynghylch dysgu, ymddygiad a pherthnasoedd a synnwyr o ddiben sy'n arwain at welliannau. Mae gwaith tîm yn cael ei annog, mae cymwysterau priodol gan yr ymarferwyr, ac maen nhw wedi cael hyfforddiant da.

Mewn lleoliadau, mae arweinwyr a rheolwyr yn parhau i ddatblygu eu dealltwriaeth o brosesau hunanarfarnu. Mewn rhyw un o bob pum lleoliad, mae arweinwyr a rheolwyr yn ymgynghori'n rheolaidd â rhieni, gofalgwyr a staff, yn ymweld â lleoliadau eraill lle nodwyd bod arfer dda, ac yn defnyddio cyfarfodydd staff i'w holi am eu gwaith. Mewn ychydig o leoliadau, mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio asesiadau'n dda i olrhain cynnydd plant. Ond mewn lleiafrif sylweddol o leoliadau, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth hunanarfarnu i'w helpu i benderfynu pa welliannau pwysig sydd eu hangen.

Mewn ysgolion, mae'r holl arweinwyr a rheolwyr bron yn defnyddio dewis eang o brosesau hunanarfarnu i edrych am ffyrdd i wella, ond dydyn nhw ddim bob amser yn arfarnu safonau cyflawniad yn ddigon da. Dydyn nhw ddim yn adnabod tueddiadau mewn safonau trwy gymharu perfformiad grwpiau gwahanol o blant, ac maen nhw'n methu gweld bylchau yn nysgu'r plant.

Mae ymarferwyr yn defnyddio adnoddau'n dda i ategu dysgu plant ym mhob ysgol bron ac yn y mwyafrif o leoliadau. Mewn rhyw chwarter o leoliadau ac mewn ychydig o ysgolion, mae diffyg cyfleusterau awyr agored addas yn cyfyngu ar ddatblygiad corfforol plant. Mae'r holl ysgolion a'r lleoliadau bron yn gwneud defnydd da o'r cyfleusterau sydd ganddyn nhw.

Ysgolion cynradd

Safonau


Yng nghyfnod allweddol 1, ychydig iawn o amrywio sydd wedi bod er 2002 yng nghanran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 2 o leiaf ar gyfer y **dangosydd pwnc craidd**. Mae wedi bod rhwng 79% ac 81% yn gyson.

Eleni, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd o leiaf y lefel a ddisgwylir ganddyn nhw mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 ar gyfer y dangosydd pwnc craidd i lawr o un **pwynt canran** o gymharu â 2006. Mae canlyniadau eleni'n is ar gyfer Saesneg, o gymharu â 2006, ac maen nhw'r un fath ar gyfer y pynciau eraill. Er 2003, mae'r canlyniadau'n aros yr un fath fwy neu lai. Mae merched yn cyflawni'n well na bechgyn ym mhob pwnc, ac mae'r gwahaniaeth mwyaf mewn Saesneg (9.7 pwynt canran) a'r gwahaniaeth lleiaf mewn gwyddoniaeth (3.6 pwynt canran).

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 o leiaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd wedi aros yr un fath er 2005.


Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Siart 2: Canran y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 sy'n cyrraedd y lefel a ddisgwyilir ganddyn nhw (lefel 2) neu uwch mewn asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol



(Mae ffigurau wedi'u talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf.)

Siart 3: Canran y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 sy'n cyrraedd y lefel a ddisgwyilir ganddyn nhw (lefel 4) neu uwch mewn asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol



(Mae ffigurau wedi'u talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf.)

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Ym mhob un o'r pynciau craidd ac eithrio Cymraeg, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 o leiaf yr un fath neu'n is na'r ganran yn 2006, ond yn uwch nag yn 2003 o un pwynt canran o leiaf ar gyfer pob pwnc. Mewn Cymraeg, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 o leiaf yn is na'r ganran yn 2006 a 2003 o dri phwynt canran. Mae merched yn parhau i gyflawni'n well na bechgyn ym mhob pwnc, ac mae'r gwahaniaeth mwyaf mewn Cymraeg (13.6 pwynt canran) a'r gwahaniaeth lleiaf mewn mathemateg (2.9 pwynt canran).

Bydd gwelliannau yn y pynciau craidd yn dibynnu'n sylweddol ar wella cyflawniad bechgyn.

Mae'r ysgolion cynradd mwyaf llwyddiannus yn y maes yma:

- ✓ yn cynnwys yr holl ddisgyblion wrth feddwl a siarad am eu dysgu;
- ✓ yn darparu deunyddiau darllen a thasgau ysgrifennu sy'n apelio at fechgyn a merched ac sy'n eu cymell;
- ✓ yn rhoi targedau clir i ddisgyblion unigol ar gyfer gwella'u gwaith; ac
- ✓ yn annog bechgyn a merched i weld pwysigrwydd gweithio'n galed.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae ysgolion cynradd wedi perfformio'n well na'r targed y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i osod ar gyfer 2007, sef y dylai'r safonau cyflawniad cyffredinol sydd i'w gweld mewn arolygiadau fod yn foddhaol o leiaf mewn 98% o wersi. Yn y 244 o ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd y gwnaethon ni eu harolygu eleni, roedd safonau mewn 99% o wersi yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn foddhaol neu'n well. Mae hyn dri phwynt canran yn uwch na'r llynedd. Mae maint y gwaith da neu dda iawn wedi cynyddu hefyd i 80%, sef tri phwynt canran yn uwch o gymharu â'r llynedd. Prin iawn hefyd oedd y gwersi â diffygion mewn meysydd pwysig. At ei gilydd, mae'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn ddigon tebyg i'r llynedd, ond maen nhw wedi gwella'n fawr dros y chwe blynedd diwethaf, fel y mae'r siart sy'n dilyn yn dangos.

Siart 4: Safonau mewn gwersi mewn ysgolion cynradd a gafodd eu harolygu yn 2000-2001 ac yn 2006-2007

2000-2001



2006-2007



■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

(Mae ffigurau wedi'u talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf.)

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Eleni fe wnaethon ni arolygu 93% o'r un ysgolion cynradd a gafodd eu harolygu yn 2000-2001. Chwe blynedd yn ôl, dim ond 51% o wersi a lwyddodd i ennill y ddwy radd uchaf o ran safonau. Mae maint y gwaith da wedi cynyddu dros y chwe blynedd o 29 pwynt canran. Yn ystod yr un cyfnod, syrthiodd canran y gwersi â'r ddwy radd isaf o 8% i ychydig dros 1%. Yn 2000-2001, disgyblion wyth oed (Blwyddyn 3) oedd yn cyflawni'r safonau isaf a disgyblion 11 oed (Blwyddyn 6) oedd yn cyflawni'r rhai uchaf. Yn yr ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu eleni, ychydig iawn o wahaniaeth oedd i'w weld ym mherfformiad disgyblion y gwahanol grwpiau blwyddyn. Mae bron pob ysgol wedi mynd ati i wella'i meysydd oedd wannaf yn ei harolygiad diwethaf. Ymhlith y meysydd gwan sydd wedi gwella y mae technoleg dylunio, technoleg gwybodaeth ac addysg grefyddol.

Roedd cyflawniadau gorau disgyblion eleni i'w gweld mewn technoleg gwybodaeth a hanes, gyda chelf, addysg gorfforol a gwyddoniaeth yn dilyn. Mae'r maint lleiaf o waith da neu dda iawn (sef 70%) yn dal i'w weld ym maes Cymraeg fel ail iaith. Mae lleiafrif sylweddol o ddisgyblion heb fod yn gwneud digon o gynnydd mewn Cymraeg fel ail iaith erbyn iddyn nhw adael yr ysgol gynradd. Unwaith eto, daearyddiaeth yw'r pwnc â'r gyfran uchaf o wersi â diffygion pwysig.

Mewn Saesneg, Cymraeg fel iaith gyntaf a mathemateg, mae disgyblion yn cyflawni safonau da neu dda iawn mewn tua thri chwarter o'u gwaith, o gymharu ag ychydig dros hanner pan gafodd y rhan fwyaf o'r ysgolion yma'u harolygu ddiwethaf. Ysgrifennu yw'r agwedd wannaf ar Saesneg a Chymraeg o hyd, a defnyddio a chymhwyso medrau yw'r agwedd wannaf ar fathemateg.

Mae siartiau 25 a 26 yn [atodiad 2](#) yn dangos y graddau ar gyfer y pynciau mewn ysgolion cynradd a gafodd eu harolygu yn 2006-2007 yn ôl pob cyfnod allweddol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu [medrau allweddol](#) da. Ond mae ychydig o ddiffygion i'w gweld o hyd yng ngwersi rhyw draean o'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu. Hefyd, ychydig iawn o wersi (7%) a gyflawnodd gradd 1 ar gyfer medrau allweddol. Medrau dwyieithog disgyblion yw'r maes gwannaf o bell ffordd mewn ysgolion lle mae Cymraeg yn cael ei addysgu fel ail iaith.

Mae safonau ymddygiad yn parhau'n dda neu'n dda iawn mewn naw o bob deg ysgol y gwnaethon ni eu harolygu. Mae'r holl ddysgwyr bron yn ymddwyn yn dda, mae ganddyn nhw agweddau cadarnhaol at eu gwaith ac maen nhw'n datblygu medrau personol a chymdeithasol da.

O ran presenoldeb, fe wnaeth ein harolygwyr farnu bod nodweddion da sy'n gorbwyso rhai diffygion mewn dros bedair o bob pump o'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu. Yn ystod 2005-2006, roedd disgyblion mewn ysgolion cynradd yn absennol o'r ysgol am 7.5% o'r amser ar gyfartaledd. Mae hyn yn nodweddiadol o dueddiad sy'n tyfu o ran absenoldeb o'r ysgol. Y ffigur ar gyfer 2003-2004 oedd 6.8%, a 6.9% yn 2004-2005. Mae ychydig o rieni'n methu gwneud digon i ofalu bod eu plant yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Hefyd, mae mwy o rieni'n mynd â'u plant ar wyliau yn ystod amser tymor am fod gwyliau yn ystod gwyliau ysgol yn costio llawer mwy na gwyliau yn ystod tymor. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn i ysgolion cynradd wella'u cyfraddau presenoldeb.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mewn pob arolygiad ysgol, mae arolygwyr yn ystyried a yw ysgolion yn methu rhoi safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion ac a ydynt yn peri pryder. Mae ysgolion â'r gwendidau mwyaf difrifol yn cael eu disgrifio fel rhai y mae angen gweithredu **mesurau arbennig** ynddyn nhw. Rydyn ni'n monitro cynnydd yr ysgolion yma bob tymor ac yn eu hailarolygu ryw flwyddyn ar ôl i fesurau arbennig gael eu rhoi ar waith ynddyn nhw.

Yn ystod 2006-2007, nododd arolygwyr fod angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn dwy ysgol. Cafodd un ysgol arall ei thynnu o'r categori hwn ar ôl gwneud digon o welliant mewn blwyddyn.

Siart 5: Nifer yr ysgolion cynradd lle mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith ar ddiwedd y flwyddyn ysgol

Ysgolion cynradd	2000-2001	2005-2006	2006-2007
Mesurau arbennig	3	1	2

Mae gan ysgolion sydd yn y categori mesurau arbennig nifer o ddiffygion mewn meysydd pwysig, yn cynnwys safonau isel o ran cyflawniadau disgyblion, darpariaeth addysgol o ansawdd gwael, ac arweinyddiaeth a rheolaeth wan. Mae angen cymorth ychwanegol ar yr ysgolion yma i fynd yn ôl ar y trywydd iawn. Gyda chymorth da gan eu hawdurdod lleol, mae ysgolion yn gwneud yn ddigon da fel arfer i ni eu tynnu o'r categori mesurau arbennig ar ôl rhyw ddwy flynedd. Dros y chwe blynedd diwethaf, ychydig o newid sydd wedi bod yn nifer yr ysgolion lle mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion yn y categori mesurau arbennig neu lle mae angen gwneud **gwelliant sylweddol**, nid yw'r corff llywodraethu a'r awdurdod lleol wedi defnyddio digon ar eu pwerau i herio ac i gamu i mewn pan mae'r ysgol yn dechrau tangyflawni. Yn aml, nid yw llywodraethwyr yn llawn sylweddoli pwysigrwydd y wybodaeth sydd o'u blaen. Ac, mewn ychydig o achosion, nid ydyn nhw'n cael gwybodaeth am berfformiad eu hysgol er mwyn ei chymharu ag ysgolion tebyg.

Mae siart 6 yn dangos bod angen gwneud gwelliant sylweddol mewn naw o ysgolion eleni, a bod **gwendidau difrifol** o hyd mewn dwy ysgol. Mae bron ddwywaith gymaint o ysgolion na'r llynedd yn peri pryder yn y categorïau yma. Rydyn ni'n monitro'r ysgolion yma bob blwyddyn a byddwn ni'n eu rhoi yn y categori mesurau arbennig os nad ydyn nhw'n gwella.

Siart 6: Nifer yr ysgolion cynradd â gwendidau difrifol neu y mae angen gwneud gwelliant sylweddol ynddyn nhw ar ddiwedd y flwyddyn ysgol

Ysgolion cynradd	2000-2001	2005-2006	2006-2007
Gwendidau difrifol (gwelwch nodyn 1 isod)	Dim ffigurau ar gael	6	2
Gwelliant sylweddol (gwelwch nodyn 2 isod)	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	9

(Nodyn 1: Cafodd y categori 'Gwendidau difrifol' ei gyflwyno ym mis Ionawr 2003.)

(Nodyn 2: Disodlodd y categori 'Gwelliant sylweddol' y categori 'Gwendidau difrifol' ym mis Medi 2006.)

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae safonau ac addysgu gwael, arweinyddiaeth wan, absenoldeb staff am gyfnodau hir a diffyg cynnydd o ran rhoi'r materion allweddol a gafodd eu nodi yn ein harolygiad diwethaf ar waith, yn wendidau cyffredin ym mhob un o'r ysgolion yma bron.

O'r 15 ysgol lle'r ydyn ni wedi nodi gwendidau difrifol er 2003, gwelodd dros eu hanner ansawdd yr addysg y maen nhw'n ei darparu i ddisgyblion erbyn i ni eu hail-arolygu ryw flwyddyn yn ddiweddarach. Mae'r gwella'n arafach mewn tua chwarter yr ysgolion am fod gwendidau wedi bod ganddyn nhw ers tro – gwendidau sy'n gysylltiedig yn aml â'r arwain a'r rheoli, ac sy'n cymryd mwy o amser i'w cywiro. Os byddwn ni'n gweld yn ein hailarolygiad bod yr ysgolion yma wedi gwneud cynnydd boddhaol, byddwn ni'n eu tynnu o'r categori yma. Caeodd dwy o'r ysgolion yn y flwyddyn ar ôl eu harolygiad.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

At ei gilydd, mae nodweddion rhagorol (gradd 1) i ansawdd yr addysgu mewn 14% o'r gwersi y gwnaethon ni eu harolygu mewn ysgolion cynradd eleni, ac mae'n dda (gradd 2) o leiaf mewn 66% o'r gwersi. Mae hyn bedwar pwynt canran yn is na'r llynedd, a'n barn ni hefyd oedd bod ychydig llai o addysgu'n rhagorol eleni na'r llynedd. Er hynny, o gymharu â chwe blynedd yn ôl – pan gafodd y rhan fwyaf o'r ysgolion yma'u harolygu ddiwethaf – mae maint yr addysgu da a da iawn yn yr un ysgolion wedi gwella'n sylweddol o 29 pwynt canran.


Mae siart 7 yn dangos y gwelliant yn ansawdd yr addysgu yng ngwersi'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu eleni o gymharu â'n harolygiadau o'r un ysgolion chwe blynedd yn ôl yn 2000-2001.

Siart 7: Ansawdd yr addysgu mewn gwersi yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 a gafodd eu harolygu yn 2006-2007 ac yn 2000-2001

	Gradd 1	Gradd 2
2006-2007	14%	66%
2000-2001	5%	46%

Mae cyfran y graddau y dyfarnon ni i'r addysgu a'r asesu yn yr holl wersi y gwnaethon ni eu harolygu eleni yn cael ei dangos yn siart 8.

Siart 8: Ansawdd yr addysgu a'r asesu yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 yn 2006-2007 (mae'n dangos canran y gwersi a gafodd eu graddio)



Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae nodweddion addysgu da'n cynnwys:

- ✓ disgwyliadau uchel i bob disgybl eu cyflawni;
- ✓ gwaith sy'n cael ei esbonio'n glir ac yn ddiddorol i ddenu sylw disgyblion a gwella'u dealltwriaeth;
- ✓ cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y medrau y mae disgyblion yn eu dysgu ym mhob grŵp blwyddyn; ac
- ✓ amrywiaeth dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio'u medrau allweddol a'u medrau datrys problemau a gwneud penderfyniadau ar draws y cwricwlwm.

Mewn rhai achosion, mae disgyblion yn mynd ati bob wythnos i greu arfarniadau byr o'u perfformiad sy'n cynnwys ymateb ysgrifenedig i farciau athrawon a'u sylwadau am eu cyflawniadau. Mae'r math yma o weithio rhwng disgyblion a'u hathrawon yn rhagorol ac mae'n arfer y byddem ni'n dymuno'i gweld yn dod yn fwy cyffredin.

Mewn un o bob pump o ysgolion, mae diffygion yn ansawdd cyffredinol yr addysgu a'r asesu. Asesu yw'r maes gwaith gwannaf o hyd. Yn yr ysgolion yma, nid yw athrawon yn rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion wrth farcio'u gwaith. Hefyd, does dim dealltwriaeth ddigon da gan ddisgyblion o'u cryfderau a'u gwendidau a sut y gallen nhw wella mwy eto.

Mae trefniadau ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, yn dda neu'n well yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd. Mae'r trefniadau'n rhagorol mewn ychydig dros draean ohonyn nhw. Yn yr ysgolion yma, mae disgyblion yn dangos lefelau uchel o onestrwydd, tegwch a goddefgarwch tuag at eraill. Hefyd, maen nhw'n rhoi'r parch dyledus i gredoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol pobl eraill yn y gymdeithas. Mae bron i naw o bob 10 ysgol gynradd yn mynd ati i ennyn diddordeb disgyblion mewn chwaraeon a gweithgareddau eraill.

Mae trefniadau effeithiol gan lawer o ysgolion ar gyfer addysgu disgyblion am bwysigrwydd diet cytbwys, arferion hylendid da a digon o ymarfer corff. Mae athrawon yn dweud wrth ddisgyblion hefyd am effeithiau niweidiol ysmegu, yfed alcohol a chymryd cyffuriau. Mae trefniadau da yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd i addysgu disgyblion am sut i ymdopi â'r newidiadau corfforol ac emosiynol y gallan nhw eu gweld wrth iddyn nhw fynd yn hŷn. Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae nodweddion rhagorol i'r gwaith yma, mae defnydd da iawn yn cael ei wneud o arbenigedd dewis eang o asiantaethau allanol. Mae disgyblion yn tueddu i wrando mwy pan fydd pobl o'r asiantaethau yma, swyddogion cyswllt yr heddlu a swyddogion hybu iechyd er enghraifft, yn gweithio gyda nhw.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Eleni, mae trefniadau da gan 70% o ysgolion cynradd o ran datblygu **medrau dwyieithog** disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg, ac ar gyfer addysgu am ddiwylliant Cymru. Ond nid yw hyn wedi cael unrhyw effaith ar safonau eto. Mae lleiafrif bach o ysgolion yn datblygu medrau a hyder disgyblion mewn siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu drwy ddefnyddio mwy a mwy o'r Gymraeg ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae arferion gwrth-fwlio llwyddiannus gan fwyafrif helaeth o'r ysgolion cynradd i helpu i ddelio ag ymddygiad annerbyniol.

Mae'r gwaith o baratoi disgyblion i ddod i ddeall pwysigrwydd y byd yn dda neu'n well mewn dwy ran o dair o'r ysgolion cynradd. Er hynny, hyd yn oed yn yr ysgolion hynny sy'n gwneud y math yma o waith yn dda, nid oes gan athrawon ddigon o brofiad o weithio gydag amrywiaeth o gyflogwyr gwahanol.

Mae ychydig dros un o bob pump o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd wedi'u nodi fel rhai sydd â rhyw fath o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn cynnwys 2% o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig oherwydd eu hanawsterau dysgu cymhleth. Mae wyth o'r 10 o ysgolion cynradd prif ffrwd y gwnaethon ni eu harolygu eleni'n gwneud yn wirioneddol dda o ran darparu gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig. Yn yr ysgolion yma, mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gynllunio'r gwaith ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Gyda'i gilydd, maen nhw'n monitro ac yn arfarnu cynnydd yn erbyn targedau ac yn gosod targedau newydd yn ôl y galw.

Mae trefniadau priodol gan bob ysgol bron i ddiogelu plant (hynny yw, i adnabod plant a allai fod yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso). Yn yr ychydig o enghreifftiau prin lle mae diffygion, nid yw'r holl oedolion sydd â chyswllt â phlant yn cael eu hyfforddi'n ddigon da er mwyn gofalu eu bod nhw'n gwybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n amau bod plentyn mewn perygl.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn ysgolion cynradd yn dda neu'n well mewn ychydig llai na thri chwarter yr ysgolion, ac mae'n rhagorol mewn un o bob pum ysgol. Mae cyswllt agos rhwng perfformiad ysgol ac ansawdd ei harweinyddiaeth a'i rheolaeth. Mae gwybodaeth yn Atodiad 1 am berfformiad pob ysgol unigol a gafodd ei harolygu eleni, yn ôl awdurdod lleol.

Cynhyrchodd saith o bob 10 ysgol y gwnaethon ni eu harolygu eleni adroddiadau hunanarfarnu da. Er hynny, mae lleiafrif o ysgolion yn fwy effeithiol o ran adnabod eu cryfderau a'r meysydd i'w gwella nag y maen nhw o ran mynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion lle mae'r arweinyddiaeth yn wan.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn gwneud defnydd effeithiol o fedrau eu staff, eu hadnoddau dysgu a'u hadeiladau.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Ymhlith nodweddion da'r ysgolion yma y mae:

- ✓ gwneud defnydd da o fedrau eu staff cymorth dosbarth, fel bod gan y staff yma ddealltwriaeth glir o'r canlyniadau i ddysgwyr a rhan lawn yn y broses o gynllunio gwersi a gweithgareddau;
- ✓ hyfforddiant i bob aelod o staff sy'n cysylltu'n glir â chynlluniau datblygu'r ysgol a chynlluniau datblygu athrawon unigol;
- ✓ mesur effeithiolrwydd hyfforddiant a phrosesau datblygu staff trwy **reoli perfformiad**;
- ✓ rheoli adnoddau'n well fel bod cyswllt agos rhyngddyn nhw a chynlluniau datblygu'r ysgol;
- ✓ asesu sut mae ysgolion yn gwario arian i wneud yn siŵr eu bod yn ateb anghenion a gofynion yr holl ddisgyblion;
- ✓ gwneud defnydd da o gyfleoedd ariannu gan sefydliadau allanol i ategu hyfforddiant staff;
- ✓ gofalu bod amser ar gyfer **cynllunio**, **paratoi ac asesu** a bod yr amser hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol; a
- ✓ gwneud defnydd da o le y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol i wella **cyflawniad** ac ymddygiad disgyblion.

Lle mae diffygion mae'r rhain yn cynnwys:

- ✗ methu cynllunio a monitro'n ddigon da sut mae athrawon yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael;
- ✗ methu cysylltu cynlluniau ar gyfer defnyddio adnoddau â blaenoriaethau ysgol ar gyfer datblygu;
- ✗ methu cynnwys staff cymorth yn y cynllunio;
- ✗ methu mynd ati'n ddigon da i drefnu hyfforddiant ar gyfer staff;
- ✗ methu monitro neu arfarnu effaith hyfforddiant staff ar godi safonau cyflawniad plant;
- ✗ diffyg her gan gyrff llywodraethu ysgolion o ran cael gwerth am arian; ac
- ✗ adeiladau ysgol mewn cyflwr gwael a heb fod yn diwallu anghenion addysgu a dysgu modern.


Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Ysgolion uwchradd

Safonau

Mae siart 9 yn dangos canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir ganddyn nhw (lefel 5) neu uwch mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 3. O gymharu â'r llynedd, roedd cynnydd bach yng nghanran y disgyblion yn cyrraedd lefel 5 o leiaf mewn Saesneg a Chymraeg, ond gostyngiad bach mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cynnydd bach wedi bod yn y canrannau mewn mathemateg a gwyddoniaeth, cynnydd mwy mewn Saesneg ond gostyngiad bach mewn Cymraeg.

Siart 9: Canran y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 sy'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir ganddyn nhw (lefel 5) neu uwch yn asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol



(Mae ffigurau wedi'u talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf.)

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae siart 10 yn dangos bod merched yn gwneud yn well na bechgyn ym mhob pwnc. Mae'r bwlch lleiaf mewn mathemateg. Mewn Cymraeg a Saesneg y mae'r bwlch mwyaf, ond mae hwn wedi lleihau ychydig ers y llynedd. Hefyd, mae'r bwlch wedi mynd yn llai ers y llynedd ym mhob un o'r pynciau heblaw gwyddoniaeth.

Siart 10: Gwahaniaeth canran rhwng bechgyn a merched o ran cyrraedd y lefel a ddisgwylir ganddyn nhw (lefel 5) neu uwch yn asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol 3

	Gwahaniaeth mewn pwyntiau canran rhwng bechgyn a merched yn 2006	Gwahaniaeth mewn pwyntiau canran rhwng bechgyn a merched yn 2007
Saesneg	16.9	15.9
Cymraeg	17.9	16.6
Mathemateg	3.0	2.2
Gwyddoniaeth	2.0	4.0
Dangosydd pwnc craidd	10.2	8.7


Mae'r ysgolion uwchradd hynny sy'n gwella perfformiad bechgyn yn gwneud hynny drwy:

- ✓ ddefnyddio strategaethau sydd wedi'u cynllunio'n dda i barhau i ddatblygu a gwella medrau llythrennedd bechgyn sydd yn aml o safon is na medrau llythrennedd merched;
- ✓ monitro cynnydd yr holl ddisgyblion yn rheolaidd a rhoi adborth a thargedau unigol iddyn nhw ar gyfer gwella; a
- ✓ darparu amrywiaeth dda o gymorth ac arweiniad, gan gynnwys darpariaeth y tu allan i'r ysgol fel clybiau gwaith cartref a chyrsgiau astudio.

Mae siart 11 yn dangos nad oes unrhyw gynnydd wedi bod mewn unrhyw un o'r dangosyddion allweddol ers y llynedd. Yn dilyn cynnydd yng nghanran y disgyblion a gafodd bump neu fwy o bynciau TGAU graddau A* i C yn 2006, mae'r ganran wedi aros yr un fath ar gyfer 2007. Mae'r bwlch rhwng canran y disgyblion sy'n ennill y dangosydd pwnc craidd a'r ganran sy'n ennill o leiaf pum gradd A* i C o leiaf ar lefel TGAU neu gyfwerth, yn parhau'r un fath. Mae gormod o ddisgyblion yn methu cael graddau uwch (A* i C) yn y pynciau craidd, Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, er gwaethaf eu hastudio am 11 mlynedd.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Siart 11: Canran y disgyblion 15 oed sy'n ennill o leiaf bum gradd A* i C ac A* i G mewn TGAU, ac sy'n cyrraedd y dangosydd pwnc craidd



Mae siart 12 yn dangos bod gostyngiad bach wedi bod eleni yng nghanran y myfyrwyr sy'n ennill dwy neu fwy o raddau A i C ar y safon uwch, ond mae'r ganran sy'n ennill dwy neu fwy o raddau A i E yn debyg i'r blynyddoedd diweddar.

Siart 12: Canran y myfyrwyr sy'n ennill o leiaf dwy radd A i C ac A i E ar safon uwch

	Wedi ennill o leiaf dwy o raddau A i C ar safon uwch	Wedi ennill o leiaf dwy o raddau A i E ar safon uwch
2007	67%	94%
2006	68%	94%
2005	68%	94%
2004	68%	95%
2003	68%	94%

Mewn bron i ddwy ran o dair o'r 43 o ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu eleni, barnodd ein harolygwyr bod y safonau cyffredinol yn radd 2 (nodweddion da a dim diffygion pwysig) neu'n radd 1 (da gyda nodweddion rhagorol). Mae hyn yn well na'r llynedd.

O'r 43 o ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu yn 2006-2007, roedden ni wedi arolygu 34 ohonyn nhw yn 2000-2001. Mae'r graddau a gafodd eu dyfarnu yn y sampl gyfan eleni'n dangos gwelliant mawr mewn safonau o gymharu â'r sampl o ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu chwe blynedd yn ôl.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae siart 13 yn dangos bod maint y gwaith da neu waith gwell wedi gwella o 20 pwynt canran. Mae'r prif resymau dros y gwelliant yma'n cynnwys arweinyddiaeth a rheolaeth well, a mwy o bwyslais ar godi safonau.

Siart 13: Safonau mewn gwersi yn yr holl ysgolion uwchradd a gafodd eu harolygu yn 2006-2007 ac yn 2000-2001

	Gradd 1	Gradd 2
2006-2007	13%	58%
2000-2001	6%	45%

Mae siart 14 yn dangos proffil y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer gwersi y gwnaethon ni eu harolygu eleni ar gyfer yr holl grwpiau blwyddyn gyda'i gilydd, yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 ac yn y chweched dosbarth.

Siart 14: Y safon y mae'r holl ddisgyblion yn ei chyflawni mewn ysgolion uwchradd (canran y gwersi)

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Yr holl ddisgyblion	13%	58%	25%	4%	0%
Disgyblion cyfnod allweddol 3	10%	57%	28%	5%	0%
Disgyblion cyfnod allweddol 4	14%	57%	24%	5%	0%
Disgyblion y chweched dosbarth	17%	66%	16%	1%	0%

Mae canran gyffredinol y gwersi a gafodd ddyfarniad o radd 1 neu radd 2 (71%) yn uwch na'r targed o 65% y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gosod ar gyfer 2007. Ond mae'r ffigur ar gyfer y gwersi a gafodd ddyfarniad o radd 3 neu well yn is na'r targed o 98%.

Mae disgyblion yn y gwersi sy'n cyflawni gradd 1 neu radd 2 yn dangos eu bod nhw wedi ennill y medrau a'r agweddau y maen nhw eu hangen i lwyddo. Maen nhw'n gwrando'n ofalus ar yr athro ac ar ei gilydd, yn gofyn cwestiynau os nad ydyn nhw'n deall eu gwaith, ac yn ysgrifennu'n dda.

Y diffygion mwyaf cyffredin mewn gwersi eraill yw nad yw disgyblion yn dangos digon o ddiddordeb yn eu gwaith nac yn dangos eu bod wedi ennill y medrau sy'n eu helpu i ddysgu. Yn benodol, dydyn nhw ddim yn deall eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain yn ddigon da, nac yn deall sut mae gwella.

Mewn gwersi Saesneg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau siarad a gwrando da. Mewn rhyw draean o ysgolion, mae disgyblion yn dangos medrau gwrando rhagorol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ac yn ysgrifennu'n dda, ond ychydig ohonyn nhw sy'n rhagorol. Mewn Cymraeg, mae mwyafrif o'r disgyblion yn dangos medrau da wrth siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Mewn dwy o bob 10 ysgol, mae disgyblion yn cyflawni safonau rhagorol wrth siarad a gwrando, ond mae safonau darllen ac ysgrifennu'n is. Mae diffygion pwysig mewn medrau llythrennedd Cymraeg mewn rhyw un o bob deg ysgol. Ysgolion cyfrwng Saesneg yw'r rhain yn bennaf.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae gan fwyafrif o ddisgyblion fedrau da hefyd mewn cymhwyso rhif ac mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Unwaith eto, mae safonau'n well yn y chweched dosbarth, er mai ychydig iawn o ddisgyblion mewn unrhyw gyfnod allweddol sydd â medrau rhagorol mewn cymhwyso rhif neu TGCh.

Fe wnaethon ni arolygu 246 o adrannau pwnc eleni. Mae safonau'n dda neu'n well mewn tri chwarter ohonyn nhw, sef yr un fath â'r llynedd fwy neu lai. Er hynny, mae canran yr adrannau lle mae nodweddion rhagorol mewn cyflawniadau disgyblion wedi cynyddu, o 10% y llynedd i 16% eleni. Mae nifer yr adrannau sydd â diffygion pwysig wedi disgyn o ryw 5% i 3%.

Mewn Cymraeg fel iaith gyntaf, addysg grefyddol a thechnoleg gwybodaeth y cyflawnodd disgyblion y safonau uchaf. Roedd dros 80% o'r gwersi'n radd 1 neu radd 2. Roedd y cyfrannau isaf o wersi gradd 1 a gradd 2 mewn gwyddoniaeth, mathemateg, addysg gorfforol, hanes, ieithoedd tramor modern ac yn benodol, Cymraeg fel ail iaith. Mewn Cymraeg fel ail iaith, roedd rhai diffygion pwysig mewn hanner y gwaith bron, ac roedd bron i un o bump o'r gwersi'n raddau 4 neu 5. Mae hyn yn waeth na'r llynedd ac mae'n dangos bod y safonau isel a welwyd yn y pwnc yn y blynyddoedd blaenorol yn parhau.

At ei gilydd, nid oedd safonau'n dderbyniol mewn tair o'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu eleni. Roedd angen gweithredu mesurau arbennig mewn dwy o'r ysgolion yma, ac roedd angen i'r drydedd ysgol wneud gwelliannau sylweddol. Yn y ddwy ysgol lle'r oedd angen gweithredu mesurau arbennig, doedd dim llawer o welliant neu ddim gwelliant o gwbl ers yr arolygiad diwethaf ar yr ysgol chwe blynedd yn ôl. Roedd cyflawniad mewn arholiadau TGAU yn cymharu'n wael â chyflawniadau ysgolion tebyg.

Yn y ddwy ysgol yma, roedd diffygion pwysig yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Mewn un o'r ysgolion, nid oedd arweinwyr wedi delio â'r materion a gafodd sylw yn yr arolygiadau blaenorol, ac nid oedd syniad clir ganddyn nhw am gryfderau a gwendidau'r ysgol. Yn yr ysgol arall, nid oedd syniad clir gan arweinwyr am yr agweddau yr oedd angen i'r ysgol eu gwella, ac nid oedd ganddyn nhw ddarlun realistig o berfformiad yr ysgol. Nid yw llywodraethwyr nac awdurdod lleol y naill ysgol na'r llall wedi gwneud digon i ofalu bod disgyblion yn cyflawni safonau uchel.

Yn yr ysgol lle'r oedd angen gwelliant sylweddol, roedd y safonau a gyflawnwyd yn y gwahanol bynciau'n amrywio'n fawr. Roedd y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau ymhell islaw'r targed y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i osod. Roedd rhai rheolwyr yn darparu arweinyddiaeth o safon, ond roedd eraill yn llai effeithiol. At ei gilydd, nid oedd y prosesau hunanarfarnu mor drylwyr ag y byddem wedi hoffi'u gweld.

Yn ystod 2006-2007, roedd disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn absennol o'r ysgol am 9.4% o'r amser, fel y mae siart 15 (a'r wefan yn new.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools-2007/hdw200710311/?lang=cy) yn ei ddangos. Roedd canran y merched a oedd yn absennol yn uwch na'r ganran ar gyfer bechgyn. Y ffigur cyffredinol ar gyfer absenoldebau yw'r ffigur isaf dros yr wyth mlynedd diwethaf, ond mae'n dal islaw'r targed y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i osod, sef 8% erbyn 2007. Mae'r gyfradd wella dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn araf, ac mae'n annhebygol y bydd ysgolion yn cyrraedd targed Llywodraeth Cynulliad Cymru am dipyn o amser eto.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae canran y disgyblion sy'n absennol heb ganiatâd yr ysgol (absenoldeb heb awdurdod) wedi cynyddu'n raddol, ac erbyn hyn mae ar ei uchaf ers wyth mlynedd.

Siart 15: Absenoldebau heb awdurdod fel canran o gyfanswm yr absenoldebau mewn ysgolion uwchradd

2006-2007	
Cyfanswm yr absenoldebau	Absenoldebau heb awdurdod
9.4%	1.9%
2005-2006	
Cyfanswm yr absenoldebau	Absenoldebau heb awdurdod
9.9%	1.7%
2004-2005	
Cyfanswm yr absenoldebau	Absenoldebau heb awdurdod
9.5%	1.8%

Mae'r setiau yma o ffigurau'n golygu bod rhyw 17,000 o ddisgyblion, ar gyfartaledd, yn absennol bob dydd o ysgolion uwchradd Cymru. Ac, o'r rhain, roedd rhyw 3,500 yn absennol heb ganiatâd yr ysgol.

Mae ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau dan anfantais (o fesur yn ôl nifer y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim) yn tueddu i fod â chyfraddau uwch o ddisgyblion absennol. Mae amrywio mawr yng nghanran y disgyblion a oedd yn absennol mewn gwahanol rannau o Gymru. Ar Ynys Môn oedd y ganran uchaf (11%), ac roedd y ganran isaf (7.9%) ym Mro Morgannwg.

At ei gilydd, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda. Er hynny, mae nifer bach o ddisgyblion yn methu rhoi digon o sylw i'w gwaith, ac maen nhw'n tarfu ar waith dysgwyr eraill yn aml. Mewn lleiafrif o achosion, mae disgyblion yn cael eu gwahardd o'r ysgol. Anwybyddu rheolau ysgol, ac ymddygiad aflonyddgar a threisgar weithiau yw achosion mwyaf cyffredin [gwaharddiadau](#). Ers i ni gyhoeddi ein hadroddiad ar waharddiadau ym mis Mehefin 2007¹⁰, mae ffigurau diweddar¹¹ yn awgrymu bod gostyngiad bach wedi bod yn nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol a'r gwaharddiadau parhaol. Roedd 20,121 o waharddiadau cyfnod penodol (er enghraifft, am wythnos) o ysgolion yn 2005-2006, sy'n ostyngiad o un pwynt canran ar y flwyddyn 2004-2005. Yn 2005-2006, roedd 451 o waharddiadau parhaol. Mae hwn yn ostyngiad o dri phwynt canran ar y flwyddyn 2004-2005.

Mae'r ffigurau yma ar gyfer gwaharddiadau swyddogol y mae ysgolion ac awdurdodau lleol wedi'u cofnodi. Ond mae ymchwil ddiweddar gan Gomisiynydd Plant Cymru'n dangos bod gwaharddiadau answyddogol¹² yn bodoli hefyd, er nad oes neb yn gwybod y ffigurau go iawn ar gyfer y rhain. Mae gwaharddiadau answyddogol yn anghyfreithlon, ac yn golygu nad yw disgyblion a'u rhieni neu eu gofalwyr yn cael eu diogelu gan y weithdrefn gwaharddiadau swyddogol a'r weithdrefn apeliadau y mae ganddyn nhw hawl iddyn nhw. Weithiau mae ysgolion a rhieni'n cytuno ar waharddiadau answyddogol, ond nid yw llawer o rieni'n gwybod nad oes rhaid iddyn nhw gydweithredu â'r fath drefniadau.

¹⁰ Cyfeiriwch at 'Gwahardd disgyblion,' adran 3

¹¹ Datganiad Data Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru 32/2007

¹² Adroddiad yn dilyn ymchwiliad i waharddiadau answyddogol o'r ysgol (Comisiynydd Plant Cymru: 2007). I gael mwy o wybodaeth, ewch i www.childcomwales.org.uk.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae ysgolion yn gwneud gwaharddiadau answyddogol weithiau:

- X** lle nad yw'r ysgol wedi darparu cymorth arbenigol i ddiwallu anghenion disgybl ac, yn sgil hynny, mae'r disgybl wedi ymddwyn mewn ffordd annerbyniol;
- X** pan mae rhieni wedi methu mynd i gyfarfodydd i gynllunio cymorth arbenigol i ddisgybl ac, yn sgil hynny, nid yw'r disgybl yn ymateb yn gadarnhaol yn y dosbarth; neu
- X** pan mae disgybl wedi cyflawni trosedd nad yw'n ddigon difrifol i haeddu gwaharddiad cyfnod penodol ond mae'r ysgol yn penderfynu gwahardd y disgybl fel cosb – er enghraifft, am anwybyddu'r rheolau ynglŷn â gwisg ysgol.


Yn aml mewn achosion fel y rhai sydd wedi'u rhestru, gall penaethiaid ac athrawon benderfynu gwahardd disgyblion yn answyddogol am gyfnod fel cosb. Gall hyn ddigwydd am mai trosedd fach yw hi a bod penaethiaid am osgoi mynd mor bell â gwaharddiad swyddogol a fyddai'n mynd ar gofnod y disgybl.

Nid yw trefniadau anghyfreithlon er lles unrhyw ddisgyblion yn y tymor hir, ac mae perygl i bawb y bydd camau cyfreithiol yn cael eu cymryd. Mae ffyrdd eraill i ysgolion ddelio â sefyllfaoedd lle nad yw gwahardd yn briodol. Er enghraifft, mae canolfannau cymorth i ddisgyblion mewn ychydig o ysgolion, lle mae timau o staff arbenigol yn gallu helpu'r disgyblion hynny sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Mae'r cynlluniau yma'n gweithio'n dda ac wedi helpu'r ysgolion i leihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol a'r rhai parhaol.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Mae siart 16 yn dangos y gwelliant yn ansawdd yr addysgu yn y sampl gyfan o ysgolion eleni, o gymharu â'r sampl y gwnaethon ni ei harolygu chwe blynedd yn ôl. O'r 34 o ysgolion uwchradd a gafodd eu harolygu yn 2000-2001, roedd gan 27 ganran uwch o lawer o wersi ar radd 2 neu well. Roedd yr un ganran gan ddwy ysgol, ac roedd canran is gan bum ysgol.

Siart 16: Ansawdd yr addysgu mewn gwersi yn yr holl ysgolion uwchradd a gafodd eu harolygu yn 2000-2001 ac yn 2006-2007



Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Y prif resymau dros y gwelliant yma yw hunanarfarnu gwell a mwy o rannu arfer dda. Mae'r ganran o wersi gradd 1 a gradd 2 (76%) yn is na'r targed (80%) y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i osod ar gyfer 2010. Ond o ddilyn patrwm y cynnydd ar hyn o bryd, mae ysgolion ar y trywydd iawn i fodloni targed Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae llawer o nodweddion yr addysgu da iawn yr un fath bron â'r rhai yr adroddon ni amdany'n nhw'r llynedd. Yn yr ysgolion yma, mae'r addysgu:

- ✓ yn ymestyn pob disgybl yn gyson o ran yr hyn maen nhw'n gallu'i gyflawni;
- ✓ yn ysgogi ac yn cynnwys pob disgybl mewn tasgau sy'n cyfateb yn dda i'w hanghenion a'u galluedd; ac
- ✓ yn defnyddio byrddau gwyn rhyngweithiol fel ffordd o gynnwys disgyblion mwy yn y gwersi.

Mae mwy a mwy o athrawon a chynorthwyr cymorth dysgu'n gweithio'n agos gyda'i gilydd i gynorthwyo disgyblion sydd ag anghenion dysgu. Er gwaethaf y gwelliant yma, nid yw athrawon yn arsylwi ei gilydd ddigon i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Nid ydyn nhw chwaith yn herio'i gilydd nac yn lledaenu arfer dda.

Mae nodweddion rhagorol i'r asesu mewn 14% o'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu, ac mae'n dda o leiaf mewn 66% o ysgolion. Yn yr ysgolion yma, mae athrawon yn rhoi syniad clir i ddisgyblion am eu cynnydd.

Mae disgyblion yn gwybod beth y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud i wella ac i gael canlyniadau gwell mewn asesiadau athrawon ac arholiadau. Mae eu dealltwriaeth yn gwella pan fyddan nhw'n asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn annog disgyblion i feddwl am ffyrdd gwahanol o ddatrys problemau ac esbonio'u hatebion. Mae adroddiadau da i rieni'n rhoi gwybodaeth fanwl, mewn iaith glir, am gynnydd eu plant ym mhob pwnc.

Mae mwy a mwy o ysgolion yn gwneud defnydd da o wybodaeth am berfformiad disgyblion:

- ✓ i roi disgyblion yn y grwpiau iawn yn ôl eu gallu, os yw hynny'n briodol;
- ✓ i ragweld eu perfformiad yn y dyfodol;
- ✓ i osod targedau; ac
- ✓ i fonitro pa mor dda maen nhw'n gwneud.

Serch hynny, mae rhai diffygion yn yr asesu mewn traean o ysgolion. Hyd yn oed yn yr ysgolion lle mae'r asesu'n dda yn gyffredinol, nid yw rhai athrawon yn dilyn yr arfer orau bob tro. Mae llawer o ysgolion yn methu gwneud digon i ofalu bod pob athro'n dilyn polisiau da'r ysgol.

Mewn tri chwarter o ysgolion, mae nodweddion da heb unrhyw ddiffygion pwysig yn y dewis o gyrsgiau a phrofiadau dysgu sy'n cael eu darparu.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Yn yr holl ysgolion eraill, mae nodweddion da yn gorbwysio diffygion. Mewn pedair o bob 10 ysgol, mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys:

- ✓ cysylltiadau agos â chyflogwyr lleol a'r gymuned leol sy'n cynnig profiadau gwerth chweil i ddisgyblion o'r byd y tu allan, er enghraifft mewn addysg bersonol a chymdeithasol, addysg sy'n gysylltiedig â gwaith neu brofiad gwaith;
- ✓ partneriaethau effeithiol gydag ysgolion cynradd bwydo i gynllunio dilyniant da o ran cynnwys gwersi ac asesu;
- ✓ defnydd cyffredin a helaeth o TGCh i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion;
- ✓ yr ysgol gyfan yn canolbwyntio ar [ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang](#); ac
- ✓ amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys ymweliadau addysgol, cerddoriaeth, y celfyddydau perfformio a chwaraeon, sydd oll yn cyfrannu at ddatblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.

Mae cyflwyno'r [Llwybrau Dysgu 14-19](#) yn golygu y dylai dysgwyr fod yn gallu dewis o amrywiaeth fwy o gyrsiau sy'n ateb anghenion ac uchelgeisiau pob disgybl yn well. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o ysgolion sy'n cynnig amrywiaeth ddigon eang o ddewisiadau yn 14 neu 16 oed. Yn benodol, does dim digon o ddewis o bynciau galwedigaethol, yn enwedig ar lefel 2 a lefel 3.

Mae'n annhebygol y bydd ysgolion yn gallu cynnig gwell dewis trwy weithio ar eu pennau eu hunain. I wella'r dewis i'w dysgwyr, mae angen i ysgolion unigol weithio'n well gyda cholegau addysg bellach ac ysgolion uwchradd eraill neu ddarparwyr dysgu yn y gwaith.

Nid yw ysgolion cyfrwng Saesneg yn gwneud digon i wella'r ffordd y maen nhw'n datblygu medrau dwyieithog disgyblion. Bydd gwelliannau'n dibynnu ar ddarparu mwy o amser ar gyfer cyrsiau mewn Cymraeg fel ail iaith a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i wersi, er enghraifft mewn sgwrsio cyffredinol.

Mae ychydig o ysgolion yn methu bodloni'r gofynion cyfreithiol ar gyfer [cydaddoli](#) dyddiol.

Mae gofal, arweiniad a chymorth yn parhau i fod yn dda iawn mewn ysgolion uwchradd, ac mae nodweddion rhagorol mewn bron i chwech o bob 10 o'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu, sy'n debyg i'r llynedd.

Mae'r ysgolion â nodweddion rhagorol:

- ✓ yn olrhain, yn dadansoddi ac yn rhoi sylw i berfformiad a phresenoldeb yn effeithiol;
- ✓ yn gofalu bod pob disgybl yn gallu mynd yn hawdd at bob un o feysydd bywyd yr ysgol; ac
- ✓ yn ateb anghenion disgyblion unigol yn effeithiol trwy ddarparu arweiniad clir i athrawon trwy gynllun addysgol manwl ar gyfer pob disgybl.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae gan ryw 17% o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd **anghenion dysgu ychwanegol** (ADY). Does dim datganiad o anghenion addysgol arbennig gan y rhan fwyaf o'r rhain (85%). O'r holl ddisgyblion o oed ysgol uwchradd yng Nghymru sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig, mae rhyw 70% ohonyn nhw'n cael eu haddysg mewn ysgolion uwchradd y brif ffrwd. Mae'r holl ysgolion bron yn darparu cymorth da neu dda iawn i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Lle mae'n rhagorol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o fan cychwyn isel pan fyddan nhw'n mynd i mewn i'r ysgol. Mae ansawdd da'r cymorth i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgolion yma'n cynnwys:

- ✓ cysylltiadau wedi'u trefnu'n dda rhwng y cydlynnydd anghenion addysgol arbennig (SENCO) a'r ysgolion cynradd partner i adnabod mor gynnar â phosib y myfyrwyr hynny sydd angen cymorth ychwanegol wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd;
- ✓ cyfathrebu clir rhwng yr adran anghenion dysgu ychwanegol ac adrannau pwnc eraill;
- ✓ polisïau o fewn adrannau pwnc sy'n rhoi cyngor addas ynglŷn â diwallu anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; a
- ✓ dewis eang o gyrsiau addas i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys cysylltiadau da â cholegau addysg bellach lleol a phrofiadau galwedigaethol priodol.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn cael y cyfle, trwy gynghorau ysgol a chynghorau blwyddyn, i roi eu barn am agweddau ar fywyd yr ysgol. Ond dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion y maen nhw'n cael y cyfle i ddylanwadu ar gynlluniau'r ysgol i'r dyfodol.

Mae systemau da gan ysgolion yn gyffredinol i wella presenoldeb ac ymddygiad dysgwyr. Er hynny, nid ydyn nhw'n gweithio digon gyda rhieni a sefydliadau'r gymuned, er enghraifft yr heddlu a'r **gwasanaethau cymorth ieuenctid**, i gytuno ar y camau i wella mwy fyth ar eu presenoldeb a'u hymddygiad.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda o leiaf mewn rhyw bedair o bob pump o'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu, ac mae hynny ychydig yn well o gymharu â'r llynedd. Mae nodweddion rhagorol gan ychydig dros draean o ysgolion, o gymharu ag ychydig dros un o bob pump y llynedd. Mewn dwy ysgol, mae diffygion mewn meysydd pwysig (gradd 4).

Yn yr ysgolion sydd â nodweddion rhagorol, mae disgwyliadau uchel gan uwch reolwyr ac maen nhw'n esbonio blaenoriaethau a gwerthoedd yr ysgol yn glir i staff, disgyblion, rhieni a'r gymuned. Maen nhw'n gwneud i staff a disgyblion deimlo'u bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi, ac maen nhw'n rhoi sylw i'w barn. Maen nhw'n rhoi llawer o bwyslais ar wella safonau a pherfformiad ar sail gwaith monitro a hunanarfarnu trylwyr a rheolaidd. Mae'r mwyafrif helaeth o reolwyr canol yn arwain adrannau pwnc a thimau eraill yn dda iawn.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Yn yr ysgolion lle mae diffygion yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, mae diffyg pwyslais cadarn yn aml ar ddysgu a chyflawni, ac mae'r cryfderau a restrir uchod yn llai amlwg o lawer, neu ar goll yn gyfan gwbl.

Mae cyrff llywodraethol yn cyflawni'u cyfrifoldebau'n dda mewn dros 80% o'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu. Mae'r cyrff llywodraethu gorau yn cael gwybodaeth dda ac yn gweithredu fel 'ffrindiau beirniadol' – mewn geiriau eraill, maen nhw'n gofyn cwestiynau heriol am berfformiad, cynllunio a rheolaeth ariannol. Hefyd, maen nhw'n cyfrannu at waith hunanarfarnu trwy gysylltiadau ag adrannau pwnc.

Mewn ychydig o ysgolion, nid yw llywodraethwyr yn deall eu rôl yn ddigon da, a dydyn nhw ddim yn cael digon o wybodaeth dda. Mewn un neu ddwy o'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu, nid yw pob un o'r llywodraethwyr yn mynd yn rheolaidd i gyfarfodydd. Canlyniad hynny yw bod rhaid i nifer bach o lywodraethwyr wneud cyfran annheg o waith y corff llywodraethu.

Mae'r fframwaith arolygu cyffredin yn rhoi mwy a mwy o bwyslais ar hunanarfarnu. Mae hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella wedi gwella'n raddol dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi sefydlu systemau eang sy'n cynnwys arfarnu adrannau pwnc yn gyson, ac arfarnu gan adrannau pwnc yn gyson. Maen nhw'n dadansoddi gwybodaeth am berfformiad disgyblion yn ofalus. Maen nhw'n defnyddio'r darganfyddiadau o'r hunanarfarnu i lunio cynlluniau clir sy'n nodi targedau, cyfrifoldebau, costau, safonau ar gyfer mesur llwyddiant a graddfeydd amser. Mewn rhyw chwarter o'r ysgolion, mae'r hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella'n eithriadol o drylwyr ac effeithiol.

Y prif wendid mewn lleiafrif o ysgolion yw bod gormod o adrannau pwnc sydd heb fod yn ddigon trylwyr wrth wneud gwaith hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r cyllid a'r adnoddau sydd ar gael yn dda. Mae llawer o ysgolion yn elwa'n fawr ar gael bwrsar neu swyddog cyllid effeithiol sy'n gallu rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad arbenigol ar faterion ariannol.

At ei gilydd, mae gan ysgolion ddigon o athrawon â chymwysterau da a staff eraill, ac mewn rhyw chwarter o'r ysgolion, mae rhaglenni da iawn ar gyfer hyfforddi a datblygu staff ymhellach. Ond, mewn nifer bach o ysgolion, does dim digon o athrawon arbenigol mewn rhai pynciau, ac mae rhai gwersi'n cael eu haddysgu gan athrawon sydd heb gymwysterau yn y pwnc, yn arbennig mewn Cymraeg fel ail iaith, Saesneg a mathemateg. Mewn un neu ddau o achosion, nid yw uwch reolwyr mor effeithiol ag y dylen nhw fod am eu bod nhw'n treulio gormod o'u hamser yn addysgu, neu dydyn nhw ddim yn gwybod digon am faes arwain a'r gwaith o reoli'r ysgol.

Mae cynnydd da wedi bod o ran dilyn y cytundeb llwyth gwaith ac ailfodelu'r gweithlu (er enghraifft, cyflogi mwy o staff cymorth i wneud tasgau a oedd yn cael eu gwneud gan athrawon cyn hynny), ac mae'r effaith ar athrawon wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Er hynny, mewn lleiafrif bach o ysgolion, mae costau uchel cyflogi nifer mawr o staff hŷn yn drwm ar y gyllideb. Gall hyn effeithio ar rannau eraill o'r ysgol trwy olygu efallai fod llai o arian i'w wario ar adnoddau addysgu, a bod y grwpiau addysgu'n fwy. Mewn ychydig o ysgolion, mae perygl i ddsbarthiadau mawr orlwytho athrawon gan wneud yr addysgu'n llai effeithiol. Hefyd, mae trefnu a rheoli'r newidiadau sy'n dod yn sgil ailfodelu'r gweithlu'n effeithlon ac yn effeithiol yn cymryd llawer o amser uwch aelodau staff a phenaethiaid.

Mae gan bron pob un o'r adrannau pwnc ddigon o adnoddau dysgu o safon, ond mae lleiafrif o ysgolion yn brin o adnoddau dysgu mewn technoleg dylunio.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gwneud llawer dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i wella ansawdd eu cyfarpar ar gyfer TGCh, a faint sydd ar gael. Ond mewn rhyw un o bob pump o ysgolion, mae llawer o adrannau pwnc yn ei chael hi'n anodd yn ddigon aml i ddefnyddio'r cyfrifiaduron am nad oes digon o ystafelloedd TGCh. Mae ychydig o ysgolion wedi delio â'r broblem yma trwy ddarparu llawer mwy o ystafelloedd TG.

At ei gilydd, mae adnoddau staffio a dysgu da yn yr ysgolion, ond nid yw eu hadeiladau gystal ag y dylen nhw fod yn aml. Barnodd ein harolygwyr bod yr adnoddau staffio a dysgu yn radd 1 neu'n radd 2 mewn 86% o ysgolion eleni, ond dim ond 56% o ysgolion a gafodd y graddau yma am eu hadeiladau. Mewn tair ysgol, roedd yr adeiladau'n dangos diffygion mewn meysydd pwysig (gradd 4).

Mae gan bron i hanner yr ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu rai agweddau sâl ar eu hadeiladau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ✗ mannau yn yr awyr agored sy'n anwastad neu'n fwdlyd, ac mae plant yn baeddu eu dillad a'u hesgidiau ac yn dod â mwd i mewn i'r ysgol mewn tywydd gwlyb;
- ✗ mannau yn yr awyr agored y mae angen eu hailaddurno, a'u hatgyweirio weithiau;
- ✗ mannau addysgu bach ar gyfer rhai pynciau neu labordai, ystafelloedd technoleg neu gyfleusterau chwaraeon anaddas;
- ✗ adeiladau nad yw rhai pobl ag anableddau corfforol yn gallu mynd i mewn iddyn nhw; a
- ✗ chyfleusterau toiled ac ymolchi heb sebon, papur tŷ bach neu gloeon ar giwbiclau. Hefyd, dydi llawer o doiledau ddim yn cael eu harchwilio gan staff yn ystod y dydd, ac yn aml does dim digon o doiledau ar gyfer y nifer o ddisgyblion yn yr ysgol. Os nad yw disgyblion yn hapus gyda thoiledau'r ysgol, maen nhw'n fwy tebygol o beidio ag yfed neu fwyta digon yn ystod y dydd fel na fydd angen iddyn nhw eu defnyddio.

Mae ychydig o ysgolion wedi gwella'u cyfleusterau'n fawr trwy wneud amser i chwilio am grantiau neu nawdd, er enghraifft gan Gyngor Chwaraeon Cymru neu'r coleg addysg bellach lleol. Maen nhw'n arbed arian hefyd trwy gael staff, rhieni a disgyblion i helpu gyda'r gwaith o ailaddurno ystafelloedd dosbarth.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae gan ychydig o ysgolion ganolfannau newydd neu ganolfannau wedi'u hadnewyddu hefyd ar gyfer cyrsiau'r celfyddydau perfformio a chysiau galwedigaethol, a chyfleusterau chwaraeon rhagorol, gyda phwll nofio neu fannau bob tywydd weithiau. Mae'r rhain ar gael i aelodau'r gymuned eu defnyddio hefyd weithiau.

Ysgolion arbennig (gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol)

Safonau

Eleni fe wnaethon ni gynnal [arolygiadau llawn](#) (cyfeiriwch at 'Y fframwaith arolygu cyffredin' ar dudalen page 84) mewn saith o ysgolion arbennig sy'n cael eu cynnal a phedair o ysgolion arbennig annibynnol. Aethon ni ati hefyd i ail-arolygu dwy ysgol arbennig sy'n cael eu cynnal sydd â gwendidau difrifol. Mewn chwech o'r ysgolion yma, mae mwyafrif o'r disgyblion ag [anawsterau dysgu difrifol a dwys](#), gan gynnwys [awtistiaeth](#). Mae saith o'r ysgolion yn darparu'n bennaf ar gyfer disgyblion ag [anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad](#) difrifol.

Cafodd arolygiadau monitro a chofrestru blynyddol eu cynnal mewn 25 o ysgolion arbennig annibynnol eraill. O'r rhain, mae 12 ohonyn nhw'n ysgolion newydd sy'n darparu ar gyfer [plant sy'n derbyn gofal](#) ac yn byw mewn cartrefi plant. Mae'r 13 arall yn [ysgolion annibynnol](#) sydd wedi hen sefydlu ar gyfer disgyblion ag amrywiaeth eang o anghenion addysgu arbennig.

Mae'r safonau'n dda ym mhob un o'r chwe ysgol arbennig ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol a dwys a gafodd eu harolygu eleni. Mewn tair o'r ysgolion yma, mae nodweddion rhagorol i'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud wrth ddysgu cyfathrebu'n well, naill ai drwy siarad neu mewn ffyrdd eraill. Mae'r disgyblion hyn yn mynd yn fwy a mwy abl i gymryd rhan lawnach ym mywyd y teulu a'r gymuned.

Yn y saith o ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad a gafodd eu harolygu eleni, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn darllen, ysgrifennu, mathemateg, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Er hynny, anaml y mae nodweddion rhagorol i waith y disgyblion yn yr ysgolion yma. Mewn dwy o bob pump o'r gwersi, mae diffygion pwysig i'w gweld o hyd yn ymddygiad, presenoldeb a phrydlondeb y disgyblion, ac mae'r rhain yn eu rhwystro rhag dysgu a gwneud cynnydd.

Mewn tair o'r ysgolion arbennig sy'n cael eu cynnal a gafodd eu harolygu eleni, nid yw disgyblion ag anawsterau ymddygiad yn cyflawni'n ddigon da. Mae angen gweithredu mesurau arbennig mewn un o'r ysgolion yma, ac mae angen gwella un ysgol arall yn sylweddol. Mae un ysgol arbennig arall wedi gwella ers y llynedd, a does ganddi ddim gwendidau difrifol erbyn hyn.

Mae'n chwe blynedd ers arolygiad diwethaf saith o'r naw o ysgolion arbennig sy'n cael eu cynnal a gafodd eu harolygu eleni. Erbyn hyn mae gwaith rhagorol i'w weld mewn dwywaith gymaint o wersi, a dim ond hanner y gwersi sydd â rhai diffygion yn y gwaith.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae safonau wedi gwella'n gyflymach dros y chwe blynedd diwethaf mewn ysgolion ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu, o'u cymharu ag ysgolion ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiad.

Siart 17: Y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn gwersi mewn ysgolion arbennig sy'n cael eu cynnal a gafodd eu harolygu yn 2006-2007 ac yn 2000-2001

	Gradd 1	Gradd 2
2006-2007	20%	63%
2000-2001	10%	51%

Mewn tair ysgol lle mae diffygion, nid yw athrawon yn cynllunio gwaith sy'n cyd-fynd â galluoedd a diddordebau disgyblion. A dydyn nhw ddim bob amser yn llwyddo i reoli ymddygiad disgyblion yn ddigon da.

Siart 18: Ansawdd yr addysgu mewn gwersi mewn ysgolion arbennig sy'n cael eu cynnal a gafodd eu harolygu yn 2006-2007 ac yn 2000-2001

	Gradd 1	Gradd 2
2006-2007	25%	64%
2000-2001	16%	57%

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Mae ansawdd yr addysgu a'r asesu yn y rhan fwyaf o'r ysgolion arbennig yn dda. Mae'n rhagorol mewn rhyw chwarter o'r holl wersi ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu. Mae llawer o nodweddion da mewn gwersi ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiad, ond mae rhai diffygion hefyd.

Dros y chwe blynedd diwethaf, mae canran y gwersi â nodweddion rhagorol i'r addysgu wedi cynyddu, ac erbyn hyn mae llai o wersi sydd â diffygion yn yr addysgu.

Yn y tair ysgol orau, mae athrawon, cynorthwywyr addysgu a [therapyddion](#) yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i asesu ac i ddiwallu anghenion personol, cymdeithasol, dysgu a meddygol amrywiaeth eang o ddisgyblion unigol.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion arbennig yn darparu dewis da o gyrsiau a chyfleoedd eraill sy'n helpu i ddatblygu eu diddordebau a'u paratoi ar gyfer bywyd fel oedolion. Mae nodweddion rhagorol i'r cyfleoedd dysgu mewn rhyw hanner yr ysgolion arbennig a gafodd eu harolygu eleni. Mae ychydig o ysgolion yn dal i fethu addysgu digon o Gymraeg, ieithoedd tramor modern ac addysg grefyddol.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion arbennig yn darparu gofal, arweiniad a chymorth da i ddisgyblion, ac mae nodweddion rhagorol yn rhyw hanner yr ysgolion a gafodd eu harolygu eleni. Nid yw ychydig o ysgolion yn defnyddio'r [Swyddfa Cofnodion Troseddol](#) i wneud yr archwiliadau angenrheidiol o staff.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Yn yr holl ysgolion ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu y gwnaethon ni eu harolygu eleni, mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda. Mae nodweddion rhagorol mewn dwy ran o dair o'r ysgolion yma.

Yn y tair ysgol orau, mae arweinwyr a rheolwyr yn gweithio'n agos iawn gyda rhieni, ysgolion y brif ffrwd a phartneriaid eraill i gynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith y gymuned leol.

Dros y chwe blynedd diwethaf, mae arweinwyr a rheolwyr wedi gwella ansawdd addysgu a dysgu drwy:

- ✓ wirio'n fwy cyson bod yr addysgu o ansawdd da a bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd gorau posib;
- ✓ annog staff i gasglu gwybodaeth ac ennill medrau newydd, er enghraifft wrth asesu a rheoli ymddygiad;
- ✓ defnyddio medrau cynorthwywyr addysgu'n fwy effeithiol i gynorthwyo dysgu disgyblion;
- ✓ darparu cyfarpar TGCh gwell ac adnoddau dysgu eraill; a
- ✓ gwella safon adeiladau.

Mae llawer o nodweddion da i arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiad, ond mae rhai diffygion yn y rhan fwyaf ohonynt nhw hefyd.

Yn y tair ysgol sy'n perfformio orau, mae arweinwyr a rheolwyr yn gwneud yn siŵr bod staff addysgu a staff heblaw rhai addysgu'n gweithio'n agos iawn gyda'i gilydd i godi safonau, trwy gynnig cyfleoedd dysgu da i ddisgyblion cyn ac ar ôl y diwrnod ysgol.

Mae diffygion pwysig eleni yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn tair ysgol arbennig sy'n cael eu cynnal.

Yn yr ysgolion yma, nid yw penaethiaid a llywodraethwyr:

- ✗ yn darparu arweinyddiaeth gref a synnwyr clir o ddiben i'r ysgol;
- ✗ yn gweithio mewn partneriaeth â thimau gwella ysgolion yr **awdurdod lleol** i adnabod a chywiro gwendidau pwysig yn yr addysgu a'r dysgu;
- ✗ yn gwneud yn siŵr bod gan bob aelod o staff y medrau a'r cymorth iawn i addysgu disgyblion ag ymddygiad heriol; ac
- ✗ yn gofalu bod yr ysgol yn addysgu popeth y mae'n rhaid ei addysgu yn ôl y gyfraith.

Mae rhyw hanner o'r 12 o ysgolion arbennig annibynnol mwyaf newydd yn dechrau darparu addysg o safon dda i blant sy'n derbyn gofal a disgyblion ag **anghenion addysgol arbennig**. Yn y gweddill, nid yw **perchenogion** ac uwch aelodau staff yn gwneud digon i fodloni'r **Safonau Ysgolion Annibynnol** trwy wella'r asesu a'r addysgu, trwy ymestyn cyfleoedd dysgu i ddisgyblion, a thrwy gynllunio i wella mynediad i ddisgyblion anabl.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Unedau cyfeirio disgyblion

Safonau

Mewn chwech o'r saith o unedau cyfeirio disgyblion y gwnaethon ni eu harolygu eleni, mae'r holl ddisgyblion bron yn gwneud cynnydd da neu dda iawn yn eu dysgu a'u medrau allweddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella'u presenoldeb, eu hymddygiad a'r modd y maen nhw'n dod ymlaen â phobl eraill. Maen nhw'n dod yn fwy awyddus i ddysgu ac yn fwy ymwybodol o hawliau ac anghenion pobl eraill, ac maen nhw'n ennill cymwysterau defnyddiol. Mae'r cynnydd da yma'n creu synnwyr o falchder newydd yn y disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn gadael eu hunedau'n barod i gael a chadw swydd neu i symud ymlaen at hyfforddiant pellach.

Yn yr achosion lle mae cynnydd disgyblion yn wannach, nid yw'r unedau cyfeirio disgyblion yn cynnig cyfleoedd cwricwlwm ddigon eang. Does dim digon o gyfleoedd mewn Cymraeg, ieithoedd tramor modern, gwaith creadigol ac ymarferol, a gwyddoniaeth. Mewn tair uned, nid yw disgyblion yn cael digon o amser addysgu. Mewn ychydig o unedau cyfeirio disgyblion, mae nifer bach o ddisgyblion yn ymddwyn yn wael ac yn gwrthod gweithio yn eu gwersi. Nid yw anghenion penodol disgyblion ag ymddygiad heriol iawn yn cael eu diwallu o hyd. Maen nhw'n aml iawn yn aros yn rhy hir mewn un uned yn hytrach na symud ymlaen at ddarpariaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn well. Mae hyn yn effeithio'n ddrwg ar eu cynnydd.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Mae'r addysgu'n dda mewn pedair o'r pum uned y gwnaethon ni eu harolygu, ac mae nodweddion rhagorol mewn dwy uned arall. Ym mhob un o'r saith uned, mae athrawon:

- ✓ yn defnyddio asesu'n ofalus i wneud yn siŵr bod y gwaith yn cyfateb i alluoedd, anghenion a diddordebau disgyblion unigol;
- ✓ yn addysgu medrau sylfaenol a medrau allweddol yn dda;
- ✓ yn cysylltu'n dda â'u disgyblion ac yn disgwyl iddyn nhw ymddwyn yn dda a gweithio'n galed;
- ✓ yn cyflwyno disgyblion i amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n ehangu eu profiadau ac yn eu helpu i fagu hyder;
- ✓ yn rhoi cymorth ac arweiniad da i ddisgyblion;
- ✓ yn eu helpu i ddelio â'r materion yn eu bywydau personol a all fod yn eu hatal rhag gwneud cynnydd; ac
- ✓ yn trefnu i ddisgyblion gael help arbenigol os oes angen.

Yn yr ychydig o unedau lle mae diffygion mae athrawon:

- ✗ yn defnyddio gormod o daflenni gwaith sy'n rhy hawdd i ddisgyblion; a
- ✗ heb y wybodaeth angenrheidiol i addysgu gwyddoniaeth, Cymraeg, cerddoriaeth neu ieithoedd tramor modern.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mewn pump o'r saith uned y gwnaethon ni eu harolygu, mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda gyda nodweddion rhagorol. Ym mhob uned ond un, mae'r awdurdod lleol wedi nodi'n glir beth mae disgwyl i'r uned ei gyflawni, ac mae pwyllgor rheoli'n gwirio pa mor dda mae'r uned yn gweithio. Rydyn ni wedi tynnu un uned o'r categori mesurau arbennig gan ei bod yn gweithio'n dda erbyn hyn.

Mae'r holl reolwyr unedau'n edrych ar yr addysgu a'r dysgu'n rheolaidd er mwyn gweld pa mor dda mae staff a disgyblion yn gweithio. Maen nhw'n gwneud defnydd da o'r gwiriadau yma i helpu staff i wella'u gwaith. Mae'r rhan fwyaf o reolwyr yn gofalu eu bod nhw'n asesu gwaith pawb sy'n gysylltiedig â'r uned. Mae un uned yn methu cofnodi ei darganfyddiadau ac nid yw'n gofyn i ddysgwyr, rhieni na gofalwyr am eu barn.

Mae'r holl unedau bron yn gweithio'n agos gyda phartneriaid fel ysgolion, colegau, cwmnïau gyrfa a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae gweithio ar y cyd fel hyn yn golygu bod staff unedau'n gallu rhannu gwybodaeth am ddisgyblion fel eu bod nhw'n cael y cymorth angenrheidiol a'r cyfle gorau i fynd yn ôl i'w hysgol neu i symud ymlaen at ddysgu pellach. Er hynny, mae un uned yn methu gweithio'n ddigon agos gyda'i phartneriaid i helpu'r disgyblion â'r anawsterau mwyaf difrifol.

At ei gilydd, mae cymwysterau staff yn dda, ac maen nhw'n gweithio'n dda gyda'i gilydd. Maen nhw'n cael hyfforddiant addas i ddelio ag ymddygiad disgyblion.

Mae awdurdodau lleol yn darparu digon o adnoddau ac adeiladau o ansawdd da'n gyffredinol. Ond nid oes gan yr un o'r unedau yma ystafell ag offer a chyfarpar priodol lle y gall disgyblion astudio gwyddoniaeth. Mae hyn yn cyfyngu ar eu dysgu.

Gwaith awdurdodau lleol

Gwella ysgolion

Eleni, er bod safonau cyffredinol ysgolion wedi gwella, mae canlyniadau arolygiadau'n dangos bod dwywaith gymaint o ysgolion yn achosi pryder eleni (2006-2007) o gymharu â'r llynedd (2005-2006). Yn ystod 2006-2007, tynnodd arolygwyr sylw at ddwy ysgol gynradd, dwy ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig lle'r oedd angen gweithredu mesurau arbennig. Hefyd, mae 16 o ysgolion erbyn hyn y mae angen eu gwella'n sylweddol neu lle mae gwendidau difrifol yn para.

Ar draws Cymru, mae llawer o anghysondeb i'w weld yng ngwaith yr ysgolion. Mae ein siartiau yn atodiad 1 yn rhestru canlyniadau ein harolygiadau ysgolion. Rydyn ni wedi seilio adran un o'r adroddiad yma ar gyfanswm y graddau cod lliw. Yn 2006-2007, roedd llawer o waith rhagorol mewn 32 o'r 301 o ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu (ychydig dros 10%). O'r 32 ysgol yma, roedd 23 (rhyw 70%) ohonyn nhw'n ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu yn 2000-2001, ac roedd pob un ohonyn nhw bron yn cynhyrchu rhywfaint o waith rhagorol bryd hynny. Er hynny, mae eu gwaith wedi gwella mwy dros y chwe blynedd.


Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Yn 2006-2007, nid yw bron i un o bob 10 ysgol yn gwneud yn ddigon da. Ym mhob un o'r ysgolion yma bron, fe farnon ni bod rhai agweddau ar y gwaith yn radd 4 (rhaid nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig). O'r 29 o ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu yn 2006-2007, cafodd 23 eu harolygu ddiwethaf yn 2000-2001. Mae rhyw dri chwarter o'r ysgolion hynny mewn sefyllfa waeth nawr nag yr oedden nhw chwe blynedd yn ôl, a dim ond ychydig ohonyn nhw sy'n gwneud yn well. Mae perfformiad y 10% yma o ysgolion yn codi cwestiynau pwysig ynglŷn ag arweinyddiaeth, ac ynglŷn â'r cymorth y mae awdurdodau lleol wedi'i ddarparu. Nid yw'n ddigon da bod diffygion pwysig yn dal i'w gweld yn yr ysgolion yma ar ôl chwe blynedd.

Mae'r siartiau bawd sy'n dilyn yn dangos patrwm y graddau a gafodd eu dyfarnu gennym yn 2006-2007 i'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu ym mhob awdurdod lleol. Mae'r lliwiau'n adlewyrchu'r graddau arolygu ar gyfer pob un o'r saith cwestiwn allweddol y mae ein harolygiadau wedi'u seilio arny'n nhw. Mae gwyrdd yn cynrychioli'r gwaith gorau (gradd 1), mae melyn yn cynrychioli gwaith da (gradd 2), mae oren yn cynrychioli gwaith lle mae'r nodweddion da yn gorbwyso'r diffygion (gradd 3) ac mae coch yn cynrychioli gwaith sydd â diffygion mewn meysydd pwysig (gradd 4). Mae'r canlyniadau ar gyfer y saith cwestiwn allweddol wedi'u gosod mewn colofnau syth yn y siartiau bawd gan fynd o'r chwith i'r dde. Mae'r siart bawd cyntaf yn dangos cyfran y graddau arolygu a gafodd eu dyfarnu gennym i ysgolion ar gyfer pob cwestiwn allweddol ar draws Cymru.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Siart 19: Cyfran y graddau arolygu a gafodd eu dyfarnu i ysgolion ar gyfer pob cwestiwn allweddol ym mhob awdurdod lleol yn 2006-2007




Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae'r siartiau bawd yn dangos sut mae gwaith ysgolion yn amrywio ar draws Cymru ac yn ôl awdurdod lleol.

- ✓ Ar draws Cymru, mae'r gwaith ym mwyafrif yr ysgolion yn dda neu'n well.
- ✓ Mae'r gwaith ym mhob un o'r ysgolion ar gyfer pob cwestiwn allweddol mewn 10 awdurdod lleol yn foddhaol neu'n well.
- ✓ Mae arweinyddiaeth a rheolaeth (cwestiwn allweddol 5) ym mhob ysgol mewn 14 o'r awdurdodau lleol yn foddhaol neu'n well.
- ✗ Does dim digon o ragoriaeth mewn gwaith ysgolion ar draws yr holl awdurdodau lleol o ran safonau addysgu a safonau addysgol yn benodol.
- ✗ Mae gan dri awdurdod lleol ysgolion sydd â diffygion pwysig yn eu gwaith mewn o leiaf pump o'r saith cwestiwn allweddol.

Mae'r amrywio eang yma yng ngwaith ysgolion mewn gwahanol awdurdodau lleol i'w weld yn y siart canlynol sy'n dangos canlyniadau arolygiadau ysgolion dros y ddwy flynedd diwethaf (2005-2007). Mae hwn yn dangos dosbarthiad ysgolion sydd ag ychydig o nodweddion rhagorol neu ddim nodweddion rhagorol (oren) a'r rheini sydd â nodweddion da a rhagorol yn bennaf (gwyrdd). Roedd ychydig o nodweddion rhagorol neu ddim nodweddion rhagorol a rhai diffygion pwysig gan draean o'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu yn ystod y ddwy flynedd yma. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr yn yr ysgolion hynny bob amser yn cyflawni gystal ag y gallen nhw.

Siart 20: Data arolygu ysgolion 2005-2007



Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae **Atodiad 3** yn dangos cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd y cyfnodau allweddol ym mhob un o'r awdurdodau lleol ar draws Cymru. Mae'r siartiau'n dangos yr anghysondeb mewn perfformiad ysgolion yn yr awdurdodau lleol gwahanol ac, rhwng rhai awdurdodau lleol, mae amrywio annerbyniol yn y safonau.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn rhoi cymorth effeithiol i ysgolion y mae ein harolygiadau wedi tynnu sylw atyn nhw fel rhai sy'n peri pryder. Er hynny, ymhlith gwendidau cyffredinol awdurdodau lleol y mae:

- X** diffyg polisïau cadarn neu bolisïau digon effeithiol ar gyfer monitro, herio a chysylltu ag ysgolion yn ddigon cynnar i'w hatal rhag methu neu fynd yn destun pryder difrifol;
- X** methu gweithio gyda'r ysgolion yma ar ôl cytuno ar ffyrdd o wella perfformiad disgyblion;
- X** methu defnyddio data **meincnod** neu **ddata** gwerth ychwanegol yn ddigon da i gymharu perfformiad ysgolion ag ysgolion eraill tebyg;
- X** methu mynd ati'n ddigon da i dargedu meysydd penodol i'w gwella; a
- X** methu defnyddio'r holl ddewisiadau sydd ar gael wrth gyflawni eu dyletswydd gyfreithiol i ofalu bod ysgolion yn gwella, er enghraifft, penodi mwy o lywodraethwyr neu roi rhybuddion i ysgolion sy'n tangyflawni.

Ar draws awdurdodau lleol mae diffyg hyfforddiant i benaethiaid presennol a rheolwyr canol ynglŷn â gwella ysgolion ac, yn rhannol, dyma pam nad yw ysgolion yn cyflawni gystal ag y gallen nhw.

Mae cymorth mwyaf effeithiol yr awdurdodau lleol i ysgolion:

- ✓ yn seiliedig ar strategaeth glir ar gyfer gwella ysgolion ac y mae ysgolion yr awdurdod yn ei deall yn iawn;
- ✓ wedi'i gynllunio'n dda ac yn targedu'r ysgolion hynny y mae angen mwyaf o gymorth arnyn nhw;
- ✓ yn seiliedig ar ddadansoddi gwahanol fathau o wybodaeth am berfformiad, gyda phwyslais penodol ar hunanarfarnu, gosod targedau a gwella safonau;
- ✓ yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau i ehangu cyfleoedd dysgu; ac
- ✓ yn cynnwys yr help a'r wybodaeth fwyaf trefnus i lywodraethwyr, fel y gallan nhw herio perfformiad ysgolion.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Arolygiadau awdurdodau lleol

Mae arolygwyr Swyddfa Archwilio Cymru'n ymuno â'n harolygiadau ni o wasanaethau addysg awdurdodau lleol. Fe weithion ni gyda Swyddfa Archwilio Cymru a chynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol hefyd i gynllunio arolygiadau awdurdodau lleol ar y cyd.

Eleni, aethon ni ati i arolygu gwasanaethau addysg naw **awdurdod lleol**. Fe wnaethon ni ganolbwyntio ar un neu fwy o brif wasanaethau'r awdurdodau lleol yma, a rheolaeth strategol (cyfeiriwch at yr adran nesaf) ym mhob arolygiad. Fe aethon ni ati i arolygu:

- chwe gwasanaeth gwella ysgolion;
- dau wasanaeth sy'n cynorthwyo plant ag anghenion addysgol arbennig ac yn hyrwyddo **cynhwysiad** cymdeithasol;
- pedwar gwasanaeth sy'n cynorthwyo **mynediad** ac ad-drefnu ysgolion; a
- dau wasanaeth cymorth.¹³

Fe roddon ni farn ar safon pob gwasanaeth, a nodi ei ragolygon o ran gwella. Mae'r siartiau yn **Atodiad 4** yn crynhoi ein barn am y gwasanaethau y buon ni'n eu harolygu.

¹³ Mae gwasanaethau cymorth yn cynnwys adnoddau dynol, cymorth gweinyddol ariannol a chymorth TGCh.

Mae ansawdd y gwasanaethau a gafodd eu harolygu'n llawer gwaeth na'r llynedd a dyma'r canlyniad gwaethaf er 2001-2002. Ein casgliad oedd bod traean o wasanaethau'n wael, a bod dwy ran o dair o'r gwasanaethau y gwnaethon ni eu harolygu'n annhebygol o wella. Mae'r adran sy'n dilyn yn esbonio'r prif resymau dros weld proffil gwael eleni.

Rheolaeth strategol

Yn y gwasanaethau y gwnaethon ni eu harolygu, dim ond mewn un awdurdod lleol y mae'r **rheolaeth strategol** yn dda. Mae gwendidau mewn meysydd pwysig yn rheolaeth strategol yn yr wyth arall.

Yn yr un awdurdod lleol lle mae rheolaeth strategol y gwasanaethau addysg yn effeithiol, y rheswm am hyn yw:

- ✓ mae gan aelodau etholedig weledigaeth a blaenoriaethau clir, ac maen nhw'n eu cyfleu yn glir;
- ✓ mae blaenoriaethau cynllunio strategol yn cael adnoddau priodol;
- ✓ mae cynlluniau addysg yn cynnwys nodau clir a thargedau heriol sy'n cysylltu'n dda â chynlluniau eraill y cyngor;
- ✓ mae'n cyfathrebu gydag ysgolion ac mae'r gwaith partneriaeth ac ymgynghori ar strategaeth a pholisïau'n effeithiol; ac
- ✓ mae strategaeth glir a chynllunio o safon ar gyfer integreiddio (cysylltu) addysg a gwasanaethau plant.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Yn gyffredinol fe wnaeth awdurdodau lleol dreulio llawer o amser eleni'n paratoi i ddatblygu a chyflwyno [Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc](#).

Mae tua hanner yr awdurdodau lleol:

- ✗ yn ansicr ynglŷn â'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau effeithiol i blant a phobl ifanc; ac
- ✗ heb gytuno ar eu blaenoriaethau cyffredin nac ar y ffordd orau o gydweithio â gwasanaethau a phartneriaid eraill y cyngor, er enghraifft, y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd cymunedol.

Yn yr awdurdodau lleol lleiaf y gwnaethon ni eu harolygu, mae llwythi gwaith uchel iawn gan uwch swyddogion, a gormod o gyfrifoldebau gweithredol. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ganolbwyntio ar flaenoriaethau strategol allweddol, ac mae hefyd yn cynyddu'r perygl y byddan nhw'n methu cynnal y cynnydd presennol. Mae rhyw draean o awdurdodau lleol yn ei chael hi'n fwy a mwy anodd dod o hyd i staff profiadol i gymryd rolau arwain.

Yn gyffredinol, mae arweinyddiaeth strategol ad-drefnu ysgolion ar draws Cymru'n wan. Dim ond rhyw draean o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â chynlluniau clir o ran moderneiddio'u hysgolion, ac yn gweithredu ar y cynlluniau yma, er enghraifft, cael gwared o leoedd heb eu llenwi mewn ysgolion, gwella adeiladau neu gau ysgolion. Mae hyn yn arwain at broblem [lleoedd heb eu llenwi](#) ac adeiladau ysgol sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n wael ac yn gwaethygu am nad yw llawer o awdurdodau lleol yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r broblem.

Mae diffygion yn y trefniadau asesu perfformiad mewn llawer o awdurdodau lleol ar draws Cymru. At ei gilydd, nid ydyn nhw'n monitro nac yn arfarnu effaith gwasanaethau addysg yn ddigonol. Nid yw aelodau etholedig yn herio perfformiad gwasanaethau, swyddogion ac ysgolion yn ddigon gweithredol.

Mynediad a threfniadaeth ysgolion

Mewn llawer o'r awdurdodau lleol y gwnaethon ni eu harolygu eleni:

- ✓ mae'r gweithdrefnau ar gyfer derbyniadau'n glir ac yn deg, ac mae ysgolion, cyrff llywodraethu a rhieni'n eu deall yn dda; ac
- ✓ mae'r ddarpariaeth ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol o ansawdd da'n gyffredinol.

Ond roedd diffygion pwysig gan yr holl wasanaethau mynediad a gafodd eu harolygu eleni. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ✗ cynnydd araf iawn o ran delio â mater lleoedd heb eu llenwi a chau ysgolion sy'n brin o ddisgyblion; ac
- ✗ oed, natur a chyflwr llawer o adeiladau ysgol, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Mae hyn yn cyfyngu ar yr amrywiaeth o gyfleusterau addysgol y gall ysgolion eu darparu.

Mae awdurdodau lleol sy'n gwasanaethu ardaloedd gwledig wedi bod yn arbennig o araf wrth fynd i'r afael â phroblem lleoedd dros ben a lleoedd heb eu llenwi mewn ysgolion.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae angen i'r awdurdodau lleol yma ystyried sut mae darparu addysg o safon dda yn agos at gartrefi disgyblion, a dod o hyd i ffyrdd o leihau lleoedd heb eu llenwi. Mae hyn yn golygu bod y gost o ddarparu addysg yn yr awdurdodau gwledig yma yn uwch na sydd angen, am eu bod ar hyn o bryd yn cynnal llawer o ysgolion bach sy'n ddrud i'w rhedeg. Mae un awdurdod lleol wedi amcangyfrif cost o £5 miliwn bob blwyddyn am beidio â mynd i'r afael â'r mater lleoedd heb eu llenwi mewn ysgolion. Nid yw hyn yn ffordd effeithlon o ddefnyddio arian cyhoeddus.

Mae ychydig o awdurdodau lleol mewn ardaloedd adeiledig wedi gorfod rhoi'r gorau i raglenni moderneiddio uchelgeisiol oherwydd ymgynghori a chyfathrebu gwael gydag ysgolion a'r cyhoedd, a'r ffaith nad yw eu haelodau etholedig eu hunain yn cefnogi'r cynlluniau.

Mae'r cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd o dde ddwyrain Cymru'n wael. Mae cynnydd mawr yn nifer y lleoedd heb eu llenwi mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ond does dim digon o leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Pan fydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llawn, mae polisi gan un awdurdod lleol i gynnig lleoedd mewn dosbarthiadau cychwyn mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae hwn yn gynllunio strategol gwan. Nid dyma yw dymuniadau rhieni ac nid yw'n diwallu anghenion disgyblion.

Anghenion dysgu ychwanegol

Yn y ddau wasanaeth anghenion dysgu ychwanegol y gwnaethon ni eu harolygu eleni, mae'r nodweddion da'n cynnwys:

- ✓ darpariaeth dda ar gyfer y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sydd wedyn yn cyflawni safonau dysgu ac ymddygiad da mewn ysgolion y brif ffrwd ac ysgolion arbennig;
- ✓ cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion ac anableddau difrifol a chymhleth; a
- ✓ chynghor ac arweiniad da i ysgolion â disgyblion y mae [Saesneg yn iaith ychwanegol \(SIY\)](#) iddyn nhw.

Er hynny, yn y ddau awdurdod lleol a gafodd eu harolygu, does dim strategaeth gyffredinol ar gyfer y gwasanaethau sy'n cyflwyno rhaglenni [cynhwysiad](#). O ganlyniad:

- ✗ nid yw staff yn y gwasanaethau yma'n gweithio'n ddigon da gyda'i gilydd i godi safonau ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc;
- ✗ does dim darlun clir gan staff o'r canlyniadau ehangach ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; ac
- ✗ nid yw'r awdurdodau lleol yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda, felly ni allan nhw gysylltu cost mathau penodol o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr â chyflawni canlyniadau da.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

At ei gilydd, nid yw awdurdodau lleol yn darparu'n ddigon da ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad, ac nid yw ysgolion y brif ffrwd yn adnabod anghenion y disgyblion yma'n ddigon cynnar nac yn ddigon cyson. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yma'n cyflawni gystal ag y gallen nhw.

Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol:

- ✗ yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn ddigon da i'r disgyblion hynny sy'n cael eu haddysgu mewn awdurdodau eraill neu mewn ysgolion arbennig annibynnol;
- ✗ yn gwybod a yw'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion disgyblion; nac
- ✗ yn gwybod a ydyn nhw'n cael gwerth am arian gan fod y ddarpariaeth yma'n ddrud iawn fel arfer.

Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol yn dda o ran helpu ysgolion ac unedau arbennig i wella safonau. Yn yr ysgolion a'r unedau yma, nid yw awdurdodau lleol:

- ✗ yn codi materion perfformiad gwael yn ddigon cynnar, am nad yw swyddogion gwella ysgolion yn gwybod digon am addysg arbennig fel arfer;
- ✗ yn gweithio'n ddigon agos â swyddogion eraill sy'n gweithio ym maes anghenion dysgu ychwanegol neu faterion ymddygiad; nac
- ✗ yn gwybod a yw eu hysgolion a'u hunedau arbennig yn cyflawni safonau da.

Ysgolion annibynnol

Safonau

Eleni, fe gynhalion ni naw arolygiad llawn o [ysgolion annibynnol](#). Roedd y gwahanol fathau o ysgolion yn amrywio o ysgolion ffydd dyddiol, bach i ysgolion preswyl mawr. Mewn saith o'r ysgolion yma, mae'r safonau'n dda heb unrhyw ddiffygion pwysig (gradd 2). Mewn un ysgol fach, mae nodweddion da sy'n gorbwysio diffygion (gradd 3), ac mewn un ysgol roedd rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig (gradd 4).

Mewn llawer o ysgolion annibynnol, mae disgyblion yn cyflawni safonau da mewn medrau allweddol ac yn gwneud cynnydd da mewn dysgu. Mae eu medrau gwrando'n dda iawn a'u medrau cyfathrebu'n dda. Er hynny, mewn rhyw hanner yr ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n ddigon da ar draws y cwricwlwm.

Yn yr ysgolion hynny sy'n cofrestru disgyblion ar gyfer arholiadau cyhoeddus, mae disgyblion yn cael canlyniadau da iawn mewn arholiadau cyhoeddus o gymharu â'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mewn dwy o'r ysgolion yma, mae'r canlyniadau'n cymharu'n dda iawn â'r ysgolion sy'n cyflawni orau yng Nghymru.

Mewn llawer o'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu, mae disgyblion yn dangos medrau personol, cymdeithasol a dysgu sydd wedi datblygu'n dda iawn.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Yn yr ysgolion yma, mae ymddygiad disgyblion yn eithriadol o dda, ac yn y mwyafrif o ysgolion mae disgyblion yn cael eu cymell yn dda, maen nhw'n gweithio'n galed ac yn canolbwyntio ar lefel uchel.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Mae ansawdd yr addysgu'n dda heb unrhyw ddiffygion pwysig yn y mwyafrif o ysgolion annibynnol y gwnaethon ni eu harolygu eleni.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae nodweddion rhagorol i ychydig o'r gwersi. Y rheswm am hyn fel arfer yw bod athrawon:

- ✓ yn gofalu bod gwaith yn cyfateb yn dda iawn i anghenion dysgu'r disgyblion; ac
- ✓ yn darparu gwersi bywiog a sionc ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu sy'n llawn dychymyg.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon a disgyblion yn dangos llawer o barch ac ymddiriedaeth at ei gilydd, ac mae hyn yn helpu i greu amgylchedd dysgu pwrpasol.

Mewn lleiafrif o wersi, mae diffygion oherwydd:

- ✗ bod cyflymder yr addysgu'n rhy araf;
- ✗ nad yw cynnwys y gwersi'n herio digon ar y disgyblion; ac
- ✗ nad yw'r gweithgareddau dysgu'n diwallu anghenion pob disgybl mewn dosbarth.

Nid yw ryw hanner yr ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu'n asesu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn ddigon da nac yn cydlynu cymorth iddyn nhw'n effeithiol. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud digon o gynnydd mewn llawer o'r ysgolion yma.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion annibynnol, mae'r cwricwlwm yn ddigon eang a chytbwys, ac mae'n cyfrannu'n dda at gyflawni nodau'r ysgol. Mae tair o'r naw ysgol y gwnaethon ni eu harolygu'n hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn eithriadol o dda, yn enwedig eu datblygiad ysbrydol a moesol.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi cymorth da i ddisgyblion newydd. Er hynny, mewn rhyw hanner o'r ysgolion, mae diffygion lle nad yw ysgolion yn bodloni'n llawn y gofynion rheoleiddio sy'n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion. Mae angen i lawer o'r ysgolion yma wella trefniadau diogelwch ar gyfer adeiladau a thir yr ysgol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn ysgolion annibynnol yn dal i amrywio gormod. Mewn traean o'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu, mae'r arweinyddiaeth yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig. Ond mewn rhyw ddwy ran o dair o ysgolion, mae diffygion pwysig yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Yn y mwyafrif o ysgolion, mae **perchenogion** a phenaethiaid yn rhoi cyfeiriad clir drwy nodau a gwerthoedd penodol yr ysgol. Yn yr ysgolion yma, mae'r gwaith o redeg yr ysgol o ddydd i ddydd yn effeithlon ac mae'n helpu i sicrhau bod profiadau dysgu disgyblion o ansawdd da'n gyffredinol. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni eu nodau dysgu ac wrth ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol. Ond mewn rhyw hanner yr ysgolion, nid yw cyfrifoldebau rheoli'n ddigon clir ac mae hyn yn arwain at ansicrwydd ymhlith arweinwyr pwnc ynglŷn â'u rolau wrth fonitro gwaith disgyblion a staff eraill.

Mae gan berchenogion rhyw draean o'r ysgolion wybodaeth dda am faterion sy'n effeithio ar berfformiad eu hysgol, ac maen nhw'n cyflawni eu cyfrifoldebau'n dda. Er hynny, mae lleiafrif o ysgolion yn methu bodloni tua un o bob deg neu fwy o'r gofynion rheoleiddio, gan gynnwys agweddau'n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion. Yn yr ysgolion yma, mae angen i berchenogion wneud mwy i wella ansawdd addysg ac i gyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol yn llawn er lles, iechyd a diogelwch disgyblion.

Mae gan ychydig o ysgolion drefniadau priodol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio datblygiad. Er hynny, mewn rhyw hanner o'r ysgolion, dim ond yn ddiweddar y mae trefniadau hunanarfarnu wedi cael eu cyflwyno, a hyd yma, dydyn nhw ddim yn ddigon trylwyr. Nid yw arweinwyr a rheolwyr cwricwlwm bob amser yn casglu tystiolaeth uniongyrchol o waith disgyblion, nac yn asesu ansawdd yr addysgu a'r dysgu. O ganlyniad, nid yw cynlluniau datblygu'n canolbwyntio ar godi safonau a gwella ansawdd addysg.

Mewn llawer o ysgolion, mae perchenogion a phenaethiaid yn rheoli adnoddau'n ofalus. Maen nhw'n defnyddio'r adnoddau yma'n briodol i wella ansawdd adeiladau a'r amgylchedd dysgu, ac i gyflawni gwell canlyniadau i ddisgyblion. Mae lleiafrif o ysgolion yn gwneud defnydd da o ganolfannau chwaraeon lleol fel y gall disgyblion roi cynnig ar ddewis eang o weithgareddau chwaraeon. Mewn ychydig o ysgolion, serch hynny, mae'r diffyg adnoddau'n cyfyngu ar brofiadau dysgu technolegol a chorfforol disgyblion.

Yn yr ysgolion yma, nid yw disgyblion:

- ✗ yn datblygu eu medrau TGCh yn ddigon da i gofnodi eu gwaith ar gyfrifiadur neu i wneud cyflwyniadau; nac
- ✗ yn gwybod beth sy'n cyfrannu at berfformiad da mewn gwersi addysg gorfforol, sy'n golygu mai prin yw cynnydd y disgyblion yn yr ysgolion yma o ran datblygu medrau a thechnegau addysg gorfforol sy'n dangos lefel dda o reolaeth dros y corff.

Gwasanaethau cymorth ieuenctid

Safonau

Eleni fe wnaethon ni arolygu pedair ardal awdurdod lleol ac ail-arolygu dwy ardal arall. At ei gilydd, mae'r safonau sy'n cael eu cyflawni gan bobl ifanc sy'n gweithio gyda gwasanaethau cymorth ieuenctid wedi gwella ychydig ers y llynedd. Cynyddodd cyfran y sesiynau da neu ragorol (gradd 2 neu uwch) o bum pwynt canran i 80%, er bod llai o waith rhagorol.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Siart 21: Canran y ddarpariaeth lle cafodd graddau 1 i 5 eu dyfarnu yn 2006-2007 ar gyfer safonau cyflawniad, cyrhaeddiad a chymhelliant pobl ifanc

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
2006-2007	14%	66%	17%	2%	1%
2005-2006	20%	55%	19%	5%	1%

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwasanaethau cymorth ieuencid yn mwynhau'r hyn maen nhw'n ei wneud ac maen nhw'n gweithio'n galed. Mae ganddyn nhw berthynas gadarnhaol, gefnogol a llawn parch gydag oedolion a'u cyd-ddisgyblion yn y dosbarth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn dod yn fwy hyderus, yn ymddwyn yn well ac wedi'u cymell yn well, ac mae eu presenoldeb mewn addysg yn gwella. Maen nhw hefyd yn datblygu medrau pwysig ar gyfer cyflogaeth ac yn dysgu sut i wneud dewisiadau o safbwynt eu hiechyd a'u ffordd o fyw.

Er hynny, mae gwasanaethau cymorth ieuencid yn aml yn methu cydnabod sgiliau gwell yn ffurfiol. Hefyd, i ychydig o bobl ifanc, nid yw'r gwaith y maen nhw'n ei wneud yn ddigon heriol ac mae hyn yn golygu nad yw eu dysgu a'u medrau'n gwella gystal ag y gallen nhw.

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n ymwneud â fforymau ieuencid yn cyflawni'n dda. Maen nhw'n dysgu am ddemocratiaeth leol, yn siarad am faterion pwysig gyda rheolwyr ac aelodau o'r cyngor lleol, ac yn cymryd rhan mewn prosesau penderfynu.

Mae'r gwaith yma'n helpu'r bobl ifanc i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r materion sy'n wynebu pobl eraill yn y gymuned ehangach.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

At ei gilydd, mae ansawdd gwaith staff y gwasanaethau cymorth ieuencid yn parhau i wella, ac erbyn hyn mae nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion (gradd 3) neu well gan 94% o'r gwaith, o gymharu â 91% y llynedd.

Fel y llynedd, ein barn ni oedd bod 70% o'r gwaith yn dda neu'n well (gradd 2 ac uwch). Yn y 30% o'r gwaith sydd â diffygion (gradd 3 neu is), dim ond 6% sydd â diffygion mewn meysydd pwysig (gradd 4 a 5). Mae hyn yn welliant o dri phwynt canran o gymharu â'r llynedd. Ond mae maint y gwaith a gafodd ei farnu'n waith rhagorol wedi gostwng o 11 pwynt canran ers y llynedd. Y rheswm am hyn yw nad yw staff yn y gwasanaethau y gwnaethon ni eu harolygu'n ddigon cyson wrth gynllunio er mwyn helpu dysgwyr i weld eu cynnydd eu hunain.

Siart 22: Canran y ddarpariaeth lle cafodd graddau 1 i 5 eu dyfarnu yn 2005-2006 ac yn 2006-2007 i safonau hyfforddi ac asesu

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
2006-2007	10%	60%	24%	5%	1%
2005-2006	21%	49%	21%	7%	2%

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae llawer o **Bartneriaethau Pobl Ifanc** yn dal heb fod yn gwybod am yr holl wasanaethau i bobl ifanc yn eu hardal. Nid yw'r partneriaethau yma'n gwneud yn siŵr bod yr holl bobl ifanc, yn enwedig y rheini dros 19 oed, yn gallu mynd yn hawdd at gymorth a gwasanaethau.

Mae'n rhaid i bob Partneriaeth Pobl Ifanc fod â strategaeth '**Cadw mewn Cysylltiad**', i helpu gwasanaethau cymorth ieuencid i weithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gynorthwyo pobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth. Dim ond mewn hanner y partneriaethau a gafodd eu harolygu y mae'r strategaethau 'Cadw mewn Cysylltiad' yn gweithio'n dda. Mae hyn yn golygu nad yw pobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, yn cael y cymorth sydd ei angen arnyh nhw.

Mae'r cymorth i blant sy'n derbyn gofal yn gwella, yn enwedig i'r plant hynny y mae'r risg fwyaf iddyn nhw adael yr ysgol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am arwain y gwaith o gydlynu gwasanaethau cymorth ieuencid lleol i wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn gallu mynd yn rhwydd at eu 'hawliau'¹⁴. Mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol wneud hyn trwy weithio mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaethau cymorth ieuencid.

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn y partneriaethau a gafodd eu harolygu eleni'r un fath â'r rheini y gwnaethon ni eu harolygu'r llynedd. Mae diffygion pwysig o hyd o ran cynllunio, sicrhau ansawdd a rheoli adnoddau. Yn y ddwy bartneriaeth wannaf, nid yw'r awdurdod lleol yn rhoi arweiniad clir i'w bartneriaid eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru yn newid y ffordd y maen nhw'n rheoli ac yn cydlynu'r partneriaethau. Erbyn hyn mae'r partneriaethau yma'n cynnwys grŵp o uwch swyddogion, prif weithredwyr ac aelodau etholedig. Mae'r newid yma wedi dechrau gwella'r cydlynu rhwng pob partneriaeth leol sydd â diddordeb mewn gwasanaethau cymorth ieuencid. Mae hefyd wedi cynyddu'r sylw y mae uwch reolwyr ac aelodau etholedig yn ei roi i wasanaethau plant a phobl ifanc.

Mae dealltwriaeth dda gan bartneriaethau o'r ffordd y gallan nhw wella ansawdd gwasanaethau cymorth ieuencid. Ond maen nhw'n araf o ran rhoi hyn ar waith. Yn adroddiadau hunanasesu'r darparwyr eleni, dim ond rhyw hanner y graddau oedd yn cyfateb â'r rheini a gafodd eu dyfarnu yn yr arolygiadau.

Mae'r holl bartneriaethau'n dda o ran arfarnu'r ffordd y maen nhw'n gwario grantiau **Cymorth**. Serch hynny, nid yw'r arfarniad yma o'r grantiau'n rhoi digon o sylw i'r gwahaniaeth y mae'r prosiectau yma'n ei wneud i fywydau pobl ifanc.

¹⁴ Mae polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, '**Ymestyn hawliau**', yn diffinio 10 o hawliau i bobl ifanc 11 i 25 oed. Mae'r hawliau yma'n helpu pobl ifanc gymryd mwy o ran mewn addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a gweithgareddau dinasyddiaeth.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Nid yw'r rhan fwyaf o bartneriaethau eto wedi archwilio'n llawn yr holl adnoddau y mae gwasanaethau cymorth ieuenctid eu hardal yn eu cynnig. Mae hyn yn golygu nad ydyn nhw'n gwybod am yr holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwaith gyda phobl ifanc. Mae hyn yn amharu ar y gwaith o dargedu adnoddau at feysydd blaenoriaeth. Nid yw un gwasanaeth ieuenctid awdurdod lleol yn cael digon o gyllid i ddarparu gwasanaeth addas i bobl ifanc.

Y system cyfiawnder ieuenctid

Safonau

Eleni, fe gymeron ni ran mewn arolygiadau mewn tri **thîm troseddau ieuenctid** a thri **lleoliad diogel**. At ei gilydd, nid yw'r safonau ar gyfer pobl ifanc yn y timau troseddau ieuenctid wedi gwella ers y llynedd, ac mae pryderon o hyd nad yw dysgwyr yn cael addysg na hyfforddiant amser llawn, na help gyda'u **medrau sylfaenol**.

Fel y llynedd, fe wnaethon ni ganfod enghreifftiau da iawn o lawer o ddysgwyr yn elwa ar ddysgu anffurfiol. Mae dysgu anffurfiol yn cynnwys prosiectau fel trwsio beiciau, cwrs drama yn ystod gwyliau'r haf a chymryd rhan mewn gweithgareddau'r Urdd. Ond nid yw'r bobl ifanc yma'n cael y cyfleoedd ffurfiol y mae ganddyn nhw hawl i'w cael, sy'n golygu nad ydyn nhw'n gwneud iawn am yr addysg y maen nhw wedi'i cholli yn yr ysgol.

Mewn un tîm troseddau ieuenctid, nid yw dysgwyr yn gorfod aros yn rhy hir i ymuno ag ysgol, ond dydyn nhw ddim yn gallu mynd yn rhwydd at hyfforddiant ôl-16. Yn y ddau dîm troseddau ieuenctid arall, nid yw anghenion addysgol yr holl ddysgwyr yn cael eu diwallu. Mewn un tîm troseddau ieuenctid, gadawodd dysgwyr yr hyfforddiant yn gyflym iawn.

Mae dysgwyr yn y tri lleoliad diogel y gwnaethon ni eu harolygu'n gwella'u medrau sylfaenol ac allweddol, ac maen nhw'n falch o'u cyflawniadau – am y tro cyntaf erioed yn aml. Er hynny, nid yw'r lleoliadau yma'n darparu ar gyfer dysgwyr mwy galluog trwy fod â chyrtsiau lefel uwch yn rhan o'u cwricwlwm. Mae hyn yn dal ychydig o ddysgwyr yn ôl. Maen nhw'n parhau i weithio ar gyrtsiau lefel is sydd heb fod yn eu herio a lle nad oes angen iddyn nhw wneud fawr o ymdrech i'w cwblhau.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Mae'r diffygion y gwnaethon ni dynnu sylw atyn nhw'r llynedd yno o hyd. Nid yw staff timau troseddau ieuenctid yn cael digon o hyfforddiant mewn materion addysgol i roi'r math o help y mae pobl ifanc ei angen. Er enghraifft, yn aml does ganddyn nhw ddim dealltwriaeth dda o'r hyn y gall ysgolion ei wneud pan mae eisiau gwahardd disgybl, a'r hyn na allan nhw ei wneud. Dydyn nhw ddim yn gofyn am wybodaeth gan ysgolion o hyd, nac ychwaith yn llenwi ffurflenni **ASSET** yn ddigon manwl er mwyn rhoi gwybodaeth am ddysgu blaenorol pobl ifanc. Dydyn nhw ddim yn defnyddio digon o gynlluniau dysgu unigol i arwain yr hyn y mae pobl ifanc yn ei ddysgu, a'r ffordd y maen nhw'n dysgu.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Yn yr holl dimau troseddau ieuencid a'r lleoliadau diogel, mae staff yn defnyddio seicolegwyr i asesu pobl ifanc. Nid yw pob un o'r bobl ifanc o Gymru sydd mewn tri tîm troseddau ieuencid a lleoliad diogel yn Lloegr yn cyfarfod â chynghorwyr Gyrfa Cymru. Hefyd, nid yw'r rheini sydd yn y ddalfa yn Lloegr yn cael elwa ar ddefnyddio CLIC Ar-lein dan oruchwyliaeth (gwasanaeth gwybodaeth a chyngor am ddim ar yrfaeod i bobl ifanc 11 i 25 oed yng Nghymru).

Mae staff timau troseddau ieuencid yn llwyddo i roi cymorth da iawn mewn sesiynau [addysg bersonol a chymdeithasol](#) i ysgolion lleol i helpu pobl ifanc i gadw'n glir o droseddu.

Mae athrawon yn y tri lleoliad diogel y gwnaethon ni eu harolygu'n asesu anghenion pobl ifanc yn y medrau sylfaenol yn llawn. Ond dydyn nhw ddim bob amser yn rhannu'r asesiadau yma gydag athrawon eraill nac yn eu defnyddio i osod targedau ar gyfer pobl ifanc. Mae dau lleoliad yn Lloegr wedi gwella mynediad pobl ifanc at yr iaith Gymraeg, ond nid yw'r lleoliad arall, sydd yng Nghymru, yn cynnig Gymraeg o gwbl.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mewn dau o'r timau troseddau ieuencid, nid yw'r awdurdod lleol a'r tîm troseddau ieuencid yn gweld addysg fel blaenoriaeth ddigon uchel i bobl ifanc sy'n troseddu. Nid yw un tîm troseddau ieuencid a'i awdurdod lleol eto wedi trefnu eu dulliau o weithio gyda'i gilydd, ac nid yw swyddogion yr awdurdod lleol yn mynd yn ddigon aml i gyfarfodydd y bwrdd rheoli. Er hynny, mae un tîm troseddau ieuencid yn gweithio'n agos iawn gyda'i awdurdod lleol ac, o ganlyniad, nid yw pobl ifanc sydd allan o'r ysgol yn gorfod aros yn rhy hir i fynd yn ôl yno.

Yn gyffredinol mae timau troseddau ieuencid yn gweithio'n agos gyda'u gwasanaeth ieuencid lleol i ddarparu gweithgareddau i bobl ifanc. Mae'r holl dimau troseddau ieuencid yn gweithio'n dda gyda lleoliadau diogel i rannu gwybodaeth.

Er bod y [Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid](#) wedi gosod targedau ar gyfer presenoldeb dysgwyr, dydyn nhw ddim yn cyhoeddi gwybodaeth am gyrhaeddiad y grŵp yma o bobl ifanc i roi gwybodaeth i'r rheini sy'n gysylltiedig am berfformiad y grŵp yma. Does dim digon o fonitro'n cael ei wneud o gynnydd y dysgwyr yma.

Colegau addysg bellach

Safonau

Eleni, fe wnaethon ni arolygu pum sefydliad sy'n darparu addysg bellach. Mewn pedwar, fe wnaethon ni arolygu rhwng chwarter a hanner eu [meysydd dysgu](#). Fe wnaethon ni hefyd arolygu un maes dysgu mewn sefydliad addysg uwch sy'n darparu addysg bellach. Yn ogystal â hyn, aethon ni ati i ail-arolygu dau o feysydd dysgu un coleg.

At ei gilydd, roedd y safonau'n dda neu'n dda iawn yn y sefydliadau addysg bellach y gwnaethon ni eu harolygu eleni. Ein barn ni oedd bod nodweddion da neu nodweddion rhagorol yng ngwaith y dysgwyr mewn 90% o'r sesiynau y gwnaethon ni eu harolygu. Mae hyn lawer yn uwch na tharged Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef y dylai 80% o gyrsiau fod yn radd 1 neu 2 erbyn 2007. Roedd ansawdd y gwaith wedi gwella yn y ddau faes dysgu y gwnaethon ni eu hail-arolygu eleni.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Roedd y gyfran o waith rhagorol yn arbennig o uchel eleni ar draws y 23 o feysydd dysgu y gwnaethon ni eu harolygu. Roedd safonau'n dda, gyda nodweddion rhagorol i 10 ohonyn nhw. Cynyddodd y gyfran o sesiynau â gwaith rhagorol yn gyffredinol o 29% y llynedd i 37% eleni. Mae hyn lawer yn uwch na tharged Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef 18%. Mewn dau goleg, roedd y gyfran o sesiynau â gwaith rhagorol yn arbennig o uchel, ac yn amrywio rhwng 40% i 64% yn gyffredinol.

Mae dysgwyr yn gyffredinol yn symud ymlaen yn dda iawn o addysg bellach i addysg uwch. Mewn un coleg y gwnaethon ni ei arolygu, aeth dros 90% o ddysgwyr Safon Uwch a bron i 80% o ddysgwyr galwedigaethol ar lefel 3 ymlaen at addysg uwch.

Mewn llawer o achosion, mae datblygiad medrau allweddol dysgwyr yn dda. Mae mwy a mwy o ddysgwyr yn ennill dyfarniadau medrau allweddol, yn enwedig ar lefel 3 ac yn y medrau allweddol ehangach. Er hynny, mae'r gyfran gyffredinol o ddysgwyr sy'n ennill dyfarniadau medrau allweddol yn amrywio gormod rhwng meysydd dysgu a cholegau.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Yn y pum sefydliad y gwnaethon ni eu harolygu eleni, mae'r addysgu a'r asesu'n rhagorol mewn 83% o wersi, ac mae hynny'n welliant ar y llynedd (76%). Roedd rhai diffygion yn ansawdd yr addysgu mewn rhyw un o bob chwech o wersi, ond roedd nodweddion da'n gorbwyso'r diffygion yma bob tro bron.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio cyrsiau a gwersi'n dda, ac yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgu. Mae llawer ohonyn nhw'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr, yn asesu eu cynnydd yn rheolaidd ac yn effeithiol, ac yn defnyddio TGCh i wella'r dysgu. Y diffygion mwyaf cyffredin yw nad yw athrawon yn denu sylw'r dysgwyr yn ddigon cyflym mewn gwersi, nac yn addasu gwersi a deunyddiau i gyfateb i anghenion a galluoedd yr holl ddysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'n darparu dewis priodol o gyrsiau, ond nid yw ychydig ohonyn nhw'n cynnig digon o gyrsiau ar lefel 1 a 2, na chyrsiau dwyieithog. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau allweddol wedi gwella mewn llawer o golegau, ac mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cysylltu medrau allweddol yn dda â'r cyrsiau y maen nhw'n eu haddysgu. Er hynny, mae ansawdd addysgu'r medrau allweddol yn amrywio gormod rhwng meysydd dysgu.

Mae colegau'n gyffredinol yn cynllunio'u darpariaeth yn dda i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae llawer wedi llwyddo i ddatblygu partneriaethau cryf gydag ysgolion lleol i ddarparu cyrsiau priodol ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed. Mae ychydig wedi datblygu amserlen gyffredin. Mae'r cysylltiadau â chyflogwyr yn dda yn y rhan fwyaf o achosion. Ond mae llai o gynnydd wrth ddatblygu'r ddarpariaeth o gyrsiau gyda phartneriaid eraill.

Mae nodweddion rhagorol i ansawdd y cymorth, y gofal a'r arweiniad mewn llawer o'r sefydliadau y gwnaethon ni eu harolygu. Mae ansawdd y rhaglenni sefydlu, y cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, y cyngor ar yrfaedd a'r arweiniad i unigolion a grwpiau trwy diwtorialau a rhaglenni eraill yn dda iawn yn aml.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Yn y sefydliadau y gwnaethon ni eu harolygu eleni, roedd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth o safon uchel yn gyffredinol. Mae arweinwyr a rheolwyr yn pennu cyfeiriad strategol clir ar gyfer eu sefydliadau, ac maen nhw'n cyfleu hynny'n dda i'r staff. Mae arweinwyr yn gyffredinol yn cynnwys staff mewn prosesau penderfynu ac, yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn wedi helpu i wneud sefydliadau'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Mae arweinwyr a rheolwyr wedi gweithio'n galed dros y blynyddoedd diweddar i ddatblygu partneriaethau strategol lleol gyda chyrff eraill sy'n darparu addysg a hyfforddiant, yn enwedig colegau addysg bellach cyfagos ac ysgolion lleol. Er hynny, mae'n dipyn o her i arweinwyr a rheolwyr wneud newidiadau sylweddol mewn ffordd debyg yn y ddarpariaeth ôl-16 trwy weithio gyda phartneriaid a darparwyr yn y sector addysg bellach a'r tu hwnt i'r sector.

Mae cylch gwaith eglur gan dimau a gweithgorau strategol fel arfer, ac maen nhw'n cyflawni eu gwaith yn effeithiol. Mae rheolwyr yn y rhan fwyaf o'r colegau'n defnyddio targedau'n synhwyrol i fonitro perfformiad ac i yrru gwelliant yn ei flaen. Serch hynny, mewn ychydig o achosion, nid yw'r newid yn digwydd yn ddigon cyflym, nid yw cyfarfodydd yn arwain at weithredu bob tro, ac nid yw targedau'n ddigon heriol.

Mae llywodraethwyr yn aml yn deall yn dda y materion sy'n effeithio ar eu sefydliad, ac maen nhw'n gefnogol iawn.

Yn y rhan fwyaf o achosion, maen nhw'n herio uwch aelodau staff yn briodol, ac yn helpu i bennu'r cyfeiriad strategol yn dda. Er hynny, mewn un coleg, nid yw'r corff llywodraethol yn herio uwch reolwyr yn ddigon effeithiol.

Mae systemau hunanarfarnu cryf gan y colegau, ac maen nhw wedi'u sefydlu'n dda yn eu cylchoedd cynllunio. Maen nhw'n ymgynghori'n dda gyda'u dysgwyr ac yn cael adborth rheolaidd ganddyn nhw, drwy holiaduron adborth fel arfer neu drwy wahodd rhai o'r dysgwyr i fod yn aelodau o bwyllgorau cyfadranau sy'n ystyried ansawdd cyrsiau. Mae'r systemau ar gyfer gwyllo darlithwyr wrth eu gwaith wedi'u sefydlu'n dda mewn llawer o golegau, ond mae'r arfarniadau o wersi'r rhain yn rhy hael yn aml. Mae'r rhan fwyaf o golegau'n dadansoddi'r gwerth y maen nhw'n ei ychwanegu at gynnydd dysgwyr yn fanwl, a hynny ar sail eu lefel gyflawni gychwynol. Mae ychydig yn methu gwneud hyn yn ddigon da.

Mae'r adeiladau a'r adnoddau dysgu yn y colegau'n dda. Mae ansawdd y canolfannau adnoddau dysgu, y cyfarpar TGCh a'r cyfarpar safon diwydiant yn gryfderau penodol. Yn gyffredinol mae digon o staff â chymwysterau addas yn y colegau. Mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf, mae digon o staff fel arfer sy'n gallu addysgu yn Gymraeg neu yn Gymraeg a Saesneg. Mae colegau'n cyflwyno'r fframwaith a gafodd ei gytuno'n genedlaethol ar gyfer rheoli ac adolygu perfformiad. Mae hyn yn helpu i sicrhau mwy o gysondeb wrth reoli ac adolygu perfformiad staff rhwng colegau. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o golegau'n darparu gwerth da am arian.

Dysgu yn y gwaith

Safonau

Mae safonau mewn dysgu yn y gwaith yn well o lawer eleni na'r llynedd. Cyflawnodd tua 35% o ddarparwyr radd 1 (da gyda nodweddion rhagorol), gyda 35% arall yn cyflawni gradd 2 (nodweddion da heb unrhyw ddiffygion pwysig). Mae hyn yn well o lawer na'r 9% o gafodd radd 1 a'r 36% a gafodd radd 2 y llynedd. Roedd nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion gan lai na chwarter y darparwyr y gwnaethon ni eu harolygu, o gymharu â hanner y darparwyr y llynedd. Roedd safonau anfodhaol cyffredinol (gradd 4) gan lai na chwarter y darparwyr y gwnaethon ni eu harolygu, o gymharu â bron i hanner y darparwyr y llynedd.

Fe welon ni welliant yn y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni mewn meysydd dysgu unigol. Mae bron i 70% yn dda neu'n dda iawn, ac o'r rhain, mae nodweddion rhagorol i 35%. Mae'r sefyllfa yma'n cymharu'n dda iawn â'r llynedd, ac mae'n dangos mai parhau i wella yw'r duedd. Mewn peirianeg, manwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid, a sylfaen i waith y mae'r safonau gorau.

Mae'r safonau gwell mewn dysgu yn y gwaith wedi dod yn sgil:

- ✓ datblygu medrau galwedigaethol da iawn i ddiwallu anghenion diwydiant;
- ✓ cwblhau **cymwysterau medrau allweddol** yn gynnar yn rhaglen hyfforddi'r dysgwyr;
- ✓ ennill cymwysterau eraill ar wahân i'r rheini y mae eu hangen ar gyfer eu **fframweithiau cymwysterau llawn**;
- ✓ gweld dysgwyr yn cael eu cymell yn dda, a'u bod nhw'n falch o'u gwaith, yn mynychu gwaith a hyfforddiant yn rheolaidd, ac yn cwblhau eu gwaith yn brydlon;
- ✓ y mwyafrif o ddarparwyr yn cydnabod yn well yr angen i wella canlyniadau dysgwyr; a
- ✓ gwell cymorth gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (**APADGOS**).

Fe welon ni bod diffygion mewn meysydd pwysig mewn 16% o'r gwaith o gymharu â 30% y llynedd. Roedd diffygion arbennig mewn iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal; a busnes, gweinyddu a'r gyfraith.

Fe wellodd safonau'n sylweddol mewn pedwar o'r pum maes dysgu y gwnaethon ni eu hail-arolygu. Fe godon nhw o radd 4 (rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig) i radd 2 (nodweddion da heb unrhyw ddiffygion pwysig).

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Mae'r hyfforddi a'r asesu'n well o lawer na'r llynedd. Mae bron i dri chwarter y sesiynau hyfforddi ac asesu'n dda gyda nodweddion rhagorol (gradd 1) neu mae ganddyn nhw nodweddion da heb unrhyw ddiffygion pwysig (gradd 2), o gymharu â 45% y llynedd. Eleni, roedd nodweddion da yn gorbwyso diffygion (gradd 3) neu well gan yr holl hyfforddiant y gwnaethon ni ei arolygu.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cyflwyno dysgwyr yn effeithiol i'w rhaglenni hyfforddi. Mae ychydig o ddarparwyr yn mynd ati'n gynnar i adnabod y ffordd orau y mae dysgwyr yn ennill gwybodaeth a medrau. Mae aseswyr hyfforddi'n defnyddio'r wybodaeth yma'n dda i helpu dysgwyr i wneud y gorau o'u hyfforddiant.

Mae'r holl ddarparwyr bron yn diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn dda iawn. Mae'r mwyafrif o ddarparwyr yn cynnig dewis eang o raglenni hyfforddi a chyfleoedd da i ddysgwyr wneud cynnydd yn y gweithle. Mae'r darparwyr yma'n rhoi cymorth da iawn i ddysgwyr. Mae llawer o staff hyfforddi'n cynorthwyo dysgwyr y tu allan i oriau gweithio arferol er mwyn addasu i'w patrymau gwaith sifft ac i ofalu eu bod nhw'n cwblhau eu rhaglenni dysgu unigol.

Mae cysylltiadau da â chyflogwyr lleol a chenedlaethol, [Cynghorau Sgiliau Sector](#) a chyrff dyfarnu gan yr holl ddarparwyr bron. O ganlyniad, maen nhw'n gallu cadw i fyny ag anghenion newidiol cyflogwyr. Mae darparwyr da yn arwain wrth ddatblygu cymwysterau.

Mae llawer o reolwyr a staff yn chwarae rhan weithredol mewn rhwydweithiau lleol a chenedlaethol, fel y Ffederasiwn Hyfforddi Cenedlaethol (Cymru) a [Dysg](#). Mae hyn yn eu helpu i ddysgu am yr arfer dda ddiweddaraf ac i rannu arfer dda gyda'i gilydd.

Mae amrywiaeth eang o bolisïau i gynorthwyo dysgwyr ac i hyrwyddo'u lles gan y rhan fwyaf o ddarparwyr. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau ar gyfle cyfartal a diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed (er enghraifft, oedolion sydd ag anabledau dysgu neu anabledau eraill). Er hynny, nid oes digon o staff wedi cael hyfforddiant addas mewn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda neu'n well mewn 64% o'r darparwyr dysgu yn y gwaith y gwnaethon ni eu harolygu. Mae hyn bron i 20 o bwyntiau canran yn well na'r llynedd. Mewn chwech o'r 17 o ddarparwyr y gwnaethon ni eu harolygu, mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn rhagorol (gradd 1). Fe wnaethon ni ail-arolygu'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn tri darparwr, ac roedd pob un ohonyn nhw wedi gwella'u gradd. Er hynny, ni lwyddodd un darparwr i gael y radd i gwrdd â'r safon a ddisgwylir.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Fe welon ni arweinyddiaeth a rheolaeth well am fod darparwyr:

- ✓ yn gweithredu cynlluniau a pholisïau da i gyflwyno hyfforddiant o safon uchel i ddysgwyr;
- ✓ yn ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- ✓ yn cyfleu nodau a gwerthoedd cwmni'n dda i ddysgwyr a staff;
- ✓ yn adolygu perfformiad a chyrhaeddiad dysgwyr yn rheolaidd;
- ✓ yn mynd i'r afael â thangyflawni ac yn gosod targedau heriol ar gyfer gwella;
- ✓ yn gweithredu system werthuso glir ac effeithiol ar gyfer pob aelod o staff;
- ✓ yn ymwybodol o'r angen i fuddsoddi mewn datblygu staff i gefnogi'r twf presennol a'r twf tebygol;
- ✓ yn defnyddio asesiadau o ba mor dda mae staff yn perfformio i ategu a datblygu arfer broffesiynol;
- ✓ yn gwneud defnydd da o'n rhaglen [asesu cymheiriaid](#) i ddatblygu medrau staff mewn arfarnu; ac
- ✓ yn dangos ymrwymiad cryf i wella ansawdd a safonau.

Mae tua chwarter y darparwyr yn dangos diffygion yn rhai o feysydd pwysig yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Yn y darparwyr yma, nid yw rheolwyr yn treulio digon o amser yn monitro ac yn gwella perfformiad staff a dysgwyr. Nid yw staff bob amser yn cael targedau clir i weithio tuag atyn nhw, a dydyn nhw ddim yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n ddigon da.

Mae ansawdd yr adnoddau a'r gwaith o reoli adnoddau'n dda neu'n dda iawn mewn llawer o ddarparwyr. Mae hyn yn welliant mawr ar y llynedd. Mae cymwysterau a phrofiad da gan y rhan fwyaf o'r staff yn eu meysydd dysgu. Mae cymwysterau ychwanegol gan lawer, fel cymwysterau addysgu, dyfarniadau mentora a hyfforddi. Mae'r mwyafrif o'r staff yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu, fel dysgu sut i adnabod dyslecsia yn eu disgyblion, a hyfforddiant ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth (mewn geiriau eraill, gwerthfawrogi gwahaniaethau disgyblion a gofalu eu bod i gyd yn cael yr un cyfleoedd). Mae adeiladau da gan y rhan fwyaf o ddarparwyr ar gyfer dysgwyr, ac maen nhw'n bodloni gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

O gyfanswm o 17 o ddarparwyr dysgu yn y gwaith y gwnaethon ni eu harolygu, mae 12 ohonyn nhw'n cynnig gwerth da neu werth da iawn am arian, mae tri'n darparu gwerth digonol am arian ac mae dau'n cynnig gwerth gwael am arian.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Workstep

Fe wnaethon ni arolygu un darparwr [Workstep](#) eleni.

I gael mwy o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/inspection_reports/cy_Gweithdy_Mona_July_2007.pdf

Mae'r graddau y dyfarnon ni ar gyfer yr arolygiad i'w gweld yn [atodiad 1](#).

Fe wnaethon ni ail-arolygu'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn pedwar darparwr arall hefyd. Mae'r sylwadau sy'n dilyn ynglŷn â materion arweinyddiaeth a rheolaeth wedi'u seilio ar yr un arolygiad llawn a'r pedwar ail-arolygiad.

Mae nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion (gradd 3) i'w gweld o ran yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn yr un darparwr Workstep y gwnaethon ni ei arolygu eleni. Un o'r diffygion pwysig yw nad yw rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau'n ddigon da.

Roedd pob un o'r pedwar darparwr y gwnaethon ni eu hail-arolygu wedi gwella'u gradd arweinyddiaeth a rheolaeth i gyrraedd y safon ofynnol (gradd 3). Roedd nodweddion da a dim diffygion pwysig (gradd 2) gan un o'r darparwyr yma.

Mae rheolwyr yr holl ddarparwyr y gwnaethon ni eu harolygu neu eu hail-arolygu eleni wedi creu cynlluniau busnes penodol ar gyfer y rhaglen Workstep. Mae ganddyn nhw nodau ac amcanion clir sy'n canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau. Er hynny, nid yw darparwyr yn rhoi digon o bwyslais ar leihau'r grant ariannol i gyflogeion mewn cyflogaeth â chymorth.

Mae'r holl ddarparwyr a gafodd eu hail-arolygu wedi ymateb yn dda i'r argymhellion o'u harolygiad diwethaf. Mae'r mwyafrif o reolwyr yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu eu cynnydd wrth ddilyn yr argymhellion yn ein harolygiad gwreiddiol. Maen nhw'n diweddarau cynlluniau gweithredu ac yn gwirio targedau.

Mae'r rhan fwyaf o'r uwch reolwyr mewn darpariaeth Workstep yr awdurdod lleol yn cael cymorth da gan aelodau etholedig. Mae blaenoriaethau strategol yr awdurdod yn cyfateb yn dda i nodau'r darparwr. Mae'r rhan fwyaf o reolwyr ac aelodau etholedig yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu perfformiad y rhaglen Workstep. Mae'r holl reolwyr yn rhoi gwybodaeth dda i aelodau etholedig am gynnydd y cyflogeion. O ganlyniad, mae hyn wedi codi proffil y ddarpariaeth Workstep yn yr awdurdodau lleol.

Mae digon o staff profiadol gan bob un o'r darparwyr Workstep i gyflwyno'r rhaglen. Mae cyfleoedd da i staff ddiweddarau eu cymwysterau proffesiynol. Yn gyffredinol, mae staff yn cael arfarniadau sy'n gosod targedau clir ar gyfer eu perfformiad. Mae'r rhan fwyaf o reolwyr yn monitro ac yn adolygu'r targedau yma'n dda.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae adeiladau o safon dda, gan gynnwys gweithdai, gan yr holl ddarparwyr y gwnaethon ni eu harolygu. Mae adeiladau'r holl gyflogwyr bron yn cyrraedd y safonau sy'n cael sylw yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Mae'r holl gyflogwyr yn darparu cymhorthion a chyfarpar diogelwch addas i helpu dysgwyr yn eu gwaith.

Gyrfa Cymru

Fe wnaethon ni arolygu un cwmni gyrfaedd eleni.

I gael mwy o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/4038291/403829/Careers_Wales_Gwent_final_W1.pdf?lang=cy

Mae'r graddau y dyfarnon ni ar gyfer yr arolygiad i'w gweld yn [atodiad 1](#).

Yn y cwmni gyrfa y gwnaethon ni ei arolygu eleni, mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion o ran y safonau y mae cleientiaid yn eu cyflawni. Mewn llawer o gyfweiliadau â staff, mae cleientiaid yn gwneud cynnydd da neu foddhaol o ran deall pa yrfaedd sy'n fwyaf addas iddyn nhw. Ond mae diffygion mewn meysydd pwysig yn ansawdd y gwasanaeth.

Yn yr ychydig o gyfweiliadau sy'n anfoddhaol nid yw cynghorwyr:

- ✗ yn adnabod beth mae'r cleient yn gobeithio'i gael o'r cyfweiliad;
- ✗ yn defnyddio'r wybodaeth am y farchnad swyddi'n ddigon da i helpu cleientiaid i ddeall eu gobeithion o wireddu eu cynlluniau gyrfa; nac
- ✗ yn hyrwyddo'r Gymraeg lle mae'n briodol gwneud hynny.

Mewn lleiafrif o sesiynau grŵp, nid yw staff:

- ✗ yn esbonio amcanion y sesiwn; nac
- ✗ yn darparu deunyddiau neu weithgareddau sy'n diwallu anghenion gwahanol aelodau'r grŵp.

Mae nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Mae gweledigaeth glir gan yr arweinwyr o ran symud y cwmni yn ei flaen. Maen nhw'n gweithio'n dda gyda'uartneriaid strategol mewn sefydliadau eraill, ond nid yw rheolwyr gweithredol yn gwneud y defnydd gorau o gytundebau partneriaeth ag ysgolion a cholegau. Mae arweinwyr a rheolwyr yn cyfathrebu'n effeithiol â'r staff, ond mae ychydig o reolwyr llinell yn ei chael hi'n anodd herio staff ynghylch gwendidau yn eu perfformiad.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Cyrsiau hyfforddi athrawon

Eleni fe wnaethon ni arolygu'r cyrsiau hyfforddi athrawon mewn un brifysgol.

I gael mwy o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/inspection_reports/cy_University_of_Wales_Aberystwyth_June_2007.pdf

Mae'r graddau y dyfarnon ni ar gyfer yr arolygiad i'w gweld yn [atodiad 1](#).

Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion yn cynllunio gwersi'n dda, ac mae ganddyn nhw wybodaeth dda am bynciau craidd. Ond nid yw eu gwybodaeth am addysg grefyddol, celf, dylunio a thechnoleg a cherddoriaeth yn ddigon da. Nid yw athrawon cynradd dan hyfforddiant yn gwneud digon o ddefnydd o amcanion dysgu eu gwersi i fesur dysgu'r disgyblion, ac maen nhw'n methu dangos yn ddigon clir i ddisgyblion sut mae gwella'u gwaith.

Mae llawer o athrawon ysgol yn cynorthwyo'r hyfforddeion yn dda. Ond maen nhw'n tueddu'n aml i ganolbwyntio gormod ar reoli'r dosbarth yn lle trafod y ffordd orau o wella dealltwriaeth y disgyblion o'u pynciau.

Mae dealltwriaeth dda gan arweinwyr a rheolwyr o'r materion allweddol mewn hyfforddiant athrawon, ac yn benodol maen nhw'n canolbwyntio ar gyflawni a chynnal rhagoriaeth yn y Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae partneriaethau rhwng y brifysgol ac ysgolion yn dda.

Mae pwyllgor o athrawon ysgol yn helpu i lunio barn ynglŷn â beth sy'n gweithio'n dda a pha feysydd y mae angen eu gwella. Er hynny, nid yw rheolwyr yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth i wella'r cyrsiau.

Dysgu oedolion yn y gymuned Safonau

Fe wnaethon ni arolygu pump o feysydd dysgu eleni:

- addysg sylfaenol oedolion;
- Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE);
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu oedolion; a
- datblygu cymunedol.


Mae llawer o oedolion yn cyflawni safonau da neu dda iawn yn eu gwaith. Roedd safonau da o leiaf mewn 78% o'r gwaith. Er hynny, mae hyn dri phwynt canran yn is nag yn yr ardaloedd daearyddol y gwnaethon ni eu harolygu'r llynedd.

Mae cyfran y dysgwyr Cymraeg i oedolion sy'n cyflawni safonau da neu dda iawn bedwar pwynt canran yn uwch na'r llynedd.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Ond roedd maint y gwaith lle'r oedd diffygion (gradd 3 neu is) 13 pwynt canran yn uwch eleni ar gyfer dysgwyr mewn dosbarthiadau addysg sylfaenol oedolion, saith pwynt canran yn uwch ar gyfer dysgwyr mewn dosbarthiadau datblygu cymunedol a dau bwynt canran yn uwch ar gyfer dysgwyr mewn dosbarthiadau dysgu oedolion.

Siart 23: Cyflawniadau dysgwyr: canran y ddarpariaeth lle cafodd graddau 1 i 5 eu dyfarnu yn 2006-2007 i safonau cyflawniad a chyrraieddiad dysgwyr yn y maes dysgu a gafodd ei arolygu



Mae dysgwyr mewn 55% o'r dosbarthiadau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) yn cyflawni safonau da yn eu gwaith. Ond mae lleiafrif o ddysgwyr SSIE yn methu gwneud digon o ddefnydd o'r Saesneg yn eu dosbarthiadau. Mae presenoldeb dysgwyr SSIE yn wael, ac o ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn methu gorffen eu cwrs.

Mae llawer o ddysgwyr sy'n oedolion yn llawn cymhelliant, maen nhw'n frwdfrydig ac yn helpu ei gilydd i ddysgu. Maen nhw hefyd yn dda am weithio'n annibynnol ac yn defnyddio'u medrau newydd yn eu bywydau bob dydd.

Er hynny, fel y llynedd, nid yw ychydig o ddysgwyr yn y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu yn ymwybodol o'u nodau dysgu na'r cynnydd y maen nhw'n ei wneud. Mae ychydig iawn o ddysgwyr yn gwneud gwaith sy'n ailadroddus neu waith nad yw'n ddigon heriol, ac o ganlyniad araf yw'r cynnydd maen nhw'n ei wneud.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Mae diffygion yn safonau'r addysgu a'r asesu mewn 34% o'r dosbarthiadau a gafodd eu harolygu eleni. Mae hyn 10 pwynt canran yn waeth nag yn y meysydd y gwnaethon ni eu harolygu'r llynedd.

Roedd ansawdd yr addysgu a'r asesu 25 pwynt canran yn is na'r llynedd mewn dosbarthiadau addysg sylfaenol oedolion a gafodd eu harsylwi, a naw pwynt canran yn is mewn dosbarthiadau dysgu oedolion a dosbarthiadau datblygu cymunedol. Roedd diffygion yn safonau'r addysgu a'r asesu mewn 58% o'r dosbarthiadau SSIE.

Mae safonau addysgu ac asesu eleni'n salach am fod lleiafrif o diwtoriaid yn gwneud defnydd gwael o gynlluniau dysgu unigol. Dydyn nhw ddim yn helpu dysgwyr i osod nodau i wella'u gwaith eu hunain, yn enwedig mewn dosbarthiadau SSIE. A dydyn nhw ddim yn asesu gwaith dysgwyr yn ddigon aml i'w helpu i fesur eu cynnydd. Nid yw tiwtoriaid iaith yn cynnig digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a defnyddio medrau iaith llafar.

Adran un: Addysg a hyfforddiant yng Nghymru – pa mor addas i'r diben?

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr eleni'n gweithio'n well gyda'i gilydd i gynllunio a chyhoeddi'r amrywiaeth o gyrsgiau a dosbarthiadau y maen nhw'n eu cynnig i ddysgwyr. Mae darparwyr wedi cynyddu'r nifer o ddynion sy'n mynychu dosbarthiadau o 2% eleni. Ond yn gyffredinol does dim digon o ddsbarthiadau SSIE.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn rhoi cymorth da i ddysgwyr. Maen nhw wedi cynyddu nifer y staff sydd wedi'u hyfforddi i roi arweiniad a chyingor. Er hynny, nid yw darparwyr yn gwneud digon gyda'i gilydd i gynllunio ar gyfer anghenion cymorth oedolion yn eu maes, nac i asesu effaith y mesurau y maen nhw'n eu rhoi ar waith.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr a rheolwyr o ddarparwyr gwahanol yn gwella'r ffordd y maen nhw'n gweithio ac yn cynllunio gyda'i gilydd. Yn yr holl feysydd y gwnaethon ni eu harolygu, maen nhw wedi ffurfio is-grwpiau, ac yn adrodd i'r [Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant](#) (CCAH) yn lleol, sy'n canolbwyntio ar ddysgu oedolion yn y gymuned. Mae arweinyddiaeth well yn helpu'r is-grwpiau yma i gynnwys blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn eu cynlluniau. Er hynny, nid yw'r CCAH mewn dau faes wedi rhoi digon o gyfeiriad i'r is-grŵp. O ganlyniad, nid yw'r is-grwpiau yn y ddau faes yma wedi cytuno cynlluniau'n ffurfiol i adnabod eu blaenoriaethau a'u helpu i fesur eu cynnydd. Mae'r coleg cymunedol y gwnaethon ni ei arolygu eleni'n gweithio'n dda iawn gydag amrywiaeth o sefydliadau i gyflwyno dysgu sy'n bodloni blaenoriaethau cenedlaethol, fel hyfforddiant gweithwyr ieuencid neu addysg troseddwy.

Mae bron yr holl ddarparwyr a gafodd eu harolygu eleni wedi gwella'u systemau i fesur pa mor dda y mae eu staff yn perfformio. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn gwneud defnydd da o ffeithiau a ffigurau ynglŷn â nifer y dysgwyr sy'n cwblhau'r cyrsiau a'u lefelau cyrhaeddiad, er mwyn asesu eu canlyniadau. Er hynny, mae darparwyr yn dal i fethu rhannu'r ystadegau yma'n ddigon da â'i gilydd er mwyn defnyddio cymhariaeth o'u canlyniadau i herio'u hunain ac i godi safonau ar draws y maes.

Mae llawer o'r darparwyr a gafodd eu harolygu eleni wedi gwella'r systemau y maen nhw'n eu defnyddio i asesu ansawdd a safon eu gwaith. Yn achos tair o'r ardaloedd daearyddol, maen nhw'n gweithio'n dda gyda'i gilydd i gynnal asesiadau ar y cyd o'u darpariaeth. Mae hyn yn eu helpu i gymharu ansawdd eu darpariaeth eu hunain ac i ganfod mwy am safon y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr yn eu hardal. Ond nid yw'r holl ddarparwyr yn creu cynlluniau sy'n eu helpu i wella'r gwendidau a gafodd eu crybwyll yn eu hasesiadau ar y cyd. Mae diffyg targedau y mae modd eu mesur yn llawer o'r cynlluniau, a does dim digon o fanylion i wneud gwelliannau neu i wirio cynnydd.

Mae llawer o ddarparwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i hyfforddi eu staff. Mae trefniadau da gan y rhan fwyaf o ddarparwyr i hyfforddi staff sydd heb gymwysterau addysgu. Mae'r holl ddarparwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i ddarparu lleoliadau o safon yn agos i gartrefi'r dysgwyr. Mae cyfarpar TGCh o safon dda mewn llawer o leoliadau i'r dysgwyr eu defnyddio.



Adran dau

Adran dau: Gweithio mewn partneriaeth

Crynodeb

Er 1999, mae darparwyr addysg wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd yn eu hardaloedd lleol i gynllunio ac i gydlynu agweddau ar addysg drwy Gonsortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant (CCAH), Partneriaethau Pobl Ifanc, a Rhwydweithiau Ardal Dysgu 14-19. Mae'r trefniadau yma'n newid nawr oherwydd gofynion cyfreithiol newydd.

Mae darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned wedi gwella'r ffordd y maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd. Yn ardaloedd y pedwar awdurdod lleol a gafodd eu harolygu gennym eleni, mae darparwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gynllunio dysgu oedolion yn y gymuned. Mewn tair o'r ardaloedd, mae'r cydweithio yma wedi gwella'r broses o gynllunio a chydlynu cyrsiau. Hefyd, mae wedi helpu darparwyr i asesu ar y cyd ansawdd eu cyrsiau. Nid yw darparwyr yn yr ardal arall yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth reoli sydd ar gael i adnabod cryfderau a gwendidau'r cyrsiau y maen nhw'n eu darparu, ac i gytuno sut mae gwella.

Y llynedd fe adroddon ni nad oedd hanner o'r partneriaethau a gafodd eu harolygu'n dda iawn o ran gwella gwasanaethau cymorth ieuenctid. Eleni, mae diffygion sylweddol o hyd yng nghynllunio strategol a threfniadau sicrhau ansawdd gwasanaethau cymorth ieuenctid. Yn rhyw hanner o ardaloedd yr awdurdodau lleol, mae strwythurau partneriaeth yn dod yn fwy effeithiol wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer y [Cynllun Plant a Phobl Ifanc](#) sengl. Mae partneriaethau wedi dechrau gwella'r cyfathrebu rhwng darparwyr gwasanaeth, fel yr awdurdod lleol, yr heddlu a'r bwrdd iechyd. Mae partneriaethau hefyd wedi gwella'r cysylltiadau rhwng strategaethau lleol allweddol, er enghraifft, cysylltu'r blaenoriaethau yn y cynllun adfywio â'r strategaeth trosedd ac anhrefn.

Mae CCAHau wedi adolygu eu cyfrifoldebau a'u gweithgareddau ers i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi ei bod am leihau nifer y partneriaethau sy'n gweithredu ar lefel lleol. Nid yw effaith yr adolygiad yma'n glir ar hyn o bryd.

Cynlluniau datblygu rhwydweithiau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed

Bob blwyddyn mae pob un o'r Rhwydweithiau Ardal Dysgu 14-19 yn anfon eu cynlluniau datblygu rhwydwaith at Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w cymeradwyo ac i gael eu hariannu. Eleni, mae llawer o'r cynlluniau yma wedi gwella o ganlyniad i gydweithredu gwell rhwng ysgolion, colegau a chwmnïau dysgu yn y gwaith.

Adran dau: Gweithio mewn partneriaeth

Mae'r cynlluniau datblygu'n cynnig nifer o opsiynau sy'n tynnu sylw at ddarpariaeth ysgolion a cholegau, ond mae'r ddarpariaeth yn y gwaith yn cael llai o sylw.

Prif wendid y cynlluniau yw'r dadansoddi prin o'r gwahanol opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr. Yn gyffredinol mae cynlluniau'n methu tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth neu achosion lle mae'r un cyrsiau'n cael eu cynnig. Mae llawer o gynlluniau'n methu rhoi manylion am gynnwys cyrsiau neu'n cyfeirio at elfennau'r [Llwybr Dysgu 14-19](#), fel y [craidd dysgu](#) neu ddysgu anffurfiol.

Mae llawer o'r cyrsiau galwedigaethol newydd yn y cynlluniau ar lefel mynediad neu lefel 1. Does dim digon o gyfleoedd i ddysgwyr fynd yn uwch na'r lefelau yma, a dydy'r cyrsiau eu hunain ddim yn debygol o wella gobeithion dysgwyr o gael swyddi. Hefyd, does dim digon o gyrsiau Cymraeg neu ddwyieithog ac mae'r niferoedd sy'n defnyddio'r cyllid sydd ar gael i ddatblygu'r cyrsiau yma'n isel, hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae llawer o siaradwyr Cymraeg.

Arolygiad ardal

Mae arolygiadau ardal yn canolbwyntio ar agwedd benodol ar addysg a hyfforddiant i bobl ifanc 14 oed neu hŷn mewn ardal yng Nghymru. Ymhlith pethau eraill, mae'r arolygiadau'n edrych ar safonau'r ddarpariaeth mewn ysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith. Yn y rhan fwyaf o achosion, ardal awdurdod lleol yw'r ardal.

Aethon ni ati eleni i gynnal arolwg o ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yn ardal un o'r awdurdodau lleol bach. Yn y blynyddoedd diweddar mae darparwyr wedi gwneud llawer o gynnydd o ran gweithio gyda'i gilydd i gynyddu nifer y cyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr. Maen nhw wedi sefydlu darpariaeth newydd ar gyfer grwpiau o ddisgyblion llai galluog yng Nghyfnod Allweddol 4, ac i rai dysgwyr 16 i 19 oed. Mae darparwyr wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd i nodi'r holl gyrsiau sydd ar gael ac i'w rhestru mewn un ddogfen y gall pobl ifanc 14-19 oed gael gafael arni. Er hynny, fel y rhan fwyaf o ardaloedd eraill yng Nghymru, mae cryn ffordd i fynd eto cyn y bydd nifer y cyrsiau sydd ar gael mor uchel ag y dylai fod. Dim ond y cyrsiau sydd ar gael yn eu hysgol eu hunain y gall y rhan fwyaf o ddysgwyr eu dilyn. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael yr un cyfle i ddilyn cyrsiau sy'n cyd-fynd â'u hanghenion a'u diddordebau. Hefyd, mae nifer fawr o ddisbarthiadau bach mewn dosbarthiadau chwech ysgolion. Nid yw ysgolion yn gweithio digon gyda'i gilydd i drefnu cyrsiau chweched dosbarth mor economaidd ag y gallen nhw. Mae patrwm presennol y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yn yr ardal yn dal i fethu cynnig dewis llawn o gyrsiau.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn
www.estyn.gov.uk/inspection_reports/cy_Area_inspection_of_provision_for_14_19_year_olds_in_Merthyr_Tydfil_May_2007.pdf



Adran tri

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Mae'r adran yma o'r adroddiad yn disgrifio rhai o'r agweddau pwysig ar yr addysg a'r hyfforddiant yng Nghymru y buon ni'n eu harolygu eleni. Fe ofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (y Cynulliad) i ni fynd ati i edrych ar lawer o'r materion yma'n fanwl fel rhan o'n gwaith, er mwyn i ni allu cynnig cyngor annibynnol i'r Cynulliad ar sail y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno yn ein hadroddiad.

Mae'r cyngor yma'n helpu'r Cynulliad i wybod beth maen nhw wedi'i gyflawni hyd yma, a'r pethau ychwanegol y mae angen iddyn nhw eu gwneud o ran eu strategaeth ar gyfer newid, 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'. Fe arweiniodd y rhan fwyaf o'r gwaith yma at gyhoeddi adroddiadau y gallwch chi eu gweld ar ein gwefan yn www.estyn.gov.uk.

Yn yr adran yma rydyn ni wedi rhoi cyfeiriadau llawn ar gyfer gwefannau'r adroddiadau sydd wedi'u cyhoeddi. Rydyn ni'n defnyddio adroddiadau'r arolygiadau o ddarparwyr unigol yn sail i'r dystiolaeth ar gyfer rhannau eraill o'r adran yma. Mae'r rhain ar ein gwefan hefyd.

Cyfiawnder cymdeithasol

Cydraddoldeb anabledd mewn ysgolion

Dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ofalu bod gan ysgolion yr adnoddau y maen nhw eu hangen i wella adeiladau ysgol fel bod disgyblion anabl yn gallu mynd i mewn iddyn nhw, dod allan a symud o gwmpas (er enghraifft, llydanu drysau a choridorau, gosod rampiau ac ati). Fe wnaethon ni arolwg o chwe awdurdod lleol i edrych ar eu darpariaeth ar gyfer dysgwyr anabl.

Yn ein sampl o chwe awdurdod lleol, fe welon ni nad yw **aelodau etholedig** a swyddogion awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn ddigon da yn aml i gynllunio sut byddan nhw'n rhannu adnoddau.

Mae'r awdurdodau lleol mwyaf effeithiol yn gweithio'n dda gyda rhieni ac asiantaethau eraill, gan gynnwys byrddau iechyd lleol, i ofalu bod disgyblion anabl yn cael cymorth priodol pan fyddan nhw'n dechrau'r ysgol. Mae gan ychydig o awdurdodau lleol drefniadau da gyda gwasanaethau iechyd cymunedol i ddarparu cymorth ychwanegol mewn ysgolion i ddisgyblion ag anghenion iechyd cymhleth. Ond mae gormod o ysgolion sydd heb fod yn defnyddio digon o wahanol ddulliau addysgu, yn cynnwys defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i helpu i ddiwallu anghenion disgyblion. Yn aml does dim digon o wybodaeth arbenigol gan staff cymorth i helpu'r holl ddisgyblion anabl.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Dim ond nifer bach o'r awdurdodau lleol sydd wedi datblygu partneriaethau effeithiol rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig er mwyn iddyn nhw allu cynorthwyo'i gilydd i ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu i ateb anghenion disgyblion anabl.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Disability_Discrimination_Act_Remit_Report_2007.pdf

Anghenion dysgu ychwanegol

Does dim system gyffredin ar waith i helpu darparwyr dysgu ac awdurdodau lleol i farnu pa mor dda y mae dysgwyr ag **anghenion dysgu ychwanegol** yn gwneud o ran eu gallu, eu hoed a'u sefyllfa ddysgu. Mae hyn yn golygu nad yw'n hi'n bosib cymharu cyflawniadau dysgwyr yn iawn ag anghenion tebyg ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae ein hadroddiad yn nodi cynigion ar gyfer system i gasglu gwybodaeth am asesu ar draws darparwyr dysgu. Mae'r adroddiad yma'n cynnwys enghreifftiau o arfer dda mewn chwe awdurdod mewn perthynas â dysgwyr y mae eu hanghenion dysgu ychwanegol yn codi o'u hanghenion addysgol arbennig (AAA) a'u hanableddau.

Mae llawer o ysgolion arbennig yn defnyddio gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn dda i helpu wrth gynllunio o ddydd i ddydd, ac wrth fonitro cynnydd disgyblion sydd ag AAA. Nid yw ysgolion prif ffrwd ac awdurdodau lleol yn monitro ac yn arfarnu'r cynnydd yma'n ddigon da.

Nid yw awdurdodau lleol yn gwybod digon am gynnydd a chyflawniadau'r disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol pan fyddan nhw'n cael eu **haddysg yn rhywle heblaw'r ysgol**, mewn ysgolion sy'n cael eu cynnal gan awdurdodau eraill, neu mewn ysgolion annibynnol.

Nid yw darparwyr addysg ac awdurdodau lleol yn dda o ran rhannu gwybodaeth bwysig am waith a chynnydd dysgwyr pan fyddan nhw'n symud o un darparwr i ddarparwr arall, er enghraifft, o ysgol i goleg neu **ddysgu yn y gwaith**. O ganlyniad, nid yw pobl ifanc ac oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol bob amser yn datblygu'n ddigon da y medrau pwysig y maen nhw eu hangen ar gyfer bywyd fel oedolyn.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Evaluating_outcomes_for_children_and_young_people_with_additional_learning_needs_2007.pdf

Disgyblion sy'n cael eu haddysg y tu allan i'r ysgol

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ganfod y disgyblion yn eu hardaloedd nad ydyn nhw'n cael addysg briodol naill ai oherwydd nad ydyn nhw yn yr ysgol neu oherwydd eu bod nhw'n cael eu haddysgu yn rhywle heblaw'r ysgol. Mae'r ddyletswydd yma'n gymwys i ddisgyblion o **oed ysgol gorfodol**.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Fe wnaethon ni gynnal arolwg o awdurdodau lleol i weld sut maen nhw'n monitro ble mae disgyblion yn cael eu haddysg os nad ydyn nhw'n mynd i'r ysgol, a sut maen nhw'n monitro'r plant hynny sydd heb fod mewn addysg o gwbl. Mae'r adroddiad yn nodi tri phrif grŵp o ddisgyblion o oed ysgol gorfodol sy'n cael eu haddysg y tu allan i'r ysgol neu sy'n colli allan ar eu haddysg yn gyfan gwbl.

Y grwpiau yma yw:

- disgyblion mewn darpariaeth awdurdod lleol;
- disgyblion mewn darpariaeth heblaw awdurdod lleol; a
- disgyblion sydd 'ar goll o addysg'.

Mae gan bob awdurdod lleol drefniadau i olrhain disgyblion sydd 'ar goll o addysg'. Mae trefniadau effeithiol gan lawer o awdurdodau lleol sy'n golygu bod swyddogion lles yn mynd ati i chwilio am y disgyblion yma ac edrych ar gofrestrau ysgolion i wneud yn siŵr bod yr holl ddisgyblion yno. Lle mae asiantaethau'n rhannu gwybodaeth yn dda, mae'n llai tebygol y gall y disgyblion yma fynd 'ar goll o addysg'. Mae'r rheini sydd heb fod yn mynd i ysgol yn cael eu hadnabod yn gynnar. Mae'n gwaith ni'n dangos nad yw'r asiantaethau gwahanol sy'n dod ar draws y disgyblion yma, fel y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaethau iechyd a'r heddlu, yn rhannu gwybodaeth digon gyda staff awdurdodau lleol.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Monitoring_the_Location_of_Pupils_May_2007.pdf

Gwahardd disgyblion

Mae llawer o ysgolion yn gwneud defnydd da o ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu i wella ymddygiad disgyblion ac i leihau gwaharddiadau. Dim ond pan fyddan nhw wedi rhoi cynnig ar bob opsiwn arall y bydd yr ysgolion yma'n gwahardd disgyblion. O ganlyniad, mae nifer y gwaharddiadau parhaol yn isel mewn llawer o ysgolion. Er hynny, rhwng 1999-2000 a 2004-2005, mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol (fel mis) wedi cynyddu bron i 150%.

Mae'r ysgolion sy'n fwyaf llwyddiannus o ran lleihau gwaharddiadau:

- ✓ â pholisi clir ar gyfer ymddygiad derbyniol disgyblion y mae pob aelod o staff yn ei gefnogi ac yn cadw ato;
- ✓ yn hyfforddi staff yn dda i reoli ymddygiad disgyblion;
- ✓ yn cynnig dewis ehangach o gwricwlwm i ddisgyblion i ateb eu hanghenion; ac
- ✓ yn defnyddio gwybodaeth fel canlyniadau asesu i olrhain cynnydd disgyblion ac i adnabod unrhyw broblemau.

Mae rhai ysgolion yn defnyddio dewisiadau eraill effeithiol i wahardd, er enghraifft 'gwahanu'n fewnol'. Mae hyn yn golygu cadw disgyblion y tu fewn i'r ysgol, ond i ffwrdd oddi wrth ddisgyblion eraill, er mwyn iddyn nhw allu canolbwyntio ar dasgau dysgu addas i gadw'u diddordeb a diwallu eu hanghenion. Hefyd, mae ychydig o ysgolion wedi sefydlu ystafelloedd 'amser allan' lle gall disgyblion sy'n tarfu 'dawelu' i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Evaluation_of_the_implementation_by_schools_and_local_education_authorities_of_guidance_on_exclusion_June_2007.pdf

Cwmnïau gyrfa a stereoteipio

Fe adroddon ni eleni ar arfer dda wrth herio stereoteipio i ferched a bechgyn mewn pum cwmni Gyrfya Cymru. Er enghraifft, mae nifer y bechgyn sy'n gadael yr ysgol ac yn mynd i ddysgu yn y gwaith neu gyflogaeth yn parhau'n uwch na nifer y merched, tra bod mwy o ferched na bechgyn yn parhau mewn addysg amser llawn.

Mae pedwar cwmni'n dda o ran helpu cleientiaid i herio'u syniadau a'u credoau ynglŷn â'r gyrfaoedd sydd ar gael iddyn nhw, p'un a ydyn nhw'n fechgyn neu'n ferched. Hefyd, mae enghreifftiau o arfer dda yn y pumed. At ei gilydd, mae cleientiaid yn dod yn fwy ymwybodol o'r hyn y mae'r math yma o stereoteipio'n ei olygu, a'r ffordd y gallai effeithio ar eu dewis o yrfa.

Mae'r holl gwmnïau'n gwneud defnydd da o adnoddau i hyfforddi staff ac i greu cyhoeddiadau sy'n herio stereoteipio. Mae pedwar cwmni Gyrfya Cymru'n gweithio gyda'u partneriaid i chwilio am ffyrdd penodol o helpu pobl i ddod i ddeall stereoteipio.

Nid yw cwmnïau Gyrfya Cymru'n gweithio gyda'i gilydd digon i rannu arfer dda ac i wneud y gorau o'r arferion da sy'n bod yn barod. Does ganddyn nhw ddim strategaeth glir o ran herio stereoteipio ar draws Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/inspection_reports/cy_Good_practice_in_how_Careers_Wales_companies_challenge_gender_stereotyping_April_2007.pdf

Materion i ddysgwyr

Y Cyfnod Sylfaen

Mae nifer bach o ysgolion a lleoliadau'n cymryd rhan mewn astudiaeth beilot o'r **Cyfnod Sylfaen** ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r holl staff bron sy'n gweithio gyda disgyblion yn yr ysgolion a'r lleoliadau peilot yn frwdfrydig ynghylch y fenter ac yn dangos lefelau uchel o ymrwymiad i'w llwyddiant. At ei gilydd, mae'r staff yma wedi dysgu ffyrdd newydd ac effeithiol o weithio.

Mae'r holl staff yn yr ysgolion a'r lleoliadau peilot yn teimlo bod plant yn fwy hyderus, yn hapusach ac yn canolbwyntio am gyfnodau hirach o ganlyniad i'r Cyfnod Sylfaen. Serch hynny, dydyn nhw ddim yn gwneud digon i fesur effaith y newidiadau cadarnhaol yma ar safonau cyflawniad plant.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Yn y mwyafrif o ysgolion peilot, mae staff ychwanegol yn cynorthwyo dysgu plant yn dda. Mae dealltwriaeth dda gan y staff yma o sut a beth y mae'r plant yn ei ddysgu. Mewn ychydig o ysgolion, dydi'r staff ychwanegol ddim yn cael digon o arweiniad bob tro o ran ymestyn a herio meddwl plant. Dydi ychydig ohonyn nhw ddim yn darparu modelau da i blant yn eu defnydd o iaith lafar.

Mae ansawdd cynllunio ac asesu'r Cyfnod Sylfaen yn amrywio'n fawr rhwng ysgolion a rhwng lleoliadau. Mae lleiafrif sylweddol o staff mewn ysgolion a lleoliadau eraill yn ansicr faint ddylen nhw gynllunio a chyfeirio dysgu plant. Maen nhw'n treulio gormod o amser yn arsylwi ac yn cofnodi beth mae plant yn ei wneud yn hytrach na beth maen nhw'n ei ddysgu.

Yn yr ysgolion a'r lleoliadau gorau, mae staff:

- ✓ yn cynllunio ac yn rhannu syniadau fel tîm;
- ✓ yn cynllunio'n ofalus ar draws yr holl feysydd dysgu i wneud yn siŵr bod cydbwysedd da o ran gweithgareddau dan do a rhai awyr agored;
- ✓ yn gwybod pa sgiliau y maen nhw eisiau i'r plant eu dysgu ac yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu'r medrau hynny;
- ✓ yn cynllunio amser i ymateb i ddiddordebau plant;
- ✓ yn cynnig cyfleoedd da i blant chwarae ar eu pennau'u hunain a gydag eraill;
- ✓ yn cynllunio amser i wyllo plant yn chwarae; ac
- ✓ yn defnyddio gwybodaeth asesu i fonitro cynnydd plant yn rheolaidd ac i gynllunio camau dysgu'r plant yn y dyfodol.

Gallwch weld manylion strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn 'Adeiladu'r Cyfnod Sylfaen, Cynllun Gweithredu' ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/early-wales/foundation_phase/foundation_phase_documents/?lang=cy

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn
www.estyn.gov.uk/publications/cy_The_Foundation_Phase_Pilots_August_2007.pdf

Gwella dysgu ac addysgu medrau darllen cynnar

Medrau darllen cynnar effeithiol yw'r blociau adeiladu hanfodol ar gyfer dysgu iaith a llythrennedd. Mae bod yn ddarllenydd galluog a mwynhau darllen yn bwysig i lwyddiant addysgol disgyblion yn y tymor hir ac i'w cyflawniad personol.

Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn cyflawni safonau da yn eu medrau darllen cynnar. Mae'r athrawon mwyaf effeithiol yn canolbwyntio ar helpu disgyblion i gyfuno medrau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu er mwyn atgyfnerthu'r berthynas rhwng yr agweddau yma ar yr iaith. Mae athrawon yn gofalu bod disgyblion yn gyfarwydd â gwahanol strategaethau i'w helpu i ddarllen geiriau anghyfarwydd, ac i adnabod geiriau cyffredin, ynganu llythrennau (sef ffonog) a deall sut mae iaith a storïau'n gweithio.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Mae disgyblion yn mwynhau chwarae iaith, rhannu storïau, caneuon a rhigymau, trin llyfrau a dysgu i wneud synnwyr o'r hyn maen nhw'n ei ddarllen.

Mae barn addysgwyr ynglŷn â gwerth defnyddio ffoneg wrth addysgu darllen yn amrywio. Maen nhw'n anghytuno hefyd ynghylch rhinweddau gwahanol fathau o ddulliau addysgu ffonig. Mae ffoneg yn fedr darllen pwysig, ond nid dyma'r unig fedr y mae disgyblion ei angen i ddarllen yn llwyddiannus. Does dim prawf cadarn bod un math o gyfarwyddyd addysgu yn fwy effeithiol na math arall wrth addysgu disgyblion i ddarllen.

Mae addysgu ffoneg yn fwyaf llwyddiannus pan fydd ysgolion:

- ✓ â rhaglenni strwythur i addysgu darllen;
- ✓ yn dilyn eu rhaglenni'n gyson; ac
- ✓ yn dewis dulliau cyffrous o ddysgu sy'n cymell disgyblion.

Mae lleiafrif o ysgolion yn addysgu ffoneg mewn ffordd gyfyngedig. Yn yr achosion yma, mae cyflymder addysgu seiniau ffonig newydd yn rhy araf. Mae llawer o ysgolion yn peidio â chynnwys ffoneg digon wrth iddyn nhw addysgu Cymraeg fel ail iaith.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Improving_the_Learning_and_Teaching_of_Early_Reading_Skills_June_2007.pdf

'Addysg gwerthoedd'

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a chymdeithasol eu disgyblion. Mae mwy a mwy o ysgolion yn defnyddio dyfarniadau i ganmol disgyblion am eu cyflawniad ar gyrsiau sy'n hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol, fel addysg bersonol a chymdeithasol.

Does dim dealltwriaeth glir gan lawer o ysgolion o 'gyfrifoldeb cymdeithasol' neu 'addysg gwerthoedd', na sut i'w chymhwysu i fywyd bob-dydd ysgol. Dim ond ychydig o athrawon sydd wedi cael hyfforddiant i'w helpu i ddeall sut gall y pynciau y maen nhw'n eu haddysgu ddatblygu a hyrwyddo'r broses o ymddwyn yn gyfrifol mewn cymdeithas.

Mae cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch tuag at eraill wedi'u sefydlu'n dda mewn rhyw chwarter o ysgolion. Yn yr ysgolion yma, mae safonau, presenoldeb ac ymddygiad dysgwyr yn newid er gwell yn aml, ac mae gan ddysgwyr gwell ddealltwriaeth o'u rôl mewn democratiaeth. Yn y chwarter hwn o ysgolion, mae gan arweinwyr effeithiol synnwyr clir o'r gwerthoedd y maen nhw am eu hannog yn yr ysgol. Maen nhw'n ymgynghori â disgyblion, ac yn cynnwys yr ysgol a'r gymuned ehangach wrth ystyried y gwerthoedd yma. Maen nhw'n cydnabod mai pan fydd y dysgu yn eu hystafell ddosbarth yn adlewyrchu'r gwerthoedd sy'n bresennol ym mhob agwedd arall ar fywyd ysgol y mae cyfrifoldeb cymdeithasol disgyblion yn datblygu orau.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Values_education_an_evaluation_of_provision_of_education_for_the_promotion_of_social_responsibility_and_respect_for_others_2007.pdf

Cynnwys dysgwyr (3 i 11 oed)

Rhaid i bob ysgol gael **cyngor ysgol** erbyn hyn. Mae hyn wedi gwneud arweinwyr ysgol yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd cynnwys pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau am eu bywydau a'r gwaith maen nhw'n ei wneud. Mae cynghorau ysgol yn effeithiol iawn o ran cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau am y modd y mae eu hysgol yn cael ei rhedeg. Maen nhw'n helpu disgyblion i deimlo'n gyfrifol am eu gweithredoedd a'u dewisiadau, ac maen nhw'n gwneud i ddisgyblion deimlo bod pobl yn gwerthfawrogi eu barn.

Mae tri chwarter o'r ysgolion cynradd yn dda o ran paratoi dysgwyr i gymryd rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol a'r gymuned. Mae hyn yn digwydd trwy'r pynciau y maen nhw'n eu hastudio a thrwy gymryd rhan hefyd mewn gweithgareddau allgyrsiol (er enghraifft, prosiect menter fach lle mae plant yn cynllunio, yn gwneud ac yn gwerthu cardiau cyfarch). Yn yr ysgolion yma, mae staff yn gwneud i blant a phobl ifanc deimlo'n ddiogel a theimlo eu bod nhw'n cael eu hannog. Mae staff yn annog plant, yn cynnwys rhai ifanc iawn, i fod yn rhan o'r broses o benderfynu ynglŷn â'r hyn y maen nhw'n ei ddysgu. Maen nhw'n gwrandao arny'n nhw ac yn gwerthfawrogi'u barn.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Remit_report_Decision_making.pdf

Addysg am gamddefnyddio sylweddau

Mewn ysgolion cynradd, fe wnaethon ni ganfod bod addysg am gamddefnyddio sylweddau'n helpu i ohirio'r oed pan fydd y rhan fwyaf o blant yn dechrau ysmegu ac arbrofi gyda sylweddau peryglus eraill fel cyffuriau neu alcohol. Ond, yn yr ysgolion uwchradd y gwnaethon ni eu harolygu, ychydig o effaith y mae addysg am gamddefnyddio sylweddau wedi'i chael o ran newid agweddau a gwerthoedd lleiafrif sylweddol o ddisgyblion sy'n parhau i ysmegu, yfed gormod o alcohol neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon.

Mae Cylchlythyr 17/02 Cynulliad Cymru: Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc yn amlinellu ffyrdd y gall ysgolion addysgu eu disgyblion am effeithiau camddefnyddio sylweddau. Er hynny, nid yw'n cynnig digon o arweiniad o ran helpu ysgolion i ddatblygu dull cydlynol effeithiol o ddelio â chamddefnyddio sylweddau, yn enwedig dull sy'n cynnwys cymunedau lleol.

Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn asesu pa mor effeithiol yw eu rhaglenni camddefnyddio cyffuriau ar agweddau, gwerthoedd ac arferion disgyblion.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Yn aml mae bylchau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion am faterion pwysig sy'n ymwneud â chanlyniadau corfforol, emosiynol ac iechyd meddwl cymryd cyffuriau anghyfreithlon neu sylweddau cyfreithlon fel alcohol neu dybaco. Nid yw disgyblion yn deall yr holl gysylltiadau rhwng camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad treisgar, rhyw anniogel, a niwed i blentyn heb ei eni.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ariannu'r rhan fwyaf o'r gwaith ym maes camddefnyddio cyffuriau mewn ysgolion yn uniongyrchol drwy 'Raglen Gyswilt yr Heddlu i Ysgolion Cymru Gyfan'. Ond nid yw pob awdurdod lleol yn cydlynu'r broses o gynllunio, addysgu, monitro a threfnu adnoddau'r rhaglenni yma mewn ysgolion yn dda. Mae hyn yn gwneud y gwaith yn llai effeithiol nag y gallai fod, er enghraifft wrth ddatblygu dull amlasiantaeth sydd wedi'i integreiddio'n llawn er mwyn helpu i rwystro plant, pobl ifanc a theuluoedd agored i niwed rhag camddefnyddio sylweddau.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Substance_Misuse_Children_and_Young_People_in_Welsh_Assembly_Government_June_2007.pdf

Arweiniad ar ryw a pherthnasoedd

Mae cyfraddau merched beichiog yn eu harddegau'n gyson uwch yng Nghymru nag yng Ngorllewin Ewrop neu Loegr. I fynd i'r afael â'r broblem yma, mae angen i ysgolion yng Nghymru a'u cymunedau ehangach wneud mwy i addysgu pobl ifanc am agweddau moesol ac emosiynol rhyw a pherthnasoedd.

Mae'n bosib i bobl ifanc ddewis yn fwy doeth os ydyn nhw'n deall mwy am gyfrifoldebau gofalu am faban neu ganlyniadau posib cael neu drosglwyddo afiechydon sy'n cael eu trosglwyddo'n rhywiol.

Dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n cynllunio ac yn cyflwyno addysg rhyw a pherthnasoedd o safon. Mae mwyafrif o'r ysgolion yn dibynnu ar sesiynau unigol, gan nyrs yr ysgol weithiau, ond dim ond ffeithiau sylfaenol am addysg rhyw y mae'r rhain yn eu cynnig. Dim ond ychydig o ysgolion sy'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr fod yn rhan o drafodaethau go iawn am faterion moesol ac emosiynol. Embaras, neu ddiffyg hyder ar ran yr athrawon yw'r rheswm am hyn yn aml. Er hynny, hyd yn oed yn yr ysgolion lle mae'r arferion gorau i'w gweld, mae disgyblion yn eu harddegau yn aml yn wynebu pwysau gan eu ffrindiau i gael rhyw a chymryd rhan mewn ymddygiad mentrus, ac mae llawer yn ei chael hi'n anodd gwrthsefyll hyn.

Nid yw awdurdodau lleol yn cyfrannu digon at y gwaith o arwain a chynnig cyfeiriad. Dydyn nhw ddim yn cydlynu gwaith gweithwyr proffesiynol y sector iechyd, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr ieuencid i ofalu bod pob ysgol yn addysgu am ryw a pherthnasoedd yn gyson ac yn effeithiol.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Sex_and_Relationships_Guidance_2007.pdf

Merched yn cymryd rhan mewn addysg gorfforol

Wrth ystyried cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, mae llawer o ffactorau'n dylanwadu ar ferched. Mae'r rhain yn cynnwys eu teimladau eu hunain am addysg gorfforol (AG), pwysau gan gyfoedion (mewn geiriau eraill, pwysau gan eu ffrindiau), agweddau eu rhieni a'r sylw i chwaraeon merched yn y cyfryngau. Er hynny, mae rôl bwysig gan ysgolion yn y gwaith o annog merched i gymryd rhan weithgar mewn addysg gorfforol.

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn darparu ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau i ferched, ond dim ond gemau tîm fel hoci a phêl-rwyd y mae llawer o ysgolion yn eu cynnig yn aml. Mae'r rhain, yn gyffredinol, yn apelio llai i ferched wrth iddyn nhw fynd yn hŷn. O ganlyniad, mae rhai merched yn ceisio osgoi gwersi addysg gorfforol, yn enwedig pan fyddan nhw'n mynd i'w harddegau. Mae'n well gan y rhan fwyaf o ferched weithgareddau ffitrwydd mwy creadigol fel yoga, dawns neu aerobeg.

Mae ystafelloedd newid agored, hen ffasiwn, gan lawer o ysgolion o hyd. Mae llawer o ferched yn eu harddegau'n teimlo cywilydd wrth ddefnyddio'r mathau yma o gyfleusterau gan nad ydyn nhw'n cynnig preifatrwydd.

Mae'n well gan lawer o ferched gymryd rhan mewn chwaraeon pan mae'r cit y maen nhw'n ei wisgo'n teimlo'n esmwyth, yn ddeniadol ac yn gwneud iddyn nhw edrych yn dda.

O ganlyniad, mae rhai ysgolion wedi llacio'u rheolau ynghylch dillad, ond gan barhau i fodloni gofynion hylendid a diogelwch ar yr un pryd.

Mae ychydig o ysgolion yn trefnu gwersi AG cyfnod allweddol 4 yn synhwyrol ar ddiwedd y dydd. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn gallu osgoi eistedd mewn gwersi sy'n dilyn AG yn teimlo'n boeth ac yn anesmwyth, a'u gwallt yn wlyb.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Girls_participation_in_physical_activity_in_schools_July_07.pdf

Y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Llwyddodd 2,110 o ddisgyblion i gwblhau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn 2007 o gymharu â 493 yn 2005. Eleni, mae 18 o ganolfannau'n treialu Diploma Sylfaen Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, sy'n targedu dysgwyr llai galluog. Yn y gyfres gyntaf o ganlyniadau ar y lefel yma, llwyddodd 86% o'r dysgwyr i gwblhau'r cymhwyster ac ennill y dyfarniad. Yn y canolfannau yma, mae'r addysgu'n effeithiol ac mae ffeiliau dysgwyr wedi'u trefnu'n dda ac yn cynnwys astudiaethau diddorol am Gymru, Ewrop a gweddill y byd.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Siart 24: Cyrhaeddiad dysgwyr yn 2005, 2006 a 2007

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru	2005 Canran y dysgwyr a gwblhaodd y cwrs ac a enillodd y cymhwyster	2006 Canran y dysgwyr a gwblhaodd y cwrs ac a enillodd y cymhwyster	2007 Canran y dysgwyr a gwblhaodd y cwrs ac a enillodd y cymhwyster
Diploma Uwch	77%	76%	82%
Diploma Canolradd	50%	64%	73%
Diploma Sylfaen	Dim ffigur ar gael	Dim ffigur ar gael	86%

Yn y Diploma Sylfaen a'r Diploma Canolradd, mae dwy ran o dair o ddysgwyr sy'n cwblhau'r cwrs ac yn ennill y cymhwyster yn ferched. Ychydig o dystiolaeth sydd i ddangos pam mae gwahaniaeth rhwng y ddau ryw. Yn y Diploma Uwch, mae dosbarthiad mwy cyson rhwng y ddau ryw, gyda thua hanner yr holl fechgyn a merched yn cwblhau'r cwrs ac yn ennill y cymhwyster. Mae bron i dri o bob 10 o ddysgwyr ar lefel ganolradd yn methu cwblhau'r cymhwyster.

Mae llawer o resymau dros weld cyfraddau cyrhaeddiad mor isel. Maen nhw'n cynnwys yr anhawster y mae dysgwyr yn ei gael i fodloni gofynion asesiadau medrau allweddol, a'r penderfyniad gan rai dysgwyr i ganolbwyntio ar eu cymwysterau safon uwch ar draul y fagloriaeth. Yn yr achosion yma, dydi medrau allweddol ddim yn cael eu haddysgu'n effeithiol yn aml, a dydi athrawon ddim bob amser yn arwain y dysgwyr yn effeithiol o ran cwblhau'r ymchwiliadau unigol i'r safon angenrheidiol.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Supplementary_Guidance_for_Inspecting_the_Welsh_Baccalaureate_Qualification_May_2007.pdf

Addysg Gymraeg a dwyieithog

Wrth ffurfio barn ynglŷn â safonau dwyieithrwydd, rydyn ni'n ystyried yr iaith y mae darparwyr fel ysgolion a cholegau'n ei defnyddio fel arfer, a'r ardaloedd y maen nhw'n eu gwasanaethu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau dwyieithog disgyblion mewn ysgolion yn debyg i'r llynedd. Mae'n dda mewn ychydig dros ddwy ran o dair o ysgolion cynradd, ac mewn rhyw hanner o'r holl ysgolion uwchradd. Mewn mwy a mwy o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i ddod i gysylltiad â'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd heblaw am eu gwersi Cymraeg. Ond nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn cynnig digon o gyfleoedd o hyd i ddefnyddio'r Gymraeg fel hyn.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Mewn gormod o'r ysgolion uwchradd yma, mae nifer llawer rhy isel o ddisgyblion yn dewis dilyn y cwrs llawn TGAU Cymraeg fel ail iaith (cyfeiriwch at yr adran nesaf, 'Cyrsiau byr TGAU mewn Cymraeg fel ail iaith').

Mae nifer y disgyblion sy'n cael eu holl wersi yn Gymraeg yn cynyddu'n araf. Mewn ysgolion cynradd, mae canran y disgyblion sy'n cael eu haddysgu yn Gymraeg yn bennaf wedi cynyddu ychydig o 18.2% yn 2002 i 20.3% yn 2007. Mae canran y disgyblion sy'n cael gwersi Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion uwchradd wedi cynyddu o 14.4% yn 2002 i 15.4% yn 2007.

Mewn rhai ardaloedd, mae awdurdodau lleol wedi llwyddo i helpu ysgolion i gyflwyno Cymraeg fel cyfrwng dysgu mewn ysgolion cynradd a oedd yn draddodiadol yn rhai cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn gwella mynediad at addysg Gymraeg ac yn codi safonau addysg ddwyieithog. Mewn rhai ardaloedd, mae gormod o ddisgyblion o hyd yn newid o ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gyntaf i ddefnyddio'r Gymraeg fel ail iaith wrth symud i'r ysgol uwchradd.

Mae diffygion pwysig yn eu darpariaeth ar gyfer datblygu medrau dwyieithog disgyblion gan ryw ddwy ran o dair o'r ysgolion arbennig a'r unedau cyfeirio disgyblion y gwnaethon ni eu harolygu. Does dim rhaid i ysgolion annibynnol addysgu Cymraeg, ond mae lleiafrif bach ohonyn nhw'n gwneud darpariaeth dda ar gyfer yr iaith.

Mae gan un o'r colegau addysg bellach y buon ni'n eu harolygu eleni ddarpariaeth ragorol ar gyfer datblygu medrau dwyieithog myfyrwyr.

Hefyd, mae'r nifer bach o golegau eraill y buon ni'n eu harolygu'n gwneud cynnydd da wrth ddatblygu darpariaeth ddwyieithog neu ddarpariaeth Gymraeg. Mae llawer o golegau wedi gwella'r cymorth y maen nhw'n ei gynnig i siaradwyr Cymraeg. Serch hynny, mae'r nifer cyffredinol sy'n asesu trwy'r Gymraeg yn isel iawn, hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae rhan fawr o'r dysgwyr yn fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith.

Mae tri o'r pump o ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned y gwnaethon ni eu harolygu yn gwneud cynnydd da o ran ehangu'u darpariaeth Gymraeg. Mewn cyferbyniad, ychydig iawn o ddysgwyr mewn darparwyr dysgu yn y gwaith sy'n cwblhau cymwysterau lle maen nhw wedi gorfod defnyddio Cymraeg drwyddi draw. Dydi dysgwyr ddim yn gallu mynd at ddigon o gyrsiau Cymraeg mewn rhyw 60% o'r darparwyr yma. Mae hyn yn wir hefyd yn y tri gwasanaeth cymorth ieuenctid y buon ni'n eu harolygu. Mae prinder y ddarpariaeth Gymraeg yn y darparwyr yma'n golygu bod pobl ifanc ac oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn colli allan ar gyfleoedd gwerthfawr i ddefnyddio ac i ddatblygu'u medrau iaith.

Mae gan y cwrs hyfforddi athrawon y buon ni'n ei arolygu eleni ddarpariaeth ddwyieithog dda iawn. Mae cyrsiau lle mae tiwtoriaid yn addysgu'n ddwyieithog yn helpu'r holl hyfforddeion i ddysgu termau pynciau penodol yn y ddwy iaith. Mae gan y Cwmni Gyrfa Cymru yr arolygon ni ddarpariaeth dda ar gyfer cleientiaid Cymraeg eu hiaith. Ond mae'n ei chael hi'n anodd trefnu digon o leoliadau profiad gwaith sy'n cynnig y cyfle i'w cleientiaid ddefnyddio Cymraeg. Yn y rhaglen Workstep, sy'n helpu pobl ag anabledau i gael swyddi, y gwnaethon ni ei arolygu, mae cyflogeion yn cyfathrebu'n dda yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Mae rhai darparwyr yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu cyfleoedd Cymraeg neu ddwyieithog i ddysgwyr o ganlyniad i weithio gyda'i gilydd. Er hynny, mae llawer o ddysgwyr yn y rhan fwyaf o Gymru'n dal i fethu cael digon o gyfleoedd i barhau â'u dysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar ôl gadael yr ysgol. Lle mae cyrsiau ar gael, mae darparwyr yn aml yn methu gwneud digon i ddangos eu manteision i'r dysgwyr.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiadau yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Bilingualism_in_Secondary_Schools_2007.pdf ac www.estyn.gov.uk/publications/cy_Canllawiau_atodol_ar_gyfer_arolygu_dwyieithrwydd_mewn_ysgolion_arbennig_ac_UCD_2007.pdf

Cyrsiau byr TGAU mewn Cymraeg fel ail iaith

Mae ysgolion sy'n addysgu Cymraeg fel ail iaith yn gallu cofrestru disgyblion ar gyfer y cwrs TGAU llawn neu'r cwrs TGAU byr.

Mae nifer y disgyblion sy'n dilyn y cwrs TGAU llawn mewn Cymraeg fel ail iaith wedi disgyn o ychydig dros 12,000 yn 2004 i ryw 9,500 yn 2006. Dros yr un cyfnod, mae cynnydd cyfatebol wedi bod yn nifer y rheini sydd wedi'u cofrestru ar gyfer y cwrs byr. Yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy, mae mwyafrif helaeth o'r disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith i lefel TGAU yn dilyn y cwrs llawn erbyn hyn.

Ond mae'r patrwm yn amrywio yng ngweddill Cymru. Yn ne-ddwyrain Cymru, yn benodol, mae cynnydd mawr iawn wedi bod yn nifer y disgyblion sy'n dilyn y cwrs byr. Hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae cymunedau Cymraeg eu hiaith, dim ond cyfran fach o ddisgyblion mewn rhai ysgolion sy'n dilyn y cwrs TGAU llawn.

Dim ond un disgybl o bob pump o'r rheiny sydd wedi'u cofrestru ar gyfer y cwrs byr sy'n sefyll yr arholiad lefel uwch. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion sydd â'r gallu i ennill y graddau uwch heb fod yn ennill gradd uwch nag C.

Nid yw'r rhan fwyaf o'r ysgolion sy'n cynnig y cwrs byr yn rhoi digon o amser addysgu iddo. Mewn ychydig o ysgolion, mae'n cael cyn lleied o amser â hanner awr yr wythnos. O ganlyniad mae disgyblion yn methu cael y graddau y gallan nhw eu cael, mae lefelau cymhellant yn isel ac mae agweddau negyddol tuag at ddysgu Cymraeg.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_GCSE_Welsh_second_language_short_course_October_2007.pdf

RAISE – ‘Gwella cyrhaeddiad a safonau unigol mewn addysg’

Ym mis Mai 2006, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyllid ychwanegol i ysgolion i ‘wella cyrhaeddiad a safonau unigol mewn addysg’ (RAISE). Mae ysgolion lle mae gan dros 20% o ddisgyblion hawl i brydau ysgol am ddim yn cael cyllid ychwanegol. Fe wnaethon ni arolygu sampl o brosiectau a chreu adroddiad interim ym mis Gorffennaf 2006 oedd yn rhoi sylw i effeithiau menter RAISE.

I gychwyn, doedd gan ysgolion ddim digon o amser i baratoi eu cynlluniau ar gyfer gwario'r arian ychwanegol, a dim ond ychydig o ysgolion wnaeth sefydlu prosiectau newydd. Defnyddiodd y rhan fwyaf o ysgolion y cyllid i wella agweddau ar eu darpariaeth bresennol ym maes llythrennedd a rhifedd disgyblion dan anfantais. Mae ychydig o ysgolion eraill wedi defnyddio'r cyllid i geisio gwella presenoldeb disgyblion neu i ddatblygu'u medrau meddwl.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rheoli'u prosiectau RAISE yn dda. Mae ganddyn nhw fannau cychwyn penodol, clir ar gyfer barnu'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Mae'r ysgolion yma'n deall y cysylltiad rhwng anfantais a thangyflawni. Er hynny, mae ychydig o ysgolion uwchradd wedi defnyddio'r ffaith fod disgyblion yn tangyflawni fel sail ar gyfer eu dewis ar gyfer y prosiectau. Dydyn nhw ddim wedi gofyn ai anfantais gymdeithasol ac economaidd sy'n eu dal yn ôl.

Mae'r holl awdurdodau lleol bron yn monitro cynlluniau gweithredu RAISE eu hysgolion. Er hynny, yn ystod cyfnod cynnar y fenter, roedd llawer o awdurdodau'n methu gweithio gydag awdurdodau eraill i gydlynu gweithgareddau ysgolion a gwaith yn ddigon manwl er mwyn gwneud y gorau o'r cynlluniau gweithredu. Hefyd, roedd y cynnydd o ran sefydlu cydlynwyr rhanbarthol ar draws Cymru yn araf.

Er ei bod hi'n rhy gynnar i fesur effaith lawn y prosiectau, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i'r cyfleoedd ychwanegol y maen nhw'n eu cynnig. Ond mae llawer o ysgolion yn methu cynllunio'n ddigon trylwyr er mwyn gwneud y gorau o fuddion y prosiectau pan fydd cyllid RAISE yn dod i ben.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn
www.estyn.gov.uk/publications/cy_The_impact_of_RAISE_funding_an_interim_report_July_2007.pdf

CLIC Ar-lein – gwasanaeth cyngor Cymdeithas Gyrfa Cymru

Gwasanaeth gwybodaeth a chyngor di-dâl i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed yng Nghymru yw CLIC Ar-lein. Cymdeithas Gyrfa Cymru sy'n rheoli'r prosiect a Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ei ariannu.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Fe wnaethon ni arolygu'r gwasanaeth tua hanner ffordd drwy'r prosiect pedair blynedd. Fe welon ni bod y gwasanaeth gwybodaeth yn berthnasol, yn ddefnyddiol ac yn effeithiol ar gyfer y bobl ifanc sy'n ei ddefnyddio. Dywedodd tri chwarter o'r bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw eu bod nhw wedi defnyddio CLIC Ar-lein. Er hynny, does dim digon o bobl yn gwybod am y gwasanaeth a dydi pobl ifanc ddim yn cael digon o gyfleoedd i gyfrannu at y gwaith o gynllunio a datblygu'r gwasanaeth.

Mae gwefan CLIC Ar-lein wedi'i hysgrifennu mewn arddull sy'n addas i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed, ond dydi'r arddull ddim mor addas i'r rheini rhwng 19 a 25 oed. Does dim digon o wybodaeth wedi'i thargedu ynddo i bobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu neu i'r rheini sydd ag anawsterau gweld neu glywed.

Nid yw Cymdeithas Gyrfa Cymru'n cynllunio, yn monitro nac yn asesu perfformiad a chynnydd CLIC Ar-lein yn dda. O ganlyniad, nid yw'n gallu nodi pa adnoddau ariannol fydd angen arni yn y dyfodol i ddatblygu'r gwasanaeth eto.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Review_of_the_Management_and_Delivery_of_the_National_Information_and_Advice_Project_CLIC_Online_May_2007.pdf

Cefnogi ymarferwyr

Anelu at Ragoriaeth

Rhaglen Llywodraeth Cynulliad Cymru yw Anelu at Ragoriaeth i helpu ysgolion uwchradd i wella'u haddysgu a chodi safonau yng nghyfnod allweddol 3.

O ganlyniad i'r rhaglen, mae'r addysgu yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella mewn llawer o ysgolion ac erbyn hyn mae'n fwy diddorol ac amrywiol. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd gwell ac mae safonau cyffredinol wedi gwella gan fod athrawon yn well o ran:

- ✓ cynllunio gwaith heriol sy'n adeiladu ar yr hyn mae disgyblion wedi'i ddysgu'n barod;
- ✓ helpu disgyblion i ddysgu yn y ffyrdd sy'n fwyaf addas iddyn nhw fel unigolion;
- ✓ herio disgyblion i feddwl yn greadigol a defnyddio'u dychymyg;
- ✓ gosod tasgau ymarferol lle mae angen i ddisgyblion feddwl drostyn nhw'u hunain a gweithio gydag eraill i ddatrys problemau;
- ✓ datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ym mhob un o'r gwersi; ac
- ✓ esbonio'n glir i ddisgyblion sut gallan nhw wella'u gwaith.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Er hynny, disgyblion llai galluog â medrau sylfaenol gwael sy'n gwneud y cynnydd lleiaf. Dydyn nhw ddim yn cael yr help angenrheidiol, yn enwedig i wella'u hysgrifennu. Bechgyn yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion yma. Dydi disgyblion galluog iawn ddim yn gwneud gystal ag y gallan nhw'n aml gan nad yw athrawon yn rhoi gwaith sy'n eu herio digon. Eto, bechgyn yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion yma.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Aiming_for_Excellence_Programme_2007.pdf

Y fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol

Cafodd y fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (AGChY) ei chyflwyno gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2001. Mae wedi gwella cyfleoedd, profiadau a safonau disgyblion mewn addysg gorfforol ar draws y wlad. Hefyd, mae wedi helpu i wella ymddygiad ac agweddau disgyblion, a datblygu medrau ehangach disgyblion.

Y llynedd, cymerodd tua 10,000 o athrawon ran mewn hyfforddiant perthnasol mewn canolfannau AGChY lle mae'r fenter wedi'i chyflwyno. Mae cyrsiau'n cynnwys amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud ag addysgu addysg gorfforol, yn cynnwys addysgu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a defnyddio TGCh mewn gwersi AG.

Mae'r hyfforddiant yn arbennig o effeithiol o ran helpu athrawon ysgolion cynradd i ddatblygu'r medrau y maen nhw eu hangen i addysgu addysg gorfforol yn well. Mae hefyd wedi helpu athrawon i gynllunio gweithgareddau addas ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd yn gyffredinol.

Mae'r fenter yn arbennig o lwyddiannus pan fydd arweinwyr ysgol yn esbonio manteision addysg gorfforol i iechyd disgyblion yn glir, ac yn dweud sut y gallai wella'u bywydau academaidd a chymdeithasol. Mae'r fenter yn gweithio orau pan fydd ysgolion yn cael cymorth a chynghor rheolaidd gan gynghorwyr AG arbenigol.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Sport_Action_Plan_progress_03_07.pdf

Addysg gorfforol a diogelwch yn yr awyr agored

Ers ein hadroddiad yn 2005 ar ddiogelwch mewn addysg gorfforol a gweithgarwch awyr agored, mae ysgolion ac awdurdodau lleol wedi gwneud cynnydd da. Maen nhw wedi gwella'r modd y maen nhw'n rheoli iechyd a diogelwch mewn addysg gorfforol, gan gynnwys chwaraeon ysgol a gweithgareddau awyr agored.

Mae'r holl awdurdodau lleol wedi cytuno y dylai ysgolion allu mynd at gynghorwyr addysg awyr agored, ac mae nifer wedi penodi staff arbenigol priodol yn barod.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Mae cynghorwyr yn rhoi cyngor defnyddiol i athrawon ar drefnu gweithgareddau newydd ac anghyfarwydd, gan gynnwys y gweithgareddau ar ddŵr ac i fyny yn y bryniau a'r mynyddoedd, ac wrth drefnu ymweliadau tramor. Er hynny, does dim person addas ar gael gan bum awdurdod lleol o hyd i ddarparu'r cymorth hwn y mae ei angen yn fawr i ysgolion.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn argymhell, yn briodol yn ein barn ni, y dylai ysgolion brynu copi o'r canllawiau arferion diogel y mae Cymdeithas Cynghorwyr a Darlithwyr Addysg Gorfforol Prydain wedi'u cyhoeddi. Ond mae ysgolion bach i'w gweld yn aml yn dibynnu ar hen fersiynau o'r canllawiau yma. Dylai awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod pob ysgol yn cael y fersiwn ddiweddar o'r canllawiau.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn trefnu i ysgolion gofnodi asesiadau risg ac i adrodd am unrhyw ddigwyddiadau ar unwaith. Er hynny, dydi ysgolion ddim yn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau gydag ysgolion eraill yn ddigon aml, er y gallai hyn eu helpu i osgoi damweiniau tebyg.

Mae'r holl awdurdodau lleol yn rhoi eu canllawiau eu hunain i ysgolion ar deithio dramor, ac mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw hefyd yn cynnig canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dim ond rhyw hanner o'r awdurdodau lleol sydd wedi cynnig hyfforddiant mewn swydd i athrawon sy'n arwain ymweliadau addysgol.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Health_and_Safety_in_school_sports_2007.pdf

Datblygiad proffesiynol athrawon

Rhaglenni ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rheoli rhan fawr o'r cyllid ar gyfer [gweithgareddau datblygiad proffesiynol i athrawon](#) ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r [categoriâu cyllid](#) sy'n cael eu cynnig yn briodol i anghenion dysgu gwahanol athrawon. Mae'r cyllid yn rhoi'r cyfle i athrawon benderfynu sut gallan nhw wella'u haddysgu a'u gwaith arall yn yr ysgol. Mae'r cyfle yma i ddewis eu datblygiad proffesiynol eu hunain yn cymhell y rhan fwyaf o athrawon ac yn dod ag egni a brwdfrydedd newydd i'w dulliau addysgu.

At ei gilydd, mae'r gronfa wedi cael effaith dda ar ysgolion. Mae llawer o athrawon yn cysylltu'u prosiectau'n dda â'u hamcanion gwaith personol neu â rhai o amcanion cynllun datblygu'r ysgol. Mae effaith y prosiectau'n gadarnach pan fydd staff uwch yn helpu athrawon i rannu canlyniadau eu gwaith ac yn rhoi cyfleoedd iddyn nhw arwain datblygiadau.

Er bod gwelliant wedi bod dros amser, mae effaith y ffyrdd newydd yma o weithio ar sail hyfforddiant datblygu yn amrywio'n fawr. Mae gormod o athrawon heb fod yn monitro nac yn asesu digon pa mor effeithiol yw'r ffyrdd newydd o addysgu o ran helpu disgyblion i wella'u safonau cyflawniad.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Mae penaethiaid i'w gweld yn fwy a mwy aml yn annog athrawon i wneud cais i'r gronfa am gyfleoedd datblygu na allan nhw eu darparu drwy gyllidebau ysgol. Mae ambell i gais yn methu sy'n golygu bod yr athrawon dan sylw'n colli cymhelliant.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Impact_of_the_CPD_programme_Summer_2006_Spring_2007.pdf

Sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar athrawon

At ei gilydd, mae'r rhaglen sefydlu a [datblygiad proffesiynol cynnar](#) yn helpu athrawon i ymgartrefu i'r proffesiwn addysgu'n dda. Mae'r rhaglen yn cynnig, yn eu swydd addysgu gyntaf, yr amser a'r help i adeiladu ar yr hyn y maen nhw wedi'i ddysgu yn ystod y cyfnod hyfforddi.

Mae llawer o athrawon newydd yn mwynhau datblygu'r ffordd y maen nhw'n addysgu er mwyn gweld eu disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae hawl gan athrawon newydd i benderfynu sut i ddefnyddio'r arian datblygu sy'n cael ei ddarparu ar eu cyfer, ac mae hyn yn ffordd gadarn ac effeithiol o'u cymell i wella'u medrau addysgu ac o wella dysgu eu disgyblion.

O ganlyniad i'r help a'r cyllid sydd ar gael yn ystod eu blynyddoedd cynnar o addysgu, mae'r rhan fwyaf o athrawon y gwnaethon ni eu cyfweld eisiau aros ym myd addysgu fel gyrfa dymor hir. Yn gyffredinol mae ganddyn nhw syniad da o rolau eraill ym myd addysg y gallan nhw symud iddyn nhw yn y blynyddoedd i ddod.

Er hynny, yn achos ychydig o athrawon, nid yw'r rhaglen yn eu helpu i deimlo'n fodlon yn eu swyddi nac yn eu hannog i aros mewn addysgu. Athrawon ysgolion cynradd yw'r rhain yn bennaf sydd heb swyddi amser llawn. Yn aml nid oes help a chefnogaeth ar gael iddyn nhw. Dydyn nhw ddim yn aros mewn swyddi addysgu'n ddigon hir mewn unrhyw un ysgol i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau perthnasol.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Induction_and_EPD_Programme_September_2007.pdf

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn ysgolion

Mae safonau cyflawniad mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd wedi gwella yn y pedair blynedd diwethaf. Er hynny, mae ysgolion cynradd wedi gwella'n gyflymach nag ysgolion uwchradd. Erbyn hyn mae gan ddwy ran o dair safonau da neu dda iawn mewn TGCh o gymharu ag ychydig dros hanner o'r ysgolion uwchradd.

Mae safonau cyflawniad mewn TGCh yn amrywio gormod o ysgol i ysgol a hyd yn oed rhwng dosbarthiadau yn yr un ysgol. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos llawer o ysgolion uwchradd lle mae'r athrawon yn methu adeiladu digon ar y profiadau TGCh a gafodd y disgyblion yn yr ysgol gynradd. Mae amrywiadau eang yn natblygiad medrau TGCh disgyblion rhwng adrannau pwnc o fewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn arwain at safonau is yn gyffredinol mewn TGCh mewn ysgolion uwchradd o gymharu ag ysgolion cynradd.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Mae rhywfaint o'r gwaith gorau mewn Saesneg, mathemateg a phynciau technoleg dylunio.

Mae gan y ddwy ran o dair o ysgolion cynradd a'r ychydig dros hanner o'r ysgolion uwchradd sy'n gwneud y gwelliannau mwyaf mewn TGCh uwch reolwyr sy'n:

- ✓ gofalu bod ffocws clir ar TGCh i ategu'r addysgu a'r dysgu ar draws y cwricwlwm;
- ✓ annog athrawon sy'n defnyddio TGCh yn fedrus ac yn effeithiol mewn gwersi i ddangos i athrawon eraill sut i wella'u haddysgu drwy ddefnyddio TGCh; a
- ✓ gwneud yn siŵr bod medrau TGCh disgyblion yn datblygu'n effeithiol ac mewn cyfnodau rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd.

Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn darparu adnoddau ar gyfer hyfforddi athrawon mewn TGCh. Mae awdurdodau lleol ac ysgolion cynradd yn gwneud defnydd effeithiol o'r cyllid hwn yn gyffredinol. Yn y pum mlynedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig wedi gwneud cynnydd da o ran gwneud yn siŵr bod y medrau a'r hyder gan eu staff i addysgu TGCh. Er hynny, dim ond lleiafrif o ysgolion uwchradd sydd wedi gwneud cynnydd tebyg.

I wella ymhellach, dylai ysgolion ac awdurdodau lleol helpu athrawon sy'n arbenigwyr i weithio gydag athrawon eraill i sicrhau gwell cysondeb a safon o ran cyflawniadau TGCh, rhwng dosbarthiadau yn yr un ysgolion ac o ysgol i ysgol.

I ategu'r gwaith yma, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru barhau i ariannu TGCh mewn ysgolion drwy'r Gronfa Ysgolion Gwell ac i ddarparu canllawiau ar sut i asesu'r ffordd y mae TGCh yn effeithio ar waith disgyblion.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Better_Schools_Fund_Provision_for_ICT_2007.pdf

Hyfforddiant Cymraeg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i athrawon

Mae CBAC yn cael cyllid o'r Gronfa Ysgolion Gwell i gefnogi hyfforddiant Cymraeg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i athrawon. Mae'n cyflogi swyddog datblygiad proffesiynol i:

- drefnu digwyddiadau hyfforddi i athrawon;
- cadw cofrestr o hyfforddwyr cymeradwy; a
- datblygu adnoddau i ategu hyfforddiant.

Nid yw'r trefniadau ar gyfer rheoli'r rhaglen hyfforddiant mewn swydd trwy gyfrwng y Gymraeg wedi'u datblygu gystal ag y maen nhw ar gyfer y rhaglen Gymraeg.

Mae'r swyddog datblygiad proffesiynol yn gweithio'n dda gyda staff awdurdod lleol i gynllunio ac i ddatblygu adnoddau a hyfforddiant.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Mae pob awdurdod lleol yn cael nifer penodol o sesiynau hyfforddi, ac mae hyn yn eu helpu i ddewis hyfforddiant sy'n berthnasol i'w hanghenion. Ond mae'r duliau dyrannu'n golygu nad oes taeniad addas o hyfforddiant cyfrwng Cymraeg bob tro.

Mae CBAC yn gofyn i awdurdodau lleol asesu ei gyrsiau hyfforddi. Er hynny, nid yw'n mynd ati i farnu'n ffurfiol ei hyfforddiant a'i ddeunyddiau hyfforddi o safbwynt gwella'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_WJEC_national_INSET_programmes_October_2007.pdf

Datblygiad proffesiynol arweinwyr

Y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol i Benaethiaid Ysgolion

Dechreuodd cwrs newydd [Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol i Benaethiaid Ysgolion \(CPCP\)](#) yng Nghymru ym mis Ionawr 2006. Mae'r hyfforddwyr wedi paratoi'n dda ac mae ganddyn nhw wybodaeth arbenigol a phrofiad da o arwain.

Mae'r cwrs newydd yn cysylltu'n dda â'r Safonau i Benaethiaid Ysgolion yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod hyfforddeion yn canolbwyntio ar y medrau a'r galluoedd y byddan nhw eu hangen fel penaethiaid ysgolion.

Ond nid yw'r cwrs yn rhoi digon o sylw i'r materion allweddol sy'n effeithio ar benaethiaid ysgolion yng Nghymru, er enghraifft, [laith Pawb](#), ysgolion â ffocws cymunedol a'r Llwybrau Dysgu 14-19. Ac nid yw'r cwrs yn datblygu medrau ymchwil hyfforddeion yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn ymdopi'n dda gyda'r cwrs. Maen nhw'n effeithiol wrth rannu syniadau ynglŷn ag arwain ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Maen nhw'n dod i ddeall yn dda sut mae ysgolion yn cael eu rheoli. Ond dydyn nhw ddim bob amser yn canolbwyntio digon ar y ffordd mae penaethiaid yn cynllunio at y dyfodol, nac ar yr hyn y mae arweinwyr lleoliadau addysg eraill yn ei wneud.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Review_of_the_revised_National_Professional_Qualification_for_Headship.pdf

Y Rhaglen Arweinyddiaeth Ymgynghorol i Benaethiaid Ysgolion

Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio i helpu penaethiaid profiadol i ddatblygu'u medrau arwain.

Mae penaethiaid yn datblygu medrau hyfforddi da er mwyn helpu uwch athrawon eraill i wella ysgolion. Mae penaethiaid yn defnyddio'r medrau yma'n dda i ddatblygu athrawon yn eu hysgolion eu hunain. Er hynny, mewn llawer o achosion, nid yw'r penaethiaid yn gallu helpu digon ar uwch athrawon ysgolion eraill.

Adran tri: Gweddnewid darpariaeth i ddysgwyr

Methu cymryd amser i ffwrdd o'u hysgolion eu hunain a diffyg cynllunio da ar ran awdurdodau lleol er mwyn defnyddio penaeithaid i helpu i wella ysgolion eraill yw'r prif resymau am hyn.

At ei gilydd, mae ansawdd y deunyddiau hyfforddi'n dda, ond does dim digon o ffocws ar faterion Cymreig na'r iaith Gymraeg.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_The_Consultant_Leadership_Pilot_Programme_for_Headteachers_in_Wales_May_2007.pdf

Arweinyddiaeth a rheolaeth strategol yn y sector addysg bellach, y sector dysgu yn y gwaith a'r sector dysgu oedolion yn y gymuned

Mae cyswllt clir rhwng llwyddiant dysgwyr ac arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol, ac mae hyn yn arbennig o effeithiol mewn addysg bellach ac yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned.

Mae'r arolygiadau mwyaf diweddar yn dangos llawer o welliant yn ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol mewn dysgu yn y gwaith. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth strategol effeithiol iawn gyda thraean o'r darparwyr dysgu yn y gwaith y gwnaethon ni eu harolygu. Er hynny, mae bwch rhwng cyflawniadau'r darparwyr hynny ag arweinwyr a rheolwyr effeithiol, a chyflawniadau'r rheini sydd heb, ac mae'r bwch yn tyfu.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn ei chael hi'n anodd dwyn partneriaethau strategol lleol yn eu blaen i greu newid sylweddol yn yr addysg a'r hyfforddiant ôl-16 sydd ar gael. Mae llawer yn amharod i fod yn rhan o fentrau a allai fygwth agweddau ar eu darpariaeth eu hunain. Fe allai mwy gael ei wneud trwy dargedu cyllid addysg a hyfforddiant ôl-16 yn well i adlewyrchu anghenion busnesau lleol a dysgwyr yn fwy cywir.

Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr mwyaf effeithiol yn dadansoddi cynnydd eu sefydliadau a chyflawniad eu dysgwyr yn rheolaidd ac yn gyson. Mae dryswch ynghylch newidiadau cenedlaethol i systemau rheoli data wedi rhwystro arweinwyr a rheolwyr wrth reoli ansawdd a chynllunio.

Erbyn hyn mae arweinwyr a rheolwyr mewn addysg bellach yn cael cyfleoedd datblygiad proffesiynol â strwythur da iddyn nhw. Yn aml, mae llawer llai o'r math yma o gyfleoedd yn y sectorau eraill, yn enwedig mewn darparwyr hyfforddiant y sector preifat.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_Leadership_and_strategic_management_in_the_further_education_May_2007.pdf

Y Grant Sefydliadau Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol

Mae'r Grant Sefydliadau Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol wedi effeithio'n gadarnhaol iawn ar waith ieuenctid y sector gwirfoddol. Mae'r grant yn ariannu llawer o'r rhaglenni sefydledig sydd ar gael i bobl ifanc. O ganlyniad, mae pobl ifanc yn cael gwell cyfleoedd addysgol sy'n gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.

Mae rhyw hanner o'r sefydliadau sy'n cael y grant yn ei ddefnyddio'n dda iawn i ategu'r gwaith o weinyddu eu sefydliadau a'u rhaglenni eu hunain. Ond mae chwarter yn ansicr ynglŷn â'r ffordd orau o wario'u dyraniad.

Mae ychydig o sefydliadau'n defnyddio'r grant yn effeithiol i gyfrannu at ddatblygu polisi ieuenctid. Ond mae llawer o'r sefydliadau sy'n cael y grant yn dal i fethu cyflwyno ac ymateb i ddatblygiadau polisi cenedlaethol gystal ag y gallen nhw. Y rheswm am hyn yw nad ydyn nhw'n adnabod y berthynas rhwng polisiau ieuenctid cenedlaethol a'u gwaith eu hunain.

Mae llawer o'r sefydliadau'n defnyddio'r grant i ariannu rhaglenni effeithiol, fel cynlluniau dyfarnu a bathodynau sy'n cydnabod cyflawniadau pobl ifanc. Ond mae sefydliadau'n aml yn methu rhoi gweithdrefnau ar waith i fonitro effaith ac ansawdd y rhaglenni yma.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn
www.estyn.gov.uk/publications/cy_National_Voluntary_Youth_Organisations_2007.pdf

Pa mor dda mae dysgwyr sy'n astudio cyrsiau gofal cymdeithasol yn cyflawni mewn colegau addysg bellach a dysgu yn y gwaith

Fe wnaethon ni arolygu gwasanaethau iechyd cyhoeddus a gofal mewn saith o ddarparwyr dysgu yn y gwaith a saith o ddarparwyr addysg bellach. Roedd pob un o'r saith coleg addysg bellach yn perfformio'n dda. Mae diffygion mewn chwech o'r darparwyr dysgu yn y gwaith. Mae'r safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni mewn dau o'r rhain yn dangos diffygion mewn meysydd pwysig.

Mae dysgwyr mewn colegau addysg bellach yn fwy llwyddiannus wrth gyflawni'u cymwysterau na'r dysgwyr hynny sy'n astudio gyda darparwyr dysgu yn y gwaith. Mae nifer mawr o ddysgwyr yn y gwaith yn methu ennill eu [fframweithiau cymwysterau](#).

Yn yr holl ddarparwyr y gwnaethon ni eu harolygu, roedd cyflawniad, cynnydd a datblygiad medrau dysgwyr a oedd yn dal ar eu rhaglenni'n dda yn gyffredinol. Mewn llawer ohonyn nhw, roedden nhw'n dda iawn yn aml, ac yn rhagorol weithiau.

Mae'r holl ddysgwyr yn datblygu medrau galwedigaethol ac ymarferol priodol, a da iawn yn aml, ac yn perfformio'n dda yn y gweithle.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn
www.estyn.gov.uk/publications/cy_Training_for_the_social_care_sector_in_work_based_learning_and_further_education_July_2007.pdf

Sut olwg fydd ar ddysgu?

Gweddnewid ysgolion

Ar draws Cymru, mae ysgolion wedi cyrraedd gwahanol gamau yn y broses o roi'r newidiadau ar waith y mae eu hangen i ddod â nhw i'r 21ain ganrif. Er bod ansawdd cyffredinol addysg wedi gwella'n gyffredinol i ddysgwyr, mae ein papur trafod, 'Gweddnewid ysgolion', yn amlinellu pam mae angen i ysgolion wneud newidiadau mwy sylweddol er mwyn gwneud rhagor o gynnydd. Rydyn ni'n tynnu sylw at yr angen i ysgolion ymateb i'r nifer mawr heriau a chyfleoedd sy'n bodoli mewn byd cystadleuol sy'n newid yn gyflym. Mae ein papur trafod yn ategu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 'Y Wlad sy'n Dysgu' sy'n gosod agenda uchelgeisiol sy'n gofyn i addysg a dysgu gydol oes edrych ymhell i'r dyfodol er mwyn cystadlu â goreuon y byd.

Mae'r adroddiad yn archwilio agweddau gwahanol ar y ddarpariaeth ysgol, a'r modd y gall ysgolion addasu er mwyn cynnig dysgu sydd wedi'i deilwra i anghenion pob unigolyn. Rydyn ni'n cyfeirio at newidiadau y mae eu hangen mewn arferion addysgu a dysgu, y defnydd o dechnoleg, y cwricwlwm medrau, strwythurau staffio ac adeiladau ysgol. Rydyn ni'n dadlau dros yr angen i gael gwared ag arferion trefniadol hen ac anhyblyg mewn ysgolion, fel yr amserlenni dyddiol a'r amserlenni tymor, a rhoi arferion gweithio modern sy'n fwy cyson â gwasanaethau cyhoeddus eraill yn eu lle.

Mae ein hadroddiad yn tynnu sylw hefyd at ddarpariaeth ysgol-cymuned ar draws Cymru, a rôl y gwahanol bartneriaid sydd erbyn hyn yn cyfrannu at bob agwedd ar ddysgu, iechyd a lles disgyblion. Rydyn ni'n pwysleisio y bydd angen i arweinwyr a rheolwyr y dyfodol fod yn fwy uchelgeisiol a chreadigol yn y ffordd y maen nhw'n defnyddio medrau ac adnoddau eu staff a'u partneriaid cymunedol yn ogystal ag amser, adnoddau ac adeiladau. Rydyn ni o'r farn bod angen i ysgolion gael eu trefnu, eu rheoli a'u staffio'n fwy hyblyg er mwyn gallu ymateb yn well i anghenion dysgwyr a chymunedau.

Rydyn ni'n dod i'r casgliad na all yr un sefydliad na'r un unigolyn ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu ysgolion, na'u datrys. Mae angen mwy o gydweithredu a disgygliadau uchel cyson os ydyn ni'n mynd i weld rhagor o gynnydd mewn addysg a gwelliant i ddysgwyr.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn
www.estyn.gov.uk/publications/cy_Transforming_Schools_A_Discussion_Paper_2007.pdf

Adeiladau ysgol a'u heffaith ar berfformiad disgyblion

Mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn dal heb benderfynu faint o ysgolion y byddan nhw eu hangen yn y dyfodol ar adeg pan fo niferoedd disgyblion yn disgyn yn gyflym oherwydd gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol wedi amcangyfrif bod gwaith atgyweirio a chynnal a chadw gwerth rhyw £640 miliwn wedi cronni yn eu hysgolion. Nid yw'r gost i wneud eu hysgolion yn addas ar gyfer addysg fodern wedi'i hamcangyfrif eto, ond fe fydd yn sylweddol uwch. Nid yw adeiladau ysgol sy'n heneiddio ac sydd mewn cyflwr gwael yn cyfateb i anghenion addysgu a dysgu modern. Mae adeiladau annigonol yn ei gwneud hi'n anoddach gwella safonau gwaith.

Ym mhob ysgol bron sydd ag adeiladau newydd neu adeiladau wedi'u hadnewyddu, rydyn ni wedi gweld gwelliannau yn ansawdd yr addysgu ac yn safonau gwaith disgyblion. Mewn rhai achosion, mae'r gwelliant mewn safonau wedi bod yn sylweddol, yn enwedig mewn ychydig o ysgolion mewn cymunedau sydd yn cael eu hamddifadu'n fawr yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Mae gwelliannau yn ansawdd adeiladau'n hwb i forâl staff, ac yn aml mae hyn yn arwain at wella perfformiad disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig mwy o bynciau a gweithgareddau'r tu allan i'r dosbarth i ddisgyblion nag oedd ar gael yn eu hadeiladau blaenorol, oherwydd bod mwy o le a gwell cyfleusterau. Hefyd, mae'r ysgol yn gwella'n sylweddol o ran ei darpariaeth o weithgareddau cyn ac ar ôl ysgol.

Ond nid yw adeiladau gwell ar eu pen eu hunain yn arwain o reidrwydd at wella'r addysgu a pherfformiad disgyblion. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth dda'n ddylanwad cryf ar lefelau gwelliant hefyd.

I wneud yr holl adeiladau ysgol yn addas i'r diben, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i ddarparu grantiau gwella adeiladau i awdurdodau lleol. Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion, yn eu tro, ofalu bod cyswllt clir yn eu cynlluniau rhwng y strategaethau ar gyfer gwella adeiladau ysgolion, lleihau'r nifer o leoedd gwag mewn ysgolion a chodi safonau.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein hadroddiad yn www.estyn.gov.uk/publications/cy_School_Buildings_2007.pdf

Y fframwaith arolygu cyffredin

Mae'r fframwaith arolygu cyffredin ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru'n canolbwyntio ar saith cwestiwn allweddol sy'n berthnasol i'r darparwr yn ei gyfanrwydd. Mae'r fframwaith hefyd yn ystyried agweddau ar waith y darparwr fel meysydd dysgu, pynciau, cyrsiau a rhaglenni. Mae'r cwestiynau allweddol yn dilyn.

Safonau

1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Ansawdd addysg a hyfforddiant

2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Arweinyddiaeth a rheolaeth

5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Graddfa arolygu

Mae'r trefniadau arolygu, a gafodd eu cyflwyno ym mis Medi 2004, yn cynnwys dull gwahanol o arolygu. Mae'r trefniadau yma'n cynnwys y syniad o lefelau risg fel sail ar gyfer dewis math penodol o arolygiad. Mae amodau clir ar gyfer dynodi'r raddfa risg.

Mae tri math o arolygiad: llawn, safonol a byr. Ym mhob math o arolygiad, mae arolygwyr yn arfarnu ac yn adrodd ar bob un o saith cwestiwn allweddol y fframwaith arolygu cyffredin. Er hynny, mae'r math o arolygiad yn dibynnu ar y lefel risg. Mae darparwyr risg uchel yn cael arolygiad llawn sy'n cynnwys arfarnu'r holl raglenni addysg a hyfforddiant y maen nhw'n eu cynnig. Mewn arolygiad safonol, mae arolygwyr yn arfarnu ac yn adrodd ar tua hanner o'r ddarpariaeth. Mewn arolygiad byr, mae sampl llai fyth o'r ddarpariaeth yn cael ei harolygu, gan gynnwys arfarniad o'r cynllunio, y cyflwyniad a'r safonau mewn medrau allweddol.



Geirfa

Adran Gwaith a Phensiynau	Mae'n disodli'r Ganolfan Byd Gwaith. Hwn yw sefydliad y llywodraeth sy'n delio â phobl ddi-waith ac sy'n eu helpu i ddod o hyd i waith.
Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS)	Mae APADGOS yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.
addysg bersonol a chymdeithasol	Mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn cynnwys popeth mae ysgol yn ei wneud i hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol ei disgyblion. Mae hyn yn cynnwys yr holl brofiadau a'r cyfleoedd dysgu sy'n cael eu cynllunio. Bydd y rhain yn digwydd nid yn unig yn yr ystafell ddosbarth, ond mewn meysydd eraill o brofiad ysgol hefyd sy'n dangos gwerthoedd a bywyd cymunedol yr ysgol.
Addysg cyfrwng Cymraeg	Ysgol sy'n addysgu dros hanner ei phynciau yn Gymraeg yw ysgol Gymraeg
addysg gwerthoedd	Datblygu synnwyr disgyblion o gyfrifoldeb cymdeithasol a pharch tuag at eraill yw addysg gwerthoedd
addysg heblaw addysg yn yr ysgol	<p>Addysg yw hon sy'n cael ei darparu i ddisgyblion na allan nhw, am amrywiaeth o resymau, fynd i'r ysgol. Yn aml, disgyblion yw'r rhain y mae eu hanghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad wedi arwain at eu gwahardd o'r ysgol. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys disgyblion sy'n methu mynd i'r ysgol am resymau iechyd. Mae'r ddarpariaeth addysgol y tu allan i leoliad yr ysgol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • unedau cyfeirio disgyblion sydd wedi'u cofrestru (cyfeiriwch at 'unedau cyfeirio disgyblion'); • addysg yn y cartref gan wasanaeth dysgu gartref yr awdurdod lleol; • addysg a hyfforddiant sy'n cael eu darparu gan asiantaethau allanol fel y tîm troseddau ieuencid, asiantaethau gwirfoddol neu ddarparwyr yn y gwaith; ac • unedau cyfeirio disgyblion nad ydyn nhw wedi cofrestru ac nad ydyn nhw felly'n cael eu harolygu.

aelodau etholedig	Cynghorwyr yw'r rhain sydd wedi'u hethol gan ddinasyddion ardal i'w cynrychioli ar gyngor awdurdod lleol am gyfnod o bedair blynedd
AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn un o isadrannau Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru.
anghenion addysgol arbennig	Mae gan blant a phobl ifanc anghenion addysgol arbennig os oes ganddyn nhw anghenion dysgu sy'n galw am drefnu bod addysg arbennig ar gael ar eu cyfer.
anghenion dysgu ychwanegol (ADY)	<p>Mae'r term yma'n ymwneud ag amrywiaeth eang iawn o anghenion. Rydyn ni'n defnyddio'r term ADY mewn perthynas â dysgwyr sydd ag anghenion heblaw am anghenion y rhan fwyaf o'u cyfoedion yn y dosbarth, am nifer o resymau gwahanol, gan gynnwys dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ag anghenion addysgol arbennig (AAA), fel sy'n cael ei ddiffinio yng Nghod Ymarfer AAA Cymru (2002); • anabl, fel sy'n cael ei ddiffinio yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995; • ag anghenion meddygol; • ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiad; • mwy galluog a dawnus na'r rhan fwyaf o'u cyfoedion yn y dosbarth; a • sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.
ailfodelu'r gweithlu	Ym mis Ionawr 2003 cyhoeddodd y DfES (ers iddo gael ei ddisodli gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd) ddogfen o'r enw 'Codi safonau a mynd i'r afael â'r baich gwaith: cytundeb cenedlaethol'. Roedd yn cynnwys diwygio rolau staff cymorth mewn ysgolion er mwyn cynnig cymorth gwell i athrawon a disgyblion.

amser cynllunio, paratoi ac asesu	Cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) 'Codi safonau a mynd i'r afael â baich gwaith: cytundeb cenedlaethol' ym mis Ionawr 2003. Fel rhan o'r cytundeb yma, bydd o leiaf 10% o amser pob athro, o fis Medi 2005, wedi'i warantu yn ystod y diwrnod ysgol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.
anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad	Gall disgyblion sydd â'r anawsterau ddangos ymddygiad encilgar, unig, aflonyddgar, gorfywiog, disylw, anaeddfed yn gymdeithasol neu heriol. Mae anawsterau cysylltiedig gan rai o'r disgyblion yma o ran iechyd meddwl neu iechyd corfforol, cyfathrebu a dysgu.
anawsterau dysgu difrifol a dwys	Mae anawsterau deallusol neu wybyddol sylweddol gan ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu difrifol. (Mae anawsterau gwybyddol yn cynnwys cyflyrau fel problemau cofio tymor byr neu dymor hir, ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau, cynllunio a threfnu'r tasgau bob-dydd mwyaf syml. Fe all fod anawsterau cysylltiedig ganddyn nhw o ran symud a chydweithredu, cyfathrebu a deall, a dysgu medrau hunangymorth.)
anawsterau dysgu dwys	Mae gan ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu dwys anawsterau difrifol wrth geisio dysgu. Maen nhw'n arwain at oedi sylweddol wrth geisio cyrraedd cerrig milltir datblygiadol. Maen nhw hefyd yn dangos anawsterau symud, anawsterau synhwyraidd sylweddol (fel problemau clywed neu weld) neu anghenion gofal iechyd cymhleth.
arolygiad ardal	Mewn arolygiadau ardal, rydyn ni'n arolygu ac yn mesur ansawdd math arbennig o addysg neu hyfforddiant i ddysgwyr 14-19 oed yn un o ardaloedd penodol Cymru.
aseswyr cymheiriaid	Pobl yw'r rhain sy'n ymuno â thîm arolygu ac sy'n gweithio yn y sector sydd i'w arolygu ar hyn o bryd. Maen nhw'n gallu cyfrannu eu profiad eu hunain o arferion gweithio cyfredol. Mae angen i aseswyr cymheiriaid fodloni amodau penodol cyn cael eu dewis, a rhaid iddyn nhw gwblhau rhaglen hyfforddi berthnasol.

ASSET	Mae gweithwyr timau troseddau ieuencid yn defnyddio ffurflenni ASSET i gofnodi ac asesu anghenion pob person ifanc ar ddechrau ac ar ddiwedd pob ymyriad (mewn geiriau eraill, pan fydd person ifanc yn ymddwyn mewn modd sy'n gorfodi'r oedolyn mewn gofal i gamu i mewn). Mae'r ffurflenni yma'n rhestru'r holl ffactorau risg sy'n ymwneud ag ymddygiad troseddol. Mae gweithwyr yn sgorio pob adran fel y gallan nhw fesur newidiadau mewn ymddygiad pobl ifanc.
awdurdod lleol	Awdurdod neu gyngor sy'n gyfrifol am ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys addysg i ddisgyblion o oed ysgol mewn ardal benodol
awtistiaeth	Mae disgyblion sydd ag awtistiaeth yn cael anawsterau gyda pherthnasoedd cymdeithasol, cyfathrebu'n gymdeithasol a meddwl â dychymyg. Mae disgyblion yn cwmpasu'r amrediad gallu llawn, a gall fod anawsterau dysgu neu anableddau eraill gan rai hefyd.
(y) blynyddoedd cynnar	Mae hyn yn cyfeirio ar yr addysg sy'n cael ei darparu i blant ifanc, hyd at bump oed fel arfer, cyn dechrau addysg orfodol.
Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr	Sefydliad cyhoeddus anadrannol yw hwn a gafodd ei sefydlu ym mis Medi 1998 i gydlynu'r system cyfiawnder ieuencid ar gyfer Cymru a Lloegr. Ei nod yw atal troseddu gan blant a phobl ifanc drwy atal troseddu ac ofn troseddu, adnabod a delio â phobl ifanc sy'n troseddu, a mynd ati i leihau troseddu.
Cadw mewn Cysylltiad (KIT)	Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i wasanaethau cymorth ieuencid ofalu bod cydlynu gwell yn eu gwaith o roi cymorth i bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. 'Cadw mewn Cysylltiad' yw'r enw cyffredin ar y strategaeth. Mae'n rhoi manylion am helpu sefydliadau i rannu gwybodaeth yn fwy effeithiol er mwyn helpu pobl ifanc i fynd i mewn i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, ac aros yno.

<p>canlyniadau dymunol ar gyfer dysgu plant</p>	<p>Chwe maes dysgu a phrofiad yw'r canlyniadau dymunol ar gyfer dysgu plant. Eu bwriad yw helpu'r plant i fodloni gofynion cyfreithiol y Cwricwlwm Cenedlaethol pan fyddan nhw'n bump oed. Dyma'r meysydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • iaith, llythrennedd a chyfathrebu; • datblygiad personol a chymdeithasol; • datblygiad mathemategol; • gwybodaeth am y byd a dealltwriaeth ohono; • datblygiad corfforol; a • datblygiad creadigol.
<p>CBAC</p>	<p>Bwrdd arholi Cymru</p>
<p>Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant (CCA)</p>	<p>Grwpiau lleol o ddarparwyr addysg a hyfforddiant i ddysgwyr dros 16 oed yw'r rhain. Mae pob consortiwm yn cwrdd yn rheolaidd i drafod a chynllunio'r ddarpariaeth leol.</p>
<p>craidd dysgu</p>	<p>Un o chwe rhan Llwybrau Dysgu 14-19 yw'r craidd dysgu. Mae'n rhoi sylw i'r medrau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y gwerthoedd a'r profiadau y mae'r holl bobl ifanc eu hangen i'w paratoi ar gyfer bywyd.</p>
<p>Y Cwricwlwm Cymreig</p>	<p>Mae hwn yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'n helpu disgyblion i ddatblygu a defnyddio'u gwybodaeth am nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru, a dod i'w deall.</p>
<p>cydaddoli</p>	<p>Yn ôl y gyfraith, rhaid i ysgolion gynnal gweithred gydaddoli. Rhaid i natur y cydaddoli fod yn Gristnogol yn gyfan gwbl neu'n bennaf.</p>

<p>cyflawniad</p>	<p>Mae arolygwyr yn barnu cyflawniad yn ôl perfformiad dysgwyr o ran eu gallu, a'r cynnydd maen nhw'n ei wneud. (Cyfeiriwch at 'cyrhaeddiad' hefyd.)</p>
<p>Y Cyfnod Sylfaen</p>	<p>Menter Llywodraeth Cynulliad Cymru yw hon sy'n rhoi sylw i'r blynyddoedd cynnar a chyfnod allweddol 1 (plant rhwng tair a saith oed). Mae 42 o leoliadau'n rhoi'r fenter ar brawf o fis Medi 2004. Ei nod yw darparu cwricwlwm eang, cytbwys ac amrywiol ar ffurf saith maes dysgu i ateb gwahanol anghenion datblygu plant bach. Dyma'r saith maes dysgu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol a lles; • iaith, llythrennedd a chyfathrebu; • datblygiad mathemategol; • dealltwriaeth ddwyieithog ac amlddiwylliannol; • gwybodaeth am y byd a dealltwriaeth ohono; • datblygiad corfforol; a • datblygiad creadigol.
<p>cyfnodau allweddol</p>	<p>Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn rhannu cyfnod addysg orfodol yn bedwar cyfnod allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfnod allweddol 1 i ddisgyblion 5 i 7 oed; • cyfnod allweddol 2 i ddisgyblion 7 i 11 oed; • cyfnod allweddol 3 i ddisgyblion 11 i 14 oed; a • chyfnod allweddol 4 i ddisgyblion 14 i 16 oed.

<p>Cyngor Sgiliau Sector</p>	<p>Sefydliad annibynnol sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr yw Cyngor Sgiliau Sector (CSS). Mae'n rhoi sylw i fedrau galwedigaethol penodol. Ei rôl yw gwella cyfleoedd dysgu trwy brentisiaethau modern, a lleihau unrhyw brinder o weithwyr medrus.</p>
<p>cyngor ysgol</p>	<p>Cyngor ysgol yw grŵp cynrychioliadol o ddisgyblion sy'n cael eu hethol gan ddisgyblion eraill i drafod materion am eu haddysg ac i leisio'u pryderon wrth uwch reolwyr a llywodraethwyr eu hysgol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru fwynhau eu haddysg a theimlo bod eu hysgol yn ymateb i'w hanghenion. Dylai disgyblion gael y cyfle i fynegi eu teimladau ac i roi eu barn i oedolion ar y pethau sy'n effeithio arnyn nhw. Dylen nhw hefyd fod yn cael cyfle i leisio barn ar benderfyniadau ac i chwarae rôl weithredol yn y broses o wella'u hysgol.</p>
<p>Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (WBQ)</p>	<p>Fe gyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn 2003 fel prosiect peilot tair blynedd i ddysgwyr 16 oed a hŷn. Dim ond ar lefel 2 a lefel 3 yr oedd y cymhwyster peilot ar gael yn ystod y tair blynedd gyntaf. Ym mis Medi 2006, daeth y cymhwyster peilot lefel 2 ar gael i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion. Ar yr un pryd, cafodd y cymhwyster peilot lefel 1 ei gyflwyno hefyd i ddysgwyr 16 oed ac iau. Mae deg ysgol ac wyth o golegau'n cymryd rhan yn y prosiect peilot lefel 1.</p> <p>Ym mis Hydref 2006, ar ôl cwblhau'r prosiectau peilot lefel 2 a lefel 3 yn llwyddiannus, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau bod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru'n cael ei gyflwyno fesul cam o fis Medi 2007 ymlaen. Erbyn hyn mae'r cymhwyster newydd yma ar gael mewn 76 o ganolfannau ar draws Cymru.</p>
<p>Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol i Benaethiaid Ysgolion</p>	<p>Cymhwyster gorfodol i'r rheini sydd am fynd yn benaethiaid ysgolion.</p>

<p>Cymorth</p>	<p>Cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cymorth plant ac ieuenctid yw hwn. Mae ar gyfer plant a phobl ifanc sydd o deuluoedd dan anfantais yn bennaf. Partneriaethau Plant a Phobl ifanc sy'n rheoli'r cyllid yma.</p>
<p>Cymraeg i oedolion</p>	<p>Addysgu i oedolion sydd am ddysgu Cymraeg yw Cymraeg i oedolion. Fel arfer, mae dysgwyr yn dilyn y cyrsiau yma'n rhan-amser. Maen nhw'n mynd i sesiwn o leiaf unwaith yr wythnos. Mewn llawer o achosion, mae dechreuwyr yn mynd i ddsbarthiadau am bedair awr yr wythnos o leiaf.</p>
<p>cymwysterau medrau allweddol (i ddysgwyr 14 oed a hŷn)</p>	<p>Dyma'r medrau allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfathrebu; • cymhwyso rhif; a • defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. <p>Dyma'r medrau allweddol ehangach:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datrys problemau; • gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun; a • gweithio gydag eraill. <p>Mae'r medrau allweddol yma ar gael o lefel 1 i lefel 4. Wrth i ddysgwyr fynd drwy'r lefelau, maen nhw'n symud o dasgau syml i dasgau mwy cymhleth. Rhaid iddyn nhw hefyd ddangos bod eu gallu'n cynyddu i ddefnyddio medrau lefel uwch fel dadansoddi, arfarnu a chyfiawnhau.</p>
<p>cynhwysiad</p>	<p>Un o brosesau parhaus addysg yw cynhwysiad. Mae'n golygu chwalu'r pethau sy'n rhwystro dysgwyr rhag dysgu ac annog yr holl ddysgwyr mewn ysgolion lleol i gymryd rhan.</p>

cynllun adfywio	Nod y cynllun adfywio yw hybu datblygu'r economi lleol yn y tymor hir trwy weithgareddau sy'n helpu busnesau i dyfu ac sy'n gwella medrau trigolion lleol
Cynllun Addysg Sengl	Mae gwasanaethau addysg yn dod o dan gyfres o gynlluniau, fel y Cynllun Strategol Addysg a'r Cynllun Cymorth Ymddygiad. Mae'r cynlluniau yma wedi'u disodli gan gynllun addysg sengl. Fe ddylai cynllun addysg sengl bennu canlyniadau ar gyfer y gwasanaethau addysg mae awdurdodau lleol yn eu darparu'n unol â pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc	Dan y trefniadau presennol, rhaid i awdurdodau addysg lleol greu Cynlluniau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc ar wahân, sef Cynlluniau Plant a Chynlluniau Pobl Ifanc. Eu pwrpas yw cydlynu addysg a hyfforddiant plant a phobl ifanc o'u geni hyd at 24 oed. O 2008 ymlaen, bydd yr holl gynlluniau yma, yn cynnwys y Cynllun Addysg Sengl (cyfeiriwch at 'Cynllun Addysg Sengl'), yn mynd yn rhan o'r cynlluniau cyfunol newydd dan y Ddeddf Plant. Yr enw newydd ar y cynlluniau yma fydd Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.
cyrhaeddiad	Mesur o berfformiad dysgwyr mewn profion cenedlaethol ac yn y cymwysterau neu'r credydau y maen nhw'n eu hennill (cyfeiriwch at 'cyflawniad' hefyd)
cytundeb baich gwaith	Ym mis Ionawr 2003 cyhoeddodd y DfES (bellach wedi'i ddisodli gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd) ddogfen o'r enw 'Codi safonau a mynd i'r afael â'r baich gwaith: cytundeb cenedlaethol'. Roedd yn nodi cynllun saith pwynt i leihau baich gwaith athrawon a gwella safonau. 'Cytundeb baich gwaith' yw'r enw arno.
dangosydd pwnc craidd (CSI)	Mae'r dangosydd yma'n dangos canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir ganddyn nhw mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg fel mamiaith.

darparwr	Term cyffredinol sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio unrhyw sefydliad neu bartneriaeth sy'n darparu addysg a hyfforddiant, fel ysgol, coleg, darparwr hyfforddiant yn y gwaith, darparwr gwaith ieuencid, darparwr gwasanaethau cymorth ieuencid, partneriaeth pobl ifanc, awdurdod lleol, sefydliad gwirfoddol, cwmni gyrfa neu sefydliad addysg uwch
data gwerth ychwanegol	Mesur yw hwn o faint y gwelliant y mae ysgol wedi'i gyflawni dros amser ar gyfer disgybl. Hynny yw, y fantais gymharol y mae ysgol yn ei rhoi i ddisgybl, ar ôl ystyried ei allu.
data meincnod	Mae hwn yn cyfeirio at y wybodaeth asesu y mae ysgolion yn ei defnyddio i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion eraill.
datblygiad cynaliadwy	Mae hyn yn golygu gwella ansawdd bywyd heb ei beryglu yn y dyfodol. Er enghraifft, trwy aildefnyddio ac ailgylchu papur, cardfwrdd a deunyddiau eraill.
datblygiad proffesiynol cynnar	Mae hyn yn cyfeirio at raglen o ddatblygiad proffesiynol i athrawon yn eu hail neu drydedd flwyddyn o addysgu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n noddi'r athrawon yma i ddatblygu mwy ar eu medrau fel athrawon.

<p>datblygiad proffesiynol parhaus – categorïau ariannu sy'n cael eu gweinyddu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrsariaeth Datblygiad Proffesiynol – hyd at £600 (ymweliadau y tu allan i Ewrop – hyd at £1,000) – ar gyfer gweithgarwch datblygu y mae'r athro'n ei ddewis, yn cynnwys yn y DU a'r tu allan i'r DU • Ysgoloriaeth Ymchwil Athrawon – hyd at £2,500 – i wneud gwaith ymchwil mewn maes sy'n berthnasol i ystafell ddosbarth, ysgol neu adran yr unigolyn • Cyfnod Sabothol i Athrawon – hyd at £5,000 – i alluogi athro i ymgymryd â chyfnod astudio estynedig neu ddatblygu medrau mewn amgylchedd gwahanol y gallan nhw eu trosglwyddo i'w disgyblion • Rhwydwaith Proffesiynol – hyd at £8,000 – i alluogi grŵp o athrawon i weithio gyda'i gilydd yn rheolaidd • Y Fwrsariaeth Grŵp – hyd at £3,600 (rhwng tri a chwe athro mewn un grŵp) – i alluogi athrawon i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu arfer yr athrawon hynny o fewn y grŵp yn yr ystafell ddosbarth
<p>dinasyddiaeth fyd-eang</p>	<p>Mae hyn yn golygu dysgu sut mae gweithgareddau a digwyddiadau ar draws y byd yn effeithio ar ein bywydau, a sut gall ein bywydau effeithio ar bobl eraill.</p>
<p>dwyieithrwydd neu medrau dwyieithog</p>	<p>Mae hyn yn golygu bod â'r gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu mewn dwy iaith.</p>
<p>Dysg</p>	<p>Is-adran o fewn Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd addysgu a dysgu yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-14</p>
<p>dysgu oedolion yn y gymuned neu ddysgu oedolion</p>	<p>Yr amrywiaeth o gyrsiau a dosbarthiadau sy'n cael eu cynnig i oedolion mewn lleoliadau yn y gymuned, gan gynnwys addysg sylfaenol oedolion, Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), Cymraeg i oedolion, a phynciau fel technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ieithoedd, celf a chrefft, datblygiad personol ac astudiaeth academaidd</p>

dysgu yn y gwaith	Mae darparwyr dysgu yn y gwaith y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cynnig hyfforddiant ac asesu galwedigaethol, yn y gweithle'n bennaf.
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol (Cymru)	Ffederasiwn sy'n cynrychioli'r mwyafrif o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghymru. Mae aelodau'r sefydliad yn darparu rhaglenni i baratoi dysgwyr at waith. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn rhaglenni prentisiaeth yn y gweithle.
fforwm ieuenctid	Grŵp ffurfiol o bobl ifanc sy'n byw yn ardal awdurdod lleol. Maen nhw'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion sy'n bwysig i bobl ifanc yr ardal. Yn aml, bydd cyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, fel addysg, hamdden ac iechyd, mewn ardal benodol yn ymgynghori â'r fforwm er mwyn canfod barn pobl ifanc ar y gwasanaethau yma.
fframwaith cymhwyster	Ym maes dysgu yn y gwaith, rhaid i ddysgwyr ennill un neu fwy o gymwysterau medrau allweddol neu dystysgrifau technegol er mwyn ateb gofynion y Cyngor Sgiliau Sector (cyfeiriwch at 'Cyngor Sgiliau Sector') ar gyfer pob sector dysgu. Rhaid iddyn nhw hefyd ennill Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol i gyflawni fframwaith cymhwyster llawn.
gwahardd	Pan fo ysgol yn dweud wrth ddysgwr am beidio â dod i'r ysgol naill ai am gyfnod penodol (er enghraifft, wythnos) neu'n barhaol

<p>gwasanaethau cymorth ieuenctid</p>	<p>Gwasanaethau yw'r gwasanaethau cymorth ieuenctid sy'n helpu pobl ifanc, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant; • manteisio ar gyfleoedd swyddi; a • chymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau. <p>Mae'r gwasanaethau yma'n cael eu rhedeg gan amryw o ddarparwyr fel awdurdodau lleol (gan gynnwys y gwasanaeth ieuenctid statudol), darparwyr ieuchyd, a sefydliadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol. Maen nhw'n cael eu hariannu o sawl ffynhonnell yn cynnwys nawdd awdurdodau lleol, a chyllid cenedlaethol, Ewropeaidd ac o'r sector gwirfoddol.</p>
<p>gwelliant sylweddol</p>	<p>Mae angen i ysgol wneud gwelliant sylweddol os nad yw'n perfformio gystal ag y gallai, a hynny'n sylweddol, yn yr holl amgylchiadau y gellir disgwyl yn rhesymol iddi berfformio.</p>
<p>gwendidau difrifol</p>	<p>Er bod ysgol yn cynnig addysg o safon dderbyniol i'w disgyblion, mae ganddi wendidau difrifol os oes gwendidau yn un neu fwy o'i meysydd gweithgareddau. Mae'r categori yma o ysgolion wedi'i ddisodli erbyn hyn gan welliant sylweddol (cyfeiriwch at 'gwelliant sylweddol').</p>
<p>Iaith Pawb</p>	<p>'Iaith Pawb' yw'r cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog a gafodd ei lansio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2003. Mae'n cynnwys dros 60 o bwyntiau gweithredu i hyrwyddo dwyieithrwydd.</p>
<p>lleoedd heb eu llenwi</p>	<p>Lleoedd heb eu llenwi yw lle mae llai o blant mewn ardal nag sydd yna o leoedd ar gael yn yr ysgol. Weithiau yr enw arnyn nhw yw lleoedd dros ben.</p>

lleoliadau	Mae'r rhain yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, drwy'r Partneriaethau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, i ddarparu addysg ran-amser i blant tair i bump oed. Mae lleoliadau'n cynnwys cylchoedd chwarae, darparwyr gofal dydd preifat, meithrinfeydd annibynnol a gwarchodwyr plant.
lleoliadau nad ydyn nhw'n cael eu cynnal	Darpariaeth breifat fel cylchoedd chwarae i blant dan bump oed
lleoliad diogel	Lleoedd yw'r rhain lle mae pobl ifanc, sydd wedi torri'r gyfraith, yn treulio'u dedfryd ar ôl iddyn nhw gael eu dyfarnu'n euog mewn llys. Sefydliadau troseddwy'r ifanc neu gartrefi plant diogel yw lleoliadau diogel. Y gwasanaeth carchardai neu'r gwasanaethau cymdeithasol sy'n cynnal y cyfleusterau yma.
Llwybrau Dysgu 14-19	Strategaethau'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer datblygu a gwella cyfleoedd addysg a hyfforddiant i ddisgyblion 14-19 oed y cyfeirir atyn nhw yn 'Y Wlad Sy'n Dysgu (2001) ac 'Y Wlad Sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 4-19' (2002)
maes dysgu	Mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith, mae pynciau'n cael eu grwpio'n 'feysydd dysgu'. Rydyn ni'n dyfarnu graddau ac yn ysgrifennu adroddiadau arolygu dan benawdau'r meysydd dysgu yma.

medrau allweddol (i ddisgyblion 16 oed ac iau)	<p>Dyma'r medrau allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none">• siarad;• gwranddo;• darllen;• ysgrifennu;• defnyddio rhifau (rhifedd); a• defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. <p>Dyma'r medrau allweddol ehangach i ddisgyblion 14 i 16 oed:</p> <ul style="list-style-type: none">• datrys problemau;• gwella'ch dysgu a'ch perfformiad ei hun; a• gweithio gydag eraill.
medrau sylfaenol	<p>Y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac i ddefnyddio mathemateg ar lefel sy'n angenrheidiol i rywun weithredu mewn gwaith a chymdeithas</p>
mesurau arbennig	<p>Mae ysgol yn cael ei nodi fel un y mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith ynddi:</p> <ul style="list-style-type: none">• pan fydd yn methu rhoi safon dderbyniol o addysg i'w phlant; ac• nid yw'r gallu gan y bobl sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r ysgol i wneud y gwelliannau angenrheidiol ynddi.

<p>mynediad</p>	<p>Gwasanaeth awdurdod lleol sy'n delio â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • darparu amrediad a nifer priodol o leoedd ysgol; • derbyniadau i ysgolion; • cludiant o'r ysgol i'r cartref; a • rheoli cyflwr ac addasrwydd pob adeilad ysgol
<p>oed ysgol gorfodol</p>	<p>Y cyfnod pan fydd rhaid i blant gael addysg addas yw oed ysgol gorfodol. Mae'n dechrau pan fydd plentyn yn cyrraedd pump oed a rhaid iddyn nhw ddechrau'r ysgol yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn bump oed. Mae'r cyfnod yn dod i ben ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin y flwyddyn ysgol pan fydd y plentyn yn cyrraedd 16 oed.</p>
<p>Partneriaeth Pobl Ifanc</p>	<p>Maen nhw'n cyflwyno gwasanaethau cymorth ieuenctid i bobl ifanc yng Nghymru. Rhaid i'r partneriaethau ofalu bod gwasanaethau cymorth ieuenctid yn cael eu darparu ar draws ardal awdurdod lleol, a rhaid iddyn nhw ymgynghori â phobl ifanc ynglŷn â'r gwasanaethau y maen nhw eu hangen. Mae'r partneriaethau'n cael eu cydlynu gan yr awdurdod lleol.</p>
<p>perchennog</p>	<p>Mae'r term 'perchennog', fel mae Deddf Addysg 1986 yn ei ddiffinio, yn golygu'r person neu'r bobl sy'n gyfrifol am reoli ysgol annibynnol. Gall gynnwys perchennog unigol, cyrff llywodraethol, ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr. Mae dulliau rheoli a pherchenogaeth ysgolion annibynnol yn amrywio'n fawr iawn. Gall perchennog neu ymddiriedolaeth fod yn berchen ar ysgol, neu fe all corff llywodraethu benodi pennaeth dros yr ysgol. Mae cyfuniad o'r rhain gan rai ysgolion.</p>
<p>plant sy'n derbyn gofal</p>	<p>Plant yw'r rhain y mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant cyfreithiol drostyn nhw. Mae'r term yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio pob plentyn sydd wedi'i enwi mewn gorchymyn gofal, neu sy'n cael llety yn wirfoddol am dros 24 awr. 'Mewn gofal' yw'r hen enw arno.</p>

pwynt canran	Y gwahaniaeth rhwng dwy ganran yw pwynt canran. Er enghraifft, mae cynnydd o 30% i 33% yn gynydd o dri phwynt canran, nid cynnydd o 3%.
rheolaeth strategol	Mae hyn yn cyfeirio at weledigaeth glir gan arweinwyr a rheolwyr ar gyfer rôl addysg, sy'n cael ei hadlewyrchu mewn blaengynlluniau clir.
rheoli perfformiad	System o werthusiadau gorfodol i athrawon yw'r rhain, a'u bwriad yw helpu ysgolion i wella drwy gynorthwyo a gwella gwaith athrawon
Rhwydweithiau Dysgu 14-19	Grwpiau strategol o ddarparwyr addysg a hyfforddiant mewn ardal leol yw'r rhain. Fe'i sefydlwyd fel rhan o 'Llwybrau Dysgu 14-19' (cyfeiriwch at 'Llwybrau Dysgu 14-19').
Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY)	Mae hwn yn cyfeirio ar ddisgyblion sydd heb Saesneg fel mamiaith.
Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE)	Mae'r cyrsiau yma ar gyfer oedolion sydd heb Saesneg fel mamiaith. Maen nhw'n dilyn y cyrsiau yma i wella'u medrau iaith Saesneg.
safon uwch	Tystysgrif Addysg Gyffredinol ar safon uwch
Safonau Ysgolion Annibynnol	Cyfres o safonau yw'r rhain y mae ysgolion annibynnol yn cael eu barnu yn eu herbyn. Rhaid i ysgolion fodloni'r safonau yma cyn y gallan nhw gael eu cofrestru ac fel amod o barhau wedi'u cofrestru. Mae'r safonau wedi'u rhestru yn Rheoliadau Addysg (Safonau Ysgolion Annibynnol) 2003. Mae saith o safonau ac mae dros 100 o reoliadau ynddyn nhw.
sefydliad troseddwr ifanc	Canolfan lle mae pobl ifanc rhwng 15 a 21 oed, sydd wedi torri'r gyfraith, yn treulio cyfnod dedfryd ar ôl iddyn nhw gael eu dyfarnu'n euog mewn llys. Y Gwasanaeth Carchardai sy'n cynnal y cyfleusterau yma.

Strategaeth Trosedd ac Anhrefn	Roedd Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn rhoi cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol, yr heddlu, awdurdodau heddlu, awdurdodau iechyd a phwyllgorau prawf i gydweithredu wrth ddatblygu strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â throseddau ac anhrefn yn eu hardal, a'i rhoi ar waith.
Swyddfa Cofnodion Troseddol	Asiantaeth weithredol y Swyddfa Gartref, a gafodd ei sefydlu i helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel. Mae'n bosib cael gwybodaeth am gofnodion troseddol.
swyddog lles addysg	Maen nhw'n gweithio gydag ysgolion, disgyblion a theuluoedd i ddelio â materion presenoldeb gwael.
tîm troseddau ieuenctid	Nod Timau Troseddau Ieuenctid yw atal pobl ifanc rhag torri'r gyfraith neu eu helpu i beidio â gwneud hynny eto. Mae gweithwyr proffesiynol lleol yn gweithio gyda'i gilydd mewn timau ac yn rhoi'r gwasanaethau angenrheidiol i bobl ifanc i'w helpu i oresgyn eu hanawsterau. Mae gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid yn gweld pobl ifanc yn gyson. Maen nhw'n helpu pobl ifanc i ddod i ddeall teimladau eu dioddefwyr, ac i feddwl beth a'u harweiniodd at droseddau. Mae gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid yn datblygu rhaglen o gymorth hefyd, sy'n cynnwys cyngor ar gyffuriau ac alcohol, a chymorth gydag addysg, iechyd a chartrefi. Hefyd, mae pobl ifanc yn cael help i reoli eu dicter.
Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch (TGAU)	Mae'r mwyafrif o bobl ifanc 16 oed yn ennill y cymhwyster yma.
therapyddion	Mae'r term yma'n cynnwys pobl fel therapyddion lleferydd ac iaith, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a seicolegwyr sy'n asesu plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac yn darparu cymorth ar eu cyfer.
unedau cyfeirio disgyblion (UCD)	Ysgolion yw'r rhain sydd wedi'u sefydlu ac sy'n cael eu cynnal gan awdurdod lleol ar gyfer disgyblion o oed ysgol gorfodol. Mae disgyblion fel arfer yn mynd i unedau cyfeirio disgyblion am eu bod nhw wedi'u gwahardd o'r ysgol neu am eu bod nhw'n absennol dro ar ôl tro o'r ysgol. Fel arall, fyddai'r disgyblion ddim yn cael addysg addas.

